Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD RHITHWIR O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

**ar**

**DYDD MAWRTH 18 MAI 2021**
**am 10.30 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

**for a**

**VIRTUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

**on**

**TUESDAY 18 MAY 2021**
**at 10.30 am**

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2021.

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

**4. RHYBUDD O GYNIGIAD YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD**

Cyflwyno'r Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorydd Robert G Parry:-

*Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn dymuno cydnabod y camweinyddiad cyfiawnder sylweddol a ddioddefwyd gan y cyn Gynghorydd Mr Noel Thomas pan y'i cafwyd yn euog o gyfrifyddu anwir, un ar bymtheg mlynedd yn ôl. Hoffai'r Cyngor wahodd Mr Thomas i fynychu'r cyfarfod llawn nesaf er mwyn iddo dderbyn pleidlais ffurfiol o ddiolch am ei wasanaeth ffyddlon fel Cynghorydd Sir.*

**5. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2020/21**

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad**.**

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwyno adroddiad gan Mr John R Jones, Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2020/21**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2020/21**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**10.** **<u>DATGANIAD AR Y POLISI TRWYDDEDU AM Y CYFNOD 2021-2026</u>**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Mawrth 2021.

**11.** **<u>PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL A WNAED RHWNG MAI 2020-EBRILL 2021</u>**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Isgadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R Ll Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Pennaeth Dros Dro Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Eric Wyn Jones |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor Sir yn gywir:-

- 8 Rhagfyr, 2020
- 2 Chwefror, 2021 (Arbennig)

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Bu i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatgan diddordeb personol yn Eitem 13 – Datganiad Polisi Tâl ac nid oeddent yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidlais yn dilyn hynny.

Bu i'r Cynghorydd R Meirion Jones ddatgan diddordeb personol personol sy'n rhagfarnu yn Eitem 13 – Datganiad Polisi Tâl ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidlais yn dilyn hynny.

Bu i’r Cynghorydd Ieuan Williams ddatgan diddordeb personol personol sy’n rhagfarnu yn Eitem 10 – Cyllideb 2021/2022 ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidlais yn dilyn hynny.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i staff y Cyngor am eu hymrwymiad parhaus i gynnal gwasanaethau'r Cyngor yn ystod y cyfnod anodd a heriol ers y pandemig.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Mr George North sydd bellach wedi derbyn ei ganfed gap i Gymru.
- Estynnwyd dymuniadau gorau i Mrs Judith Thomas, Rheolwr Gwasanaethau Cyfieithu, yn dilyn ei hymddeoliad diweddar ar ôl nifer o flynyddoedd o wasanaeth fel cyfieithydd ac fel rhan o'r tîm sy'n cefnogi Pwyllgorau'r Cyngor.

* * * * *

- Estynnwyd cydymdeimlad i Mr Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn marwolaeth ei dad yn ddiweddar.
- Estynnwyd cydymdeimlad i deuluoedd a ffrindiau'r rhai sydd wedi colli aelodau o'r teulu oherwydd y pandemig.
- Estynnwyd cydymdeimlad i unrhyw Aelod o'r Cyngor neu Staff a oedd wedi dioddef profedigaeth.

## 4. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 O’R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd rhybudd o’r cwestiwn canlynol gan y Cynghorydd Robert Ll Jones i Arweinydd y Cyngor:-

*‘Rydym bellach yn gweld gostyngiad sylweddol yn y traffig nwyddau sy’n mynd a dod i Ddulyn drwy Borthladd Caergybi.*

*Mae nifer o wahanol resymau yn cael eu rhoi am hyn ac mae’n rhaid i ni fel Cyngor Sir fod yn bryderus a chael ein gweld i fod yn gwneud popeth y gallwn er mwyn cefnogi’r ddau gwmni llongau a’u gweithlu.*

*Allwch chi hysbysu’r Llongwyr lleol a thrigolion Caergybi ac Ynys Môn beth yn union yr ydym ni fel Cyngor wedi ei wneud er mwyn ymgysylltu â’n Haelod Cynulliad a’n Aelod Seneddol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud popeth posibl er mwyn helpu ein porthladd i gynyddu’r llif traffig drwy Gaergybi.*

*Mae hon yn sefyllfa ddifrifol iawn a does dim amheuaeth bod Gweithredwyr Porthladdoedd eraill yn y DU a Ffrainc yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod ein traffig yn mynd trwy eu porthladdoedd nhw a bydd eu hawdurdodau lleol nhw yn gwneud popeth o fewn eu gallu i’w hannog nhw i wneud hynny.’*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol i drafod y pryderon am yr Ynys. Nododd fod trafodaethau ynglŷn â Phorthladd Caergybi wedi'u cynnal dros nifer o flynyddoedd a'i bod, fel Arweinydd, wedi codi’r mater yng nghyfarfodydd CLILC, sef fod angen cefnogi awdurdodau lleol sydd â Phorthladdoedd o fewn eu hawdurdod. Dywedodd hefyd fod disgwyl y byddai oedi wedi

bod o ran traffig ym Mhorthladd Caergybi ond mae'n amlwg bod llif y traffig wedi lleihau. Dywedodd yr Arweinydd ei bod wedi gofyn am gyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â Phorthladd Caergybi a bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Mr Jeremey Miles AS, Mr Ken Skates AS, Ms Julie James AS a Ms Leslie Griffiths AS. Dywedodd hefyd fod trafodaeth wedi'i chynnal gyda Llywodraeth Iwerddon i rannu profiadau o ran Awdurdod y Porthladd a bod Swyddogion o'r Cyngor hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Iwerddon ynghyd ag Awdurdod y Porthladd. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â dynodiad porthladd di-dreth/treth is ar gyfer Porthladd Caergybi ac mae'r 5 awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru wedi cefnogi hyn i sicrhau budd economaidd i Ogledd Cymru gyfan.

Diolchodd y Cynghorydd R Ll Jones i Arweinydd y Cyngor am y gwaith a wnaed o ran Porthladd Caergybi. Dywedodd ei bod yn ymddangos bod cerbydau nwyddau trwm yn osgoi teithio o Iwerddon i Gaergybi oherwydd dogfennau ac nad yw cludwyr nwyddau am gario llwythi cymysg. Gofynnodd i'r Pwyllgor Gwaith ddangos eu bod yn gweithio i fynd i'r afael â cholli traffig drwy Borthladd Caergybi o ganlyniad i Brexit. Mewn ymateb dywedodd yr Arweinydd fod 96% o waith papur cludo nwyddau sy'n dod drwy Borth Caergybi yn dderbyniol a gellir ymdrin â'r 4% o waith papur sy'n weddill mewn llai na hanner awr.

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## 6. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13 .1 Y CYFANSODDIAD

Derbyniwyd - y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Robert Ll Jones:-

*‘Mae dyletswydd ar ein Cyngor i gadw at Ddatganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau sy’n Ystyrio o Oedran yn Ewrop 2013 er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o bobl hŷn yn y gymuned ac i sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw a’u bod yn cael cyfle i rywun wrando arnynt. Mae gan Ynys Môn un o’r poblogaethau hŷn mwyaf yng Nghymru ac mae eu cyfraniad i economi Ynys Môn yn bwysig iawn.*

*Mae gennym Fforwm Pobl Hŷn ar Ynys Môn ac nid ydynt erioed wedi derbyn cyflwyniad gan yr Adran Economaidd na’r Adran Gynllunio ar ddatblygiadau mawr megis Wylfa, Coedwig Penrhos, y datblygiad mawr ym Marina Caergybi na datblygiad Tŷ Mawr yn Llanfairpwll.*

*Rwy’n gofyn i hyn gael ei wneud yn rhywbeth gorfodol a bod cyflwyniad yn cael ei roi ar bob datblygiad mawr er mwyn sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed pan ddaw hi at benderfyniadau am fannau agored a’r posibilrwydd o ddinistr amgylcheddol.*

*Mae mannau agored a mannau cerdded yn ein trefi a chefn gwlad mor bwysig i ni gyd ond yn enwedig i’n trigolion oedrannus ac anabl.*

Mewn ymateb, dywedodd Deilydd Portffolio Cynllunio fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni ei ddyletswyddau datblygu cynaliadwy sy'n gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r system gynllunio'n cyfrannu drwy gyflawni ei dyletswyddau o ran y 'pum ffordd o weithio' a geir yn y Ddeddf. Mae angen ystyried y rhain: cynnwys; cydweithio; integreiddio; atal; a ffactorau hirdymor. Mae'r ystyriaethau hyn yn rhan annatod o'r system gynllunio ac mae ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori â holl aelodau'r gymuned yn elfen allweddol a chanolog o arferion a gweithdrefnau cynllunio, ar y lefel strategol wrth lunio polisi cynllunio a'r lefel leol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol, beth bynnag fo'u graddfa. Mae hyn yn sicrhau nad oes unrhyw grŵp neu aelodau penodol o gymdeithas naill ai'n cael eu

ffafrio ac na wahaniaethir yn eu herbyn fel bod datblygiadau newydd yn creu cymunedau cydlynol, teg a gwydn sy'n diwallu anghenion pawb, beth bynnag fo'u hoedran.

Llywodraeth Cymru sy'n gwneud gofynion statudol ar gyfer cyhoeddusrwydd ac ymgynghori ar faterion cynllunio ac nid oes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol unrhyw bwerau i orfodi fel arall. Neilltuir cryn amser, ymdrech ac adnoddau eisoes nid yn unig i fodloni, ond i ragori ar y gofynion statudol gofynnol hyn. Er gwaethaf yr uchod, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr henoed yn cael eu heithrio mewn unrhyw ffordd gan y trefniadau presennol, yn wir gellid dadlau y byddai canolbwyntio'n benodol ar un grŵp o gymdeithas yn dangos ffafriaeth ar draul eraill.  Mae anawsterau ymarferol hefyd wrth ddiffinio'r hyn a fyddai'n gyfystyr â 'datblygiad mawr' ar draws y cymunedau amrywiol ar Ynys Môn e.e. gellid dehongli 'datblygiad bach' yn un o'r prif drefi fel 'datblygiad mawr' gan gymunedau llai yr ynys. Mae hyn yn anochel yn arwain at bryderon ynghylch cysondeb a thegwch.  Dywedodd Deilydd Portffolio Cynllunio na allai gefnogi'r cynnig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R Ll Jones at ohebiaeth a dderbyniodd gan Arweinydd Heneiddio'n Dda Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a ofynnodd i Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr gyfarfod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i drafod y dull sy'n ystyriol o oedran gan ei bod yn ymwybodol o'r ffocws ataliol y mae'r Cyngor yn gweithio tuag ato. Dywedodd mai ei Hysbysiad o Gynnig yw tynnu sylw at anghenion poblogaeth oedrannus yr Ynys a dangos i awdurdodau lleol eraill benderfyniad y Cyngor i gryfhau deddfwriaeth ar Ddatganiad Dulyn er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad cynllunio sy'n effeithio ar yr amgylchedd yn ystyriol o oedran a’n bod yn ymgynghori â’r henoed ac yn gwrando arnynt.

Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod yn cyfarfod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn rheolaidd a nododd y gall pob person ar yr Ynys ymateb i wasanaethau a gynigir gan y Cyngor.

**Yn y bleidlais a ddilynodd PENDERFYNWYD na ddylid cadarnhau’r cynnig.**

## 7. RHEOLI TRYSORLYS – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Rhagfyr 2020 i'r Cyngor ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2020/21.**

## 8. STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021 i'r Cyngor ei dderbyn.

Holodd y Cynghorydd Aled M Jones am y dyraniad ariannol a'r grantiau a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.  Mewn ymateb, dywedodd Deilydd Portffolio Cyllid fod Grantiau'n cael eu rhoi gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a’i bod yn anodd rhagweld y swm a dderbynnir.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei fod yn dibynnu ar yr adnoddau ariannol sydd gan Lywodraeth Cymru ar gael i'w dosbarthu i awdurdodau lleol a bod yr arian fel arfer yn cael ei roi drwy fformiwla i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.  Mae rhywfaint o grantiau’n cael eu dynodi ar gyfer prosiectau penodol o fewn awdurdodau lleol ac mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd awdurdodau lleol i anfon ceisiadau grant ar gyfer grantiau o'r fath ac i wario'r grantiau o fewn y flwyddyn ariannol.  Dywedodd hefyd fod grantiau wedi eu derbyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf tuag at gynnal a chadw ysgolion a oedd yn dod i £1m.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22.**

## 9. STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2021/22 I 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021 i'r Cyngor ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i 2023/24.**

## 10. CYLLIDEB 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mawrth 2021 i'r Cyngor ei dderbyn.

Cyflwynodd Deilydd Portffolio Cyllid gynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y Gyllideb Refeniw a'r Dreth Gyngor ddilynol ar gyfer 2021/22, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi'i diweddaru a'r defnydd o unrhyw arian untro i gefnogi'r gyllideb - eitemau 10 (a) i (ch) o fewn yr Agenda. Dywedodd fod hon wedi bod yn flwyddyn anodd oherwydd y pandemig a dymunodd ddiolch i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'i staff am eu gwaith. Pan gafodd ei benodi'n Ddeilydd Portffolio Cyllid yn 2019, dywedodd mai ei flaenoriaeth oedd mynd i'r afael â chronfeydd wrth gefn y Cyngor. Cyfeiriodd at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Gorffennaf 2019 a nododd fod y duedd ddiweddar i leihau balans y gronfa gyffredinol yn anghynaliadwy ac yn cynyddu'r angen i'r Cyngor gyflawni arbedion cylchol. Cydnabyddir bod hon yn risg gan y Swyddog Adran 151 a'r Cyngor a derbynnir bod angen cyllideb fwy hirdymor ar gyfer ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn. Fel Deilydd Portffolio, roedd yn falch o adrodd bod cronfeydd wrth gefn y Cyngor bellach mewn sefyllfa well ac mae'n amserol sicrhau bod cyllideb y Cyngor yn cael ei gosod yn ddoeth i drigolion yr Ynys. Y cynnig cychwynnol oedd cynyddu'r Dreth Gyngor 3.75% ond ar ôl ymgynghori â thrigolion yr Ynys a chael rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru, argymhellwyd y dylid cynyddu'r Dreth Gyngor 2.75% er mwyn cydbwyso cyllideb y Cyngor. Y cynnydd hwn yn y dreth gyngor fydd yr isaf yng Ngogledd Cymru a'r ail isaf yng Nghymru.

Dywedodd y Cynghorydd G O Jones fod Cyngor Gwynedd hefyd wedi derbyn cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ond ei fod wedi penderfynu peidio â lleihau eu cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor oherwydd risgiau posibl. Mewn ymateb, dywedodd Deilydd Portffolio Cyllid fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn dyraniad grant tuag at Dechnoleg Gwybodaeth. Y bwriad oedd gwario £300k ar lyfrau chrome i ddisgyblion yn y flwyddyn ariannol 2021/22, ond penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ariannu'r gwaith o brynu'r llyfrau chrome o'r dyraniad grant gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn dyraniad grant o Gronfa'r Economi Gylchol i brynu cerbydau fel rhan o'r Contract Casglu Gwastraff. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r Awdurdod fenthyca llai wrth brynu'r cerbydau. Mae'r dyraniadau grant hyn yn cyfateb i arbediad o 1% o fewn y dreth gyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peter Rogers at Ystâd David Hughes a'r angen i gefnogi pobl ifanc yn ariannol fel y'i nodir yn y bwriad gwreiddiol o sefydlu'r gronfa. Mewn ymateb, dywedodd Deilydd Portffolio Cyllid fod y cymorth ariannol gan Ystâd David Hughes yn cael ei ddosbarthu o fewn Ysgolion Uwchradd yr Ynys a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhelir ar 22 Mawrth 2021 ar y mater hwn.

Cyflwynwyd diwygiad i'r gyllideb gan y Cynghorydd Bryan Owen, ar ran Plaid Annibynnol Ynys Môn, i gynnig bod cynnydd cyfradd Treth y Cyngor yn cael ei bennu ar 2% gyda'r diwygiadau canlynol i'r Cyllidebau:-

- *£150,000 i ddod allan o'r Parc Eco (Parc Adfer) sydd â thua £911,000 yn y cyfrif ar hyn o bryd;*
- *£75,000 o gyllid Wylfa sy'n oddeutu £675,000 rhwng 3 chyfrif;*
- *£75,000 o'r gronfa wrth gefn sydd â thua £365,000 yn y cyfrif.*

*Byddai hyn gyda Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn darparu'r £308,000 sydd ei angen fel y gellid pennu cynnydd Treth y Cyngor 2021/22 ar 2%.*

Mynegodd y Cynghorydd Bryan Owen fod trigolion yr Ynys wedi wynebu cyfnod ansicr gyda phobl yn colli eu gwaith ac yn wynebu caledi. Dywedodd hefyd fod trigolion oedrannus yn ei chael hi'n anodd talu'r cynnydd parhaus yn y dreth gyngor ac eleni byddan nhw'n gorfod talu am wasanaeth casglu'r Bin Gwyrdd. Dywedodd y Cynghorydd Owen ymhellach fod 88% o'r ymatebwyr, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y gyllideb, wedi mynegi nad ydynt am weld cynnydd yn y dreth gyngor eleni a chynigiodd y dylid gosod cynnydd y Dreth Gyngor ar 2%.

Eiliodd y Cynghorydd R Ll Jones y gwelliant i'r gyllideb.

Dywedodd Aelod Portffolio Cyllid, os bydd yr Awdurdod yn parhau i wario o'r cronfeydd wrth gefn, y bydd yn arwain at orfod cydbwyso a sicrhau'r cronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn ganlynol. Nododd fod cael cronfeydd digonol wrth gefn yn caniatáu i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar gyfleoedd arian cyfatebol. Gwelwyd hyn yn ddiweddar gyda Llywodraeth Cymru yn cynnig £1.85m tuag at uned ddiwydiannol fach yng Nghaergybi a Llangefni, yn amodol ar gyfraniad yr awdurdod o £150k tuag at y prosiect. Nododd, os oes angen cymorth ar drigolion yr Ynys i dalu'r dreth gyngor, y gallant wneud cais drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Mynegodd y Cynghorydd A M Jones y bydd trigolion Ynys Môn yn wynebu talu am y tro cyntaf am Gasgliad Bin Gwyrdd a bod premiwm o 100% ar gartrefi gwag sydd hefyd yn effeithio ar rai trigolion; mae'r Cyngor yn delio ag ad-daliad treth y cyngor pan fydd yr eiddo yma'n newid i ardrethi busnes. Er ei fod yn croesawu'r cyfleoedd arian cyfatebol ar gyfer uned ddiwydiannol fach yng Nghaergybi a Llangefni, dywedodd fod angen uned ddiwydiannol fach yn Amlwch hefyd. Nododd y byddai rhyddhau arian o'r cronfeydd wrth gefn fel y'u nodir yn y diwygiad i'r gyllideb yn cyfateb i gynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor. Dywedodd ymhellach fod y rhan fwyaf o'r Cynghorau Cymuned wedi penderfynu peidio â chynyddu eu praesept eleni oherwydd y caledi sydd wedi'i wynebu oherwydd y pandemig. Dywedodd y Cynghorydd Jones fod tanwariant o £1.8 o fewn y gyllideb, bod cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn ddigonol ac y gall yr Awdurdod ymdopi â gostyngiad yn y dreth gyngor o 2.75% i 2%.

Dywedodd Deilydd Portffolio Cyllid fod angen cronfeydd digonol wrth gefn i fynd i'r afael ag unrhyw angen am gyllid brys yn y dyfodol. Nododd fod atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant wedi gweld gostyngiad sylweddol yn ystod cyfnod y pandemig ond mae'n amhosibl rhagweld a fydd yr atgyfeiriadau hyn yn cynyddu pan fydd y cyfyngiadau symud yn llacio. Dywedodd Deilydd y Portffolio fod tanwariant o fewn y gyllideb eleni ond rhaid cydnabod mai Chwarter 3 yw'r amcangyfrif ar gyfer y gyllideb ar hyn o bryd ac y gallai'r sefyllfa newid o fewn Chwarter 4. Nododd ymhellach fod arian cyfatebol Llywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer uned ddiwydiannol fach yn Llangefni a Chaergybi.

Dywedodd Deilydd Portffolio Cyllid ymhellach y penderfynwyd cadw'r tâl am y Casgliad Bin Gwyrdd ar wahân yn y gyllideb gan y bydd yn caniatáu i drigolion yr Ynys ddewis a ydynt yn dymuno talu am y gwasanaeth neu fynd â'u gwastraff gwyrdd i'r canolfannau ailgylchu neu gompostio’r gwastraff gwyrdd yn eu gerddi.

Gofynnodd y Cynghorydd Bryan Owen beth oedd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn o fewn cyllideb y Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod cyfanswm y cronfeydd ariannol cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn dod i gyfanswm o £7.06m. Mae cyfanswm o £85k wedi'i ddefnyddio o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn ariannol. Dywedodd, er bod disgwyl y bydd tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, lefel y cronfeydd cyffredinol wrth gefn wedi gostwng ar ddiwedd 2020/21.

**Yn y bleidlais a ddilynodd, PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22**
- **Derbyn y Penderfyniadau drafft ar y Dreth Gyngor fel y nodwyd yn (c) ar yr Agenda.**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu Cyllideb 2021/22 yn Adran 9, fel Strategaeth Gyllidebol o fewn yr ystyr a roddir gan y Cyfansoddiad, a chadarnhau ei bod yn dod yn rhan o fframwaith y gyllideb ac eithrio ffigurau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb refeniw ar gyfer 2021/22 fel y dangosir yn Nhabl 4, Adran 9 o Adroddiad Cyllideb 2021/22 Atodiad 1 ac Atodiad 3.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb gyfalaf fel y dangosir yn adroddiad Adroddiad Cyllideb Gyfalaf 2021/22.

**(ch)** Dirprwyo pŵer i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wneud addasiadau rhwng penawdau yn y Gyllideb Arfaethedig Derfynol 2021/22 yn Atodiad 3 er mwyn gweithredu penderfyniadau'r Cyngor. Hefyd, dirprwyo pŵer i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 drosglwyddo hyd at £50k yr eitem o'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo unrhyw eitem sy'n fwy na £50k cyn gwneud unrhyw drosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**(d)** Dirprwyo pwerau i'r Pwyllgor Gwaith, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22, drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

**(i)** pwerau diderfyn i wario pob pennawd cyllidebol yn Atodiad 3 Cyllideb Arfaethedig Derfynol 2021/22 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

**(ii)** pwerau i gymeradwyo’r defnydd o’r arian wrth gefn a glustnodwyd a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant untro sy’n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo o’r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo pwerau i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2021/22 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), ryddhau hyd at £250k o falansau cyffredinol i ddelio â blaenoriaethau sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Dirprwyo'r pwerau canlynol i’r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022:-

(i) pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer Blaenoriaethau Newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

(ii) y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

(iii) pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2021/22 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu a chymeradwyo'r dangosyddion darbodus a rhai'r trysorlys sy'n amcangyfrifon a therfynau am 2021/22 ymlaen fel sy'n ymddangos yn yr adroddiad Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22.

**(ff)** Cymeradwyo'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2021/22 a'r Strategaeth Cyfalaf 2021/22.

**(g)** Cadarnhau bod eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o fframwaith y gyllideb.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2021/22 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig A | Dim Disgownt |
| Dosbarth Penodedig B | Dim Disgownt |

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2021/22 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig C | Dim Disgownt |

**4.** **PENDERFYNWYD** datgymhwyso unrhyw ddisgownt(iau) a ganiatawyd i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a ddefnyddir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) ac i amrywio penderfyniad y Cyngor llawn a wnaed ar 28 Chwefror 2018 a gwneud cais am y flwyddyn ariannol 2021/22 swm uwch o'r Dreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Cyngor) o 100% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor ac ar gyfer anheddau a ddefnyddir o bryd i'w gilydd (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) i gymhwyso swm uwch o Dreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Gyngor) o 35% o dan Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Adran 139 o Ddeddf Tai (Cymru 2014.

**5.** Nodi bod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau a wynebir gan y Cyngor mewn rhan o'i ardal nac wrth dalu unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**6.** Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2020 wedi cymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 a nodi ymhellach bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am y blynyddoedd dilynol oni bai ei fod wedi'i ddiwygio'n sylweddol. Nodwyd hefyd fod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 wedi mabwysiadu a chymeradwyo Polisi Dewisol y Dreth Gyngor lleol dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 gan ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddirymu, ailddeddfu ac/neu ddiwygio'r Polisi. Diwygiodd y Pwyllgor Gwaith y Polisi hwn ar 26 Tachwedd 2018.

**7.** Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2020, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, a'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor)(Cymru)(Diwygiad) 2016, gymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ei sail dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2021/22, fel a ganlyn:-

**a)** **31,548.20** yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sylfaen y dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

**b)** Y rhannau o ardal y Cyngor, sef y symiau a gyfrifwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y sylfaen ar gyfer treth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, yw fel a ganlyn:-

| **Ardaloedd Cynghorau Cymuned/Tref**<br>**Ardaloedd Cynghorau Cymuned/Tref** | **Sylfaen y Dreth 2021/22** |
|---|---|
| Amlwch | 1,519.66 |
| Biwmares | 1,081.50 |
| Caergybi | 3,990.91 |
| Llangefni | 1,976.50 |
| Porthaethwy | 1,478.06 |
| Llanddaniel-fab | 381.29 |
| Llanddona | 385.84 |
| Cwm Cadnant | 1,159.87 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,331.84 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 693.53 |
| Bodorgan | 464.26 |
| Llangoed | 653.68 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | 629.11 |
| Llanidan | 415.21 |
| Rhosyr | 1,025.44 |
| Penmynydd | 246.78 |
| Pentraeth | 579.06 |
| Moelfre | 621.39 |
| Llanbadrig | 683.74 |
| Llanddyfnan | 503.92 |
| Llaneilian | 580.02 |
| Llanerch-y-medd | 529.34 |
| Llaneugrad | 184.19 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,850.63 |
| Cylch y Garn | 400.30 |
| Mechell | 556.99 |
| Rhos-y-bol | 479.47 |
| Aberffraw | 306.84 |
| Bodedern | 427.24 |
| Bodffordd | 426.65 |
| Trearddur | 1,271.33 |
| Tref Alaw | 266.44 |

| Ardaloedd Cynghorau Cymuned/Tref<br>Ardaloedd Cynghorau Cymuned/Tref | Sylfaen y Dreth 2021/22 |
|---|---|
| Llanfachraeth | 226.29 |
| Llanfaelog | 1,270.30 |
| Llanfaethlu | 270.72 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 589.19 |
| Y Fali | 1,009.83 |
| Bryngwran | 359.06 |
| Rhoscolyn | 358.31 |
| Trewalchmai | 363.47 |
| **Cyfanswm y Sylfaen Dreth** | **31,548.20** |

**8.** Bod y symiau canlynol bellach yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2021/22, yn unol ag Adrannau 32 i 36 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £207,033,447 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(2)(a) i (d) o'r Ddeddf.

**b)** £58,306,184 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32(3)(a) ac (c) o'r Ddeddf.

**c)** £148,727,263 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 8(a) uchod a chyfanswm 8(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £104,825,173 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig, gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £ 1,391.59 sef y swm yn 8(c) uchod llai'r swm yn 8(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef swm sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £ 1,607,298 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf.

**e)** £ 1,340.64 sef y swm yn 8(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 8(dd) uchod â'r swm yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, sef sŵn sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

| | | Band D cyfatebol fesul ardal gan gynnwys Cyngor Ynys Môn ac elfennau cyngor cymuned/tref |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,406.88 |
| Biwmares | £ | 1,368.72 |
| Caergybi | £ | 1,494.54 |
| Llangefni | £ | 1,432.35 |
| Porthaethwy | £ | 1,404.90 |

| | | |
|---|---|---|
| Llanddaniel-fab | £ | 1,368.27 |
| Llanddona | £ | 1,358.55 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,368.54 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,383.39 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,370.34 |
| Bodorgan | £ | 1,365.84 |
| Llangoed | £ | 1,363.59 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 1,353.33 |
| Llanidan | £ | 1,373.22 |
| Rhosyr | £ | 1,364.67 |
| Penmynydd | £ | 1,373.04 |
| Pentraeth | £ | 1,363.05 |
| Moelfre | £ | 1,358.64 |
| Llanbadrig | £ | 1,380.87 |
| Llanddyfnan | £ | 1,360.44 |
| Llaneilian | £ | 1,363.05 |
| Llanerch-y-medd | £ | 1,374.93 |
| Llaneugrad | £ | 1,362.33 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,370.70 |
| Cylch y Garn | £ | 1,358.10 |
| Mechell | £ | 1,358.55 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,357.29 |
| Aberffraw | £ | 1,368.00 |
| Bodedern | £ | 1,373.40 |
| Bodffordd | £ | 1,366.38 |
| Trearddur | £ | 1,368.90 |
| Tref Alaw | £ | 1,365.93 |
| Llanfachraeth | £ | 1,376.28 |
| Llanfaelog | £ | 1,373.67 |
| Llanfaethlu | £ | 1,361.88 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,369.44 |
| Y Fali | £ | 1,366.38 |
| Bryngwran | £ | 1,374.03 |
| Rhoscolyn | £ | 1,351.80 |
| Trewalchmai | £ | 1,364.04 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 8(e) uchod, symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 8(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**Bandiau Prisio**

| **Treth y Cyngor fesul Band, fesul Ardal, sy'n cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn ac elfennau/praeseptau Cyngor Cymuned/Tref** |
|---|

| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 937.92 | 1,094.24 | 1,250.56 | 1,406.88 | 1,719.52 | 2,032.15 | 2,344.79 | 2,813.75 | 3,282.71 |
| Biwmares | £ | 912.48 | 1,064.56 | 1,216.64 | 1,368.72 | 1,672.88 | 1,977.03 | 2,281.19 | 2,737.43 | 3,193.67 |
| Caergybi | £ | 996.36 | 1,162.42 | 1,328.48 | 1,494.54 | 1,826.66 | 2,158.77 | 2,490.89 | 2,989.07 | 3,487.25 |
| Llangefni | £ | 954.90 | 1,114.05 | 1,273.20 | 1,432.35 | 1,750.65 | 2,068.94 | 2,387.24 | 2,864.69 | 3,342.14 |
| Porthaethwy | £ | 936.60 | 1,092.70 | 1,248.80 | 1,404.90 | 1,717.10 | 2,029.29 | 2,341.49 | 2,809.79 | 3,278.09 |
| Llanddaniel-fab | £ | 912.18 | 1,064.21 | 1,216.24 | 1,368.27 | 1,672.33 | 1,976.38 | 2,280.44 | 2,736.53 | 3,192.62 |
| Llanddona | £ | 905.70 | 1,056.65 | 1,207.60 | 1,358.55 | 1,660.45 | 1,962.34 | 2,264.24 | 2,717.09 | 3,169.94 |
| Cwm Cadnant | £ | 912.36 | 1,064.42 | 1,216.48 | 1,368.54 | 1,672.66 | 1,976.77 | 2,280.89 | 2,737.07 | 3,193.25 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 922.26 | 1,075.97 | 1,229.68 | 1,383.39 | 1,690.81 | 1,998.22 | 2,305.64 | 2,766.77 | 3,227.90 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 913.56 | 1,065.82 | 1,218.08 | 1,370.34 | 1,674.86 | 1,979.37 | 2,283.89 | 2,740.67 | 3,197.45 |
| Bodorgan | £ | 910.56 | 1,062.32 | 1,214.08 | 1,365.84 | 1,669.36 | 1,972.87 | 2,276.39 | 2,731.67 | 3,186.95 |
| Llangoed | £ | 909.06 | 1,060.57 | 1,212.08 | 1,363.59 | 1,666.61 | 1,969.62 | 2,272.64 | 2,727.17 | 3,181.70 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 902.22 | 1,052.59 | 1,202.96 | 1,353.33 | 1,654.07 | 1,954.80 | 2,255.54 | 2,706.65 | 3,157.76 |
| Llanidan | £ | 915.48 | 1,068.06 | 1,220.64 | 1,373.22 | 1,678.38 | 1,983.53 | 2,288.69 | 2,746.43 | 3,204.17 |
| Rhosyr | £ | 909.78 | 1,061.41 | 1,213.04 | 1,364.67 | 1,667.93 | 1,971.18 | 2,274.44 | 2,729.33 | 3,184.22 |
| Penmynydd | £ | 915.36 | 1,067.92 | 1,220.48 | 1,373.04 | 1,678.16 | 1,983.27 | 2,288.39 | 2,746.07 | 3,203.75 |
| Pentraeth | £ | 908.70 | 1,060.15 | 1,211.60 | 1,363.05 | 1,665.95 | 1,968.84 | 2,271.74 | 2,726.09 | 3,180.44 |
| Moelfre | £ | 905.76 | 1,056.72 | 1,207.68 | 1,358.64 | 1,660.56 | 1,962.47 | 2,264.39 | 2,717.27 | 3,170.15 |
| Llanbadrig | £ | 920.58 | 1,074.01 | 1,227.44 | 1,380.87 | 1,687.73 | 1,994.58 | 2,301.44 | 2761.73 | 3,222.02 |
| Llanddyfnan | £ | 906.96 | 1,058.12 | 1,209.28 | 1,360.44 | 1,662.76 | 1,965.07 | 2,267.39 | 2,720.87 | 3,174.35 |
| Llaneilian | £ | 908.70 | 1,060.15 | 1,211.60 | 1,363.05 | 1,665.95 | 1,968.84 | 2,271.74 | 2,726.09 | 3,180.44 |
| Llanerch-y-medd | £ | 916.62 | 1,069.39 | 1,222.16 | 1,374.93 | 1,680.47 | 1,986.00 | 2,291.54 | 2,749.85 | 3,208.16 |
| Llaneugrad | £ | 908.22 | 1,059.59 | 1,210.96 | 1,362.33 | 1,665.07 | 1,967.80 | 2,270.54 | 2,724.65 | 3,178.76 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 913.80 | 1,066.10 | 1,218.40 | 1,370.70 | 1,675.30 | 1,979.89 | 2,284.49 | 2,741.39 | 3,198.29 |
| Cylch y Garn | £ | 905.40 | 1,056.30 | 1,207.20 | 1,358.10 | 1,659.90 | 1,961.69 | 2,263.49 | 2,716.19 | 3,168.89 |
| Mechell | £ | 905.70 | 1,056.65 | 1,207.60 | 1,358.55 | 1,660.45 | 1,962.34 | 2,264.24 | 2717.09 | 3,169.94 |
| Rhos-y-bol | £ | 904.86 | 1,055.67 | 1,206.48 | 1,357.29 | 1,658.91 | 1,960.52 | 2,262.14 | 2,714.57 | 3,167.00 |
| Aberffraw | £ | 912.00 | 1,064.00 | 1,216.00 | 1,368.00 | 1,672.00 | 1,975.99 | 2,279.99 | 2,735.99 | 3,191.99 |
| Bodedern | £ | 915.60 | 1,068.20 | 1,220.80 | 1,373.40 | 1,678.60 | 1,983.79 | 2,288.99 | 2,746.79 | 3,204.59 |
| Bodffordd | £ | 910.92 | 1,062.74 | 1,214.56 | 1,366.38 | 1,670.02 | 1,973.65 | 2,277.29 | 2,732.75 | 3,188.21 |
| Trearddur | £ | 912.60 | 1,064.70 | 1,216.80 | 1,368.90 | 1,673.10 | 1,977.29 | 2,281.49 | 2,737.79 | 3,194.09 |
| Tref Alaw | £ | 910.62 | 1,062.39 | 1,214.16 | 1,365.93 | 1,669.47 | 1,973.00 | 2,276.54 | 2,731.85 | 3,187.16 |
| Llanfachraeth | £ | 917.52 | 1,070.44 | 1,223.36 | 1,376.28 | 1,682.12 | 1,987.95 | 2,293.79 | 2,752.55 | 3,211.31 |
| Llanfaelog | £ | 915.78 | 1,068.41 | 1,221.04 | 1,373.67 | 1,678.93 | 1,984.18 | 2,289.44 | 2,747.33 | 3,205.22 |
| Llanfaethlu | £ | 907.92 | 1,059.24 | 1,210.56 | 1,361.88 | 1,664.52 | 1,967.15 | 2,269.79 | 2,723.75 | 3,177.71 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 912.96 | 1,065.12 | 1,217.28 | 1,369.44 | 1,673.76 | 1,978.07 | 2,282.39 | 2738.87 | 3,195.35 |
| Y Fali | £ | 910.92 | 1,062.74 | 1,214.56 | 1,366.38 | 1,670.02 | 1,973.65 | 2,277.29 | 2,732.75 | 3,188.21 |
| Bryngwran | £ | 916.02 | 1,068.69 | 1,221.36 | 1,374.03 | 1,679.37 | 1,984.70 | 2,290.04 | 2,748.05 | 3,206.06 |
| Rhoscolyn | £ | 901.20 | 1,051.40 | 1,201.60 | 1,351.80 | 1,652.20 | 1,952.59 | 2,252.99 | 2703.59 | 3,154.19 |
| Trewalchmai | £ | 909.36 | 1,060.92 | 1212.48 | 1,364.04 | 1,667.16 | 1,970.27 | 2,273.39 | 2728.07 | 3,182.75 |

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 8(e) a 8(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o anheddau a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

**9.** Y dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2021/22, bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

**Awdurdod Praeseptio** **Bandiau Prisio**

| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru | £ | 203.70 | 237.65 | 271.60 | 305.55 | 373.45 | 441.35 | 509.25 | 611.10 | 712.95 |

**10.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 8(ff) a 9 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2021/22 ar gyfer pob categori o anheddau a ddangosir isod:-

| | | Treth y Cyngor fesul Band, fesul Ardal, sy'n cynnwys elfen Cyngor Sir Ynys Môn, Praeseptiau Cyngor Cymuned/Tref a Praesept Heddlu Gogledd Cymru | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 1,141.62 | 1,331.89 | 1,522.16 | 1,712.43 | 2,092.97 | 2,473.51 | 2,854.05 | 3,424.86 | 3,995.67 |
| Biwmares | £ | 1,116.18 | 1,302.21 | 1,488.24 | 1,674.27 | 2,046.33 | 2,418.39 | 2,790.45 | 3,348.54 | 3,906.63 |
| Caergybi | £ | 1,200.06 | 1,400.07 | 1,600.08 | 1,800.09 | 2,200.11 | 2,600.13 | 3,000.15 | 3,600.18 | 4,200.21 |
| Llangefni | £ | 1,158.60 | 1,351.70 | 1,544.80 | 1,737.90 | 2,124.10 | 2,510.30 | 2,896.50 | 3,475.80 | 4,055.10 |
| Porthaethwy | £ | 1,140.30 | 1,330.35 | 1,520.40 | 1,710.45 | 2,090.55 | 2,470.65 | 2,850.75 | 3,420.90 | 3,991.05 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,115.88 | 1,301.86 | 1,487.84 | 1,673.82 | 2,045.78 | 2,417.74 | 2,789.70 | 3,347.64 | 3,905.58 |
| Llanddona | £ | 1,109.40 | 1,294.30 | 1,479.20 | 1,664.10 | 2,033.90 | 2,403.70 | 2,773.50 | 3,328.20 | 3,882.90 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,116.06 | 1,302.07 | 1,488.08 | 1,674.09 | 2,046.11 | 2,418.13 | 2,790.15 | 3,348.18 | 3,906.21 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,125.96 | 1,313.62 | 1,501.28 | 1,688.94 | 2,064.26 | 2,439.58 | 2,814.90 | 3,377.88 | 3,940.86 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,117.26 | 1,303.47 | 1,489.68 | 1,675.89 | 2,048.31 | 2,420.73 | 2,793.15 | 3,351.78 | 3,910.41 |
| Bodorgan | £ | 1,114.26 | 1,299.97 | 1,485.68 | 1,671.39 | 2,042.81 | 2,414.23 | 2,785.65 | 3,342.78 | 3,899.91 |
| Llangoes | £ | 1,112.76 | 1,298.22 | 1,483.68 | 1,669.14 | 2,040.06 | 2,410.98 | 2,781.90 | 3,338.28 | 3,894.66 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 1,105.92 | 1,290.24 | 1,474.56 | 1,658.88 | 2,027.52 | 2,396.16 | 2,764.80 | 3,317.76 | 3,870.72 |
| Llanidan | £ | 1,119.18 | 1,305.71 | 1,492.24 | 1,678.77 | 2,051.83 | 2,424.89 | 2,797.95 | 3,357.54 | 3,917.13 |
| Rhosyr | £ | 1,113.48 | 1,299.06 | 1,484.64 | 1,670.22 | 2,041.38 | 2,412.54 | 2,783.70 | 3,340.44 | 3,897.18 |
| Penmynydd | £ | 1,119.06 | 1,305.57 | 1,492.08 | 1,678.59 | 2,051.61 | 2,424.63 | 2,797.65 | 3,357.18 | 3,916.71 |
| Pentraeth | £ | 1,112.40 | 1,297.80 | 1,483.20 | 1,668.60 | 2,039.40 | 2,410.20 | 2,781.00 | 3,337.20 | 3,893.40 |
| Moelfre | £ | 1,109.46 | 1,294.37 | 1,479.28 | 1,664.19 | 2,034.01 | 2,403.83 | 2,773.65 | 3,328.38 | 3,883.11 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanbadrig | £ | 1,124.28 | 1,311.66 | 1,499.04 | 1,686.42 | 2,061.18 | 2,435.94 | 2,810.70 | 3,372.84 | 3,934.98 |
| Llanddyfnan | £ | 1,110.66 | 1,295.77 | 1,480.88 | 1,665.99 | 2,036.21 | 2,406.43 | 2,776.65 | 3,331.98 | 3,887.31 |
| Llaneilian | £ | 1,112.40 | 1,297.80 | 1,483.20 | 1,668.60 | 2,039.40 | 2,410.20 | 2,781.00 | 3,337.20 | 3,893.40 |
| Llanerch-y-medd | £ | 1,120.32 | 1,307.04 | 1,493.76 | 1,680.48 | 2,053.92 | 2,427.36 | 2,800.80 | 3,360.96 | 3,921.12 |
| Llaneugrad | £ | 1,111.92 | 1,297.24 | 1,482.56 | 1,667.88 | 2,038.52 | 2,409.16 | 2,779.80 | 3,335.76 | 3,891.72 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,117.50 | 1,303.75 | 1,490.00 | 1,676.25 | 2,048.75 | 2,421.25 | 2,793.75 | 3,352.50 | 3,911.25 |
| Cylch y Garn | £ | 1,109.10 | 1,293.95 | 1,478.80 | 1,663.65 | 2,033.35 | 2,403.05 | 2,772.75 | 3,327.30 | 3,881.85 |
| Mechell | £ | 1,109.40 | 1,294.30 | 1,479.20 | 1,664.10 | 2,033.90 | 2,403.70 | 2,773.50 | 3,328.20 | 3,882.90 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,108.56 | 1,293.32 | 1,478.08 | 1,662.84 | 2,032.36 | 2,401.88 | 2,771.40 | 3,325.68 | 3,879.96 |
| Aberffraw | £ | 1,115.70 | 1,301.65 | 1,487.60 | 1,673.55 | 2,045.45 | 2,417.35 | 2,789.25 | 3,347.10 | 3,904.95 |
| Bodedern | £ | 1,119.30 | 1,305.85 | 1,492.40 | 1,678.95 | 2,052.05 | 2,425.15 | 2,798.25 | 3,357.90 | 3,917.55 |
| Bodffordd | £ | 1,114.62 | 1,300.39 | 1,486.16 | 1,671.93 | 2,043.47 | 2,415.01 | 2,786.55 | 3,343.86 | 3,901.17 |
| Trearddur | £ | 1,116.30 | 1,302.35 | 1,488.40 | 1,674.45 | 2,046.55 | 2,418.65 | 2,790.75 | 3,348.90 | 3,907.05 |
| Tref Alaw | £ | 1,114.32 | 1,300.04 | 1,485.76 | 1,671.48 | 2,042.92 | 2,414.36 | 2,785.80 | 3,342.96 | 3,900.12 |
| Llanfachraeth | £ | 1,121.22 | 1,308.09 | 1,494.96 | 1,681.83 | 2,055.57 | 2,429.31 | 2,803.05 | 3,363.66 | 3,924.27 |
| Llanfaelog | £ | 1,119.48 | 1,306.06 | 1,492.64 | 1,679.22 | 2,052.38 | 2,425.54 | 2,798.70 | 3,358.44 | 3,918.18 |
| Llanfaethlu | £ | 1,111.62 | 1,296.89 | 1,482.16 | 1,667.43 | 2,037.97 | 2,408.51 | 2,779.05 | 3,334.86 | 3,890.67 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,116.66 | 1,302.77 | 1,488.88 | 1,674.99 | 2,047.21 | 2,419.43 | 2,791.65 | 3,349.98 | 3,908.31 |
| Y Fali | £ | 1,114.62 | 1,300.39 | 1,486.16 | 1,671.93 | 2,043.47 | 2,415.01 | 2,786.55 | 3,343.86 | 3,901.17 |
| Bryngwran | £ | 1,119.72 | 1,306.34 | 1,492.96 | 1,679.58 | 2,052.82 | 2,426.06 | 2,799.30 | 3,359.16 | 3,919.02 |
| Rhoscolyn | £ | 1,104.90 | 1,289.05 | 1,473.20 | 1,657.35 | 2,025.65 | 2,393.95 | 2,762.25 | 3,314.70 | 3,867.15 |
| Trewalchmai | £ | 1,113.06 | 1,298.57 | 1,484.08 | 1,669.59 | 2,040.61 | 2,411.63 | 2,782.65 | 3,339.18 | 3,895.71 |

## 11. AELOD LLEYG NEWYDD AR Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Chwefror 2021 i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD diwygio cyfansoddiad y Cyngor er mwyn lleihau nifer yr aelodau lleyg angenrheidiol ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ddau aelod lleyg i un tan y bydd darpariaethau'r ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym.**

## 12. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Dywedodd Deilydd Portffolio Busnes Corfforaethol fod Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi'i basio gan y Senedd ar 18 Tachwedd 2020 a'i fod wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Roedd y Bil yn un o ddim ond dau Fil yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i barhau yn ystod pandemig Covid-19. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r Bil o ystyried yr amserlen y mae'n rhaid cadw ati i gyflwyno diwygiadau etholiadol arfaethedig mewn pryd ar gyfer etholiadau lleol 2022. Dywedodd fod y Ddeddf yn un sylweddol a'i bod yn cynnwys amryw o bynciau, o ddiwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad, hyd at weithio rhanbarthol. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno:-

- Newidiadau i drefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol;
- Cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol (gall cynghorau wneud unrhyw beth i hyrwyddo eu hagenda ar yr amod nad yw'r camau gweithredu wedi'u gwahardd yn gyfreithiol);
- Diwygio cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol;
- Newidiadau ynghylch llywodraethu ac arweinyddiaeth ddemocrataidd;
- Cydweithio;
- Diwygio'r drefn perfformiad a llywodraethu;
- Pwerau i hwyluso uno prif gynghorau yn wirfoddol.

Dywedodd hefyd y gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu sydd ynghlwm wrth yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o fewn yr amserlen.

Codwyd cwestiynau ynghylch swyddogaeth y Cydbwyllgorau Corfforaethol a'r adnoddau ariannol y disgwylir i'r Awdurdod eu cyfrannu. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Adran 151 fod 4 Cydbwyllgor Corfforaethol yng Nghymru gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn rhan o Gydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru; sy'n debyg i strwythur Cyngor Sir Rhanbarthol. Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gael i helpu sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol drwy CLlLC, ond mae'n ansicr ynghylch faint o arian a ddisgwylir. Nododd y bydd yr UDA yn cyfarfod i drafod gofynion CLlLC i helpu i sefydlu'r Cydbwyllgorau Corfforaethol. Disgwylir i bob Cyngor Sir gyfrannu at gyllideb sefydlu'r Cydbwyllgorau Corfforaethol o 2022. Mae'r Ddeddf yn datgan y gall y Cydbwyllgorau Corfforaethol benderfynu ar y gyllideb y bydd ei hangen arnynt i gydymffurfio â'r gofynion statudol yn y Ddeddf a bydd yn rhaid i'r awdurdodau lleol ariannu'r gyllideb sy'n ofynnol gan y corff sefydledig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor Corfforaethol o fis Medi 2021 i ddiwedd mis Mehefin 2022. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ymhellach mai Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn y cyfamser fydd creu fframwaith o fewn y Ddeddf i drosglwyddo Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r Cydbwyllgorau Corfforaethol a chynnwys dyletswydd statudol y Cynllun Rheoli Traffig Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol.

Mynegodd y Cynghorydd A M Jones y bydd hyn yn creu corff isranbarthol a fydd yn gofyn am adnoddau ariannol a phwerau deddfwriaethol gan lywodraeth leol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod trafodaethau helaeth wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru a CLlLC ynglŷn â'r mater hwn a bod gwrthwynebiadau wedi'u lleisio ynglŷn â chreu corff o'r fath. Nododd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu sydd ynghlwm wrth yr adroddiad er mwyn caniatáu i'r Swyddogion drafod yn fanwl ofyniad y Ddeddf er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i drigolion yr Ynys.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu sydd ynddo;**
- **Bod adroddiadau pellach sy'n manylu ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu yn cael eu monitro gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

Bu i'r Cynghorydd Alun Mummery ymatal rhag pleidleisio.

## 13. DATGANIAD POLISI TÂL 2021

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol i'r Cyngor gan Ddeilydd Portffolio Busnes Corfforaethol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2021.**

## 14. TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL O FEWN Y CYNGOR

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i'r Cyngor gan Arweinydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Cyngor yn cadarnhau trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a roddir i bob un o'r Grwpiau fel y nodir yn y matrics yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;**
- **Bod Arweinyddion Grwpiau i roi gwybod cyn gynted â phosibl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd am newidiadau i Aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.**

Daeth y cyfarfod i ben yn 4.45 pm

**CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**

Adroddiad Blynyddol 2020 i 2021

Dyma fy mhedwerydd adroddiad blynyddol fel Arweinydd y Cyngor, ac yn wir, ni welwyd yr hyn oedd o’n blaen wrth gynllunio am ein tymor yn 2017. Mae’r adroddiad yn rhoi braslun o weithgaredd y Cyngor o Fai 2020 hyd at Mai 2021. Rydym i gyd yn ymwybodol nad oedd y flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn arferol, mi fydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar ein hymateb i’r argyfwng ynghyd â’r busnes fel arfer.

Mae’n bwysig nodi ar gychwyn yr adroddiad fy niolchiadau i bawb sy’n sicrhau llwyddiant y Cyngor er mwyn gwasanaethu pobl Ynys Môn. Hoffwn roi clod haeddiannol i bawb sy’n gweithio mor galed wrth i’r awdurdod berfformio ymysg y gorau yng Nghymru. Nid maint sy’n creu llwyddiant ond y parodrwydd i weithio er lles y gymdeithas.

Ymateb i’r argyfwng Cofid-19

Erbyn Mai 2020 roedd bywydau pob un ohonom wedi eu heffeithio gyda chyfyngiadau a’r her o ymateb i’r argyfwng. Rydym wedi profi tristwch yr argyfwng fel cymuned. Rwy’n cydymdeimlo’n ddwys gyda phawb sydd wedi talu’r pris eithaf yn yr argyfwng, mae profedigaeth yn anodd mewn amseroedd arferol ond yn yr argyfwng hwn mae wedi rhoi pwysau dwysach ar deuluoedd a ffrindiau.

Beth yr ydym wedi ei wneud –




Ar gychwyn yr argyfwng daeth y Cyngor, Medrwn Môn a Menter Môn at ei gilydd er mwyn creu cefnogaeth gymunedol. Gwelwyd dros 900 o wirfoddolwyr yn cynnig eu hunan i gefnogi cymunedau Ynys Môn. Bellach mae nifer o gynlluniau tro da wedi cychwyn ac yn parhau i wirfoddoli yn eu hardaloedd. Diolch i bob un ohonynt.

Drwy arweiniad Menter Môn gwelwyd cynllun Neges yn gwasanaethu rhai bregus yn y gymuned. Hoffwn ddiolch i nifer o fusnesau wnaeth addasu a chynnig gwasanaeth i’r anghenus yn y gymuned.




Rydym yn parhau i weithio’n agos gyda Banciau Bwyd yr ynys sydd wedi gwasanaethu drwy gydol yr argyfwng. Diolch i’r holl asiantaethau am eu cefnogaeth.

Dros y Nadolig daeth yr asiantaethau i gyd at ei gilydd er mwyn cynnig hamper bwyd, anrhegion a chinio ‘Dolig i’n trigolion. Diolch i bawb am eu haelioni.




Ar gychwyn yr argyfwng sefydlwyd llinell ffôn argyfwng 7 diwrnod yr wythnos er mwyn cefnogi'r gymuned fregus. Cawsom nifer helaeth o ymholiadau yn enwedig gan fusnesau lleol. Hoffwn ddiolch i'r staff i gyd am eu parodrwydd i weithio'r oriau ychwanegol ac am fod yn llais cysurus ochr arall i'r ffon.

Roedd dweud bod Ynys Môn ar gau er mwyn diogelu ein cymunedau yn groes i'n natur groesawgar, ond gyda'r sefyllfa yn gwella cawsom ail agor ein Hynys yn ddiogel dros yr haf. Hoffwn ddiolch i bawb am gefnogi'r arweiniad. Mae pobl Ynys Môn, busnesau, swyddogion y Cyngor a'r heddlu wedi gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod trigolion yr Ynys yn cael eu diogelu. Diolch.







Sefydlwyd tîm olrhain yn Ynys Môn fel ardal beilot yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. Hoffwn ddiolch i staff y Cyngor oedd yn barod iawn i gymryd y swyddogaeth Newydd. Roedd y gwaith yma'n allweddol i ddiogelu'n cymunedau pan gafwyd yr achos cyntaf o ymlediad mewn ffatri yn Llangefni.

Rhoddwyd systemau talu grantiau busnesau, cinio ysgol, hunan ynysu a thaliadau gweithwyr gofal yn ei le. Hoffwn ddiolch i'r staff i gyd am gadw cysylltiad gyda rhai oedd angen y cymorth ac am addasu yn sydyn er mwyn sicrhau taliad mor sydyn â phosib.






Oherwydd sefyllfa leol roedd rhaid i ni wneud penderfyniadau i beidio agor ysgolion yma ym Môn er mwyn sicrhau diogelwch pawb. Hoffwn ddiolch i blant, rhieni, athrawon a swyddogion y Cyngor am sicrhau agoriad amserol a diogel o'n hysgolion.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr Ynys am fod mor wych yn ystod y flwyddyn anodd a dymuno'n dda i rai sydd wedi gadael system Addysg yr Ynys. Cofiwch eich bod yn berthyn i wlad y medra a mae'r gallu ynddoch i gyflawni unrhywbeth.

Roedd rhaid addasu gwasanaethau'r Cyngor i gyd o wasanaeth llyfrgelloedd i wastraff, o gynllunio i'r Oriel, o Ieuenctid i hamdden.

Diolch i bawb am ymateb mor bositif ac i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth am eich amynedd a'ch gwerthfawrogiad.









Sicrhau uned brofi ar yr Ynys. Rydym wedi cydweithio'n agos gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod uned brofi ar yr Ynys a galw am un ychwanegol pan bu'r angen.



Cefnogi'r gwaith brechu - rhannu negeseuon a chefnogi trefniadau a lleoliadau.

Ymateb i'r her leol. Roedd y Cyngor yn bartner arweiniol er mwyn sicrhau diogelu Caergybi mewn cydweithrediad gyda'r asiantaethau statudol. Hoffwn ddiolch i'r gwirfoddolwyr, asiantaethau a staff y Cyngor am ymateb yn sydyn er mwyn sicrhau diogelwch pawb.



Gwaith arferol –

Cyllideb - gosodwyd Cyllideb eleni gyda'r ail godiad treth Cyngor isaf yng Nghymru. Rydym wedi buddsoddi mewn cynllun hyfforddeion, ariannu cynlluniau newid hinsawdd ac arian ychwanegol tuag at dwristiaeth. Diolch i bawb am eich ymatebion i'r ymgynghoriad.






Fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru rydym wedi agor canolfannau gofal yn Ysgol Esceifiog ac Ysgol Tywyn. Bydd y datblygiadau hyn yn cefnogi teuluoedd yr ardal.

Mae datblygu tai wedi parhau gyda 21 o gartefi cymdeithasol newydd wedi gosod. Rydym hefyd wedi prynu 18 o cyn dai Cyngor yn ol i'n stoc tai. Mae 49 o dai wrthi'n cael eu hadeiladu nawr ar yr ynys. Rydym hefyd wedi creu cynlluniau i ddod ag adeiladau yn ol i fod yn aelwydi.






Newid hinsawdd, rydym wedi gwneud gwaith yn symud y Cyngor yn ei flaen wrth fabwysiadu strategaeth gorfforaethol. Gwelwyd buddsoddiad er mwyn sicrhau bod ein hysgolion, llyfrgelloedd a'n canolfannau hamdden yn gyfeillgar i'r amgylchedd wrth osod boeleri a phaneli solar newydd.

Symud ymlaen gyda chynllun 3G yng Nghaergybi mewn cydweithrediad gyda'r Cyngor Tref. Hoffem ddiolch i'r Cyngor Tref am eu hymateb positif.





Gwnaethpwyd gwaith ar Bier Biwmares er mwyn ei adnewyddu i fod fel newydd. Diolch I'r gymuned am eu hamynedd tra roedd y gwaith yn mynd rhagddo.

Ynys ynni - cafwyd nifer o drafodaethau ynglŷn â chynlluniau ynni'r ynys rhwng y sector preifat a'r ddwy Lywodraeth, megis Wylfa Newydd, Morlais, Hwb Hydrogen Caergybi a datblygiadau Msparc.

Llywodraeth Cymru


north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Bwrdd Uchelgais – Rydym yn symud ymlaen ar waith y Cynllun Twf gyda phenodiadau i swyddi hanfodol yn ystod y flwyddyn diwethaf. ae hyn wedi galluogi i gynlluniau cysylltedd digidol, datblygu ynni, safleoedd ac eiddo.

Mae ymateb i newidiadau yn dilyn Brexit ar Borthladd Caergybi wedi bod yn heriol. Rydym wedi sicrhau bod y ddwy Lywodraeth yn deall pwysigrwydd safle archwilio mor agos â phosib i'r porthladd er mwyn diogelu'r safle i economi Ynys Môn a thu hwnt.



## Gwaith Cenedlaethol



Rwyf wedi sicrhau llais cryf i Ynys Môn yn y trafodaethau cenedlaethol. Rydym fel Arweinyddion Cymru wedi cyfarfod bron yn wythnosol ers cychwn yr argyfwng er mwyn rhannu pryderon a dylanwadu ar Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol i hyn rydym wedi cyfarfod gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod pryderon lleol yn cael eu hadnabod a bod ymateb amserol gan y Llywodraeth. Rwyf wedi cyfarfod gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rheolaidd. Rydym fel chwe Arweinydd y Gogledd wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda Chadeirydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Rwyf wedi rhoi tystiolaeth i bwyllgorau Craffu'r Llywodraeth ar ran y WLGA. Cefais fy mhenodi fel Dirprwy Lefarydd Gwasanaethau Cymdeithasol yr WLGA. Mae sicrhau bod llais Ynys Môn i’w glywed yn genedlaethol yn bwysig i mi, er mwyn dylanwadu ar bolisïau sy’n cymryd i ystyried ein cymunedau ni yma.

## DIOLCH



Gair sydd wedi’i ddefnyddio gymaint yn ystod fy adroddiad ond amhosib i’w ddefnyddio gormod. Mae amgylchiadau'r flwyddyn o Fai 2020 i Mai 2021 wedi’i newid pob un ohonom. Gallwn ymfalchïo fel Cyngor o’n staff a’n cymunedau. Diolch i chi gyd am eich ymrwymiad. Gyda’n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth, wrth gyd-dynnu dangoswn nerth ein hynys fach.



**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 18 Mai 2021 |
| **TEITL:** | Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | John R Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2020/21 a sicrhau Cymeradwyaeth y Cyngor i Raglen y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) lbxcs@ynysmon.gov.uk |

**Rhagarweiniad**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol sy'n cynnwys 9 aelod (2 gynghorydd sir, 5 aelod annibynnol a 2 o aelodau cyngor cymuned). Mae manylion y Pwyllgor a'i aelodaeth ar gael yma.

2. Aelodau Annibynnol:

   Daw tymor pedwar o'r pum aelod annibynnol i ben ar 19 Rhagfyr 2027 ac mae tymor y pumed yn dod i ben ar 11 Rhagfyr, 2025.

   Rhaid penodi'r Cadeirydd o blith yr aelodau annibynnol. Penodwyd Mr John R Jones yn Gadeirydd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror 2020. Penodir y Cadeirydd am gyfnod o bedair blynedd.

3. Cynghorwyr Tref a Chymuned:

   Penodwyd dau gynrychiolydd y cynghorau tref a chymuned yn 2017. Bydd eu penodiadau yn rhedeg am gyfnod tan yr etholiad llywodraeth leol nesaf neu hyd nes na fyddant yn aelodau o gynghorau cymuned mwyach, p'un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Gellir ailbenodi aelod cyngor cymuned am un tymor arall yn olynol, ar yr amod bod Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn wedi cytuno gyda'i gilydd i ddewis aelodau presennol y cynghorau cymuned fel enwebeion ar gyfer y penodiadau. Efallai y bydd angen proses ddethol ar ôl etholiad Mai 2022 i sicrhau bod gan y Pwyllgor ddau gynrychiolydd cyngor tref a chymuned.

4. Cynghorwyr Sir:

   Penodir y ddau aelod o'r Cyngor Sir yn flynyddol gan y Cyngor.

Y ddau Gynhorydd Sir ar hyn o bryd yw’r Cynghorydd John Arwel Roberts, ynghyd â’r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas.

5. Mae gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol (ymhlith rhai eraill) mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau cynghorau tref / cymuned: -
(a) hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau;
(b) cynorthwyo aelodau i gadw at eu Côd Ymddygiad;
(c) cynghori, hyfforddi, neu drefnu i hyfforddi aelodau;
(ch) ystyried ceisiadau am ganiatadau arbennig;
(d) delio ag unrhyw atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), neu Banel Dyfarnu Cymru (y Pwyllgor Safonau cenedlaethol i bob pwrpas).

**Cefndir**

6. Yn ei gyfarfod ar 8 Medi 2020, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2020/2021. Nododd y Rhaglen wreiddiol y meysydd gwaith arfaethedig, yr amserlen a'r adnoddau. Esboniais wrth gyflwyno'r rhaglen waith ar gyfer 2020-2021 fod rhaglen arferol y Pwyllgor wedi'i chwtogi er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bu'n rhaid addasu i'r amgylchiadau cyfredol (o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws). Atgynhyrchir y ddogfen hon yn **ATODIAD A** i'r Adroddiad hwn ac fe'i diweddarwyd i gynnwys y gwaith a gyflawnwyd ers hynny yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn wreiddiol.

7. Mae **ATODIAD B** i'r Adroddiad hwn yn cynnwys Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2021/2022, a gyflwynir i'w chymeradwyo gan y Cyngor.

**Sylwadau’r Cadeirydd**

8. Yn fy adroddiad cyntaf fel Cadeirydd, a gyflwynwyd i’r Cyngor ryw wyth mis yn ôl, nodais fy ymrwymiad i weithio fel rhan o dîm ac i barhau â gwaith pwysig y Pwyllgor. Ar ôl myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf, credaf ein bod wedi gweithio'n dda fel grŵp ac rwy'n parhau i fod yn hollol grediniol bod gan bob aelod o'r Pwyllgor gyfraniad gwerthfawr i'w wneud a, thrwy weithio ar y cyd, gyda chefnogaeth swyddogion ac etholedig aelodau, mae safonau ymddygiad uchel yn cael eu cynnal, a byddant yn parhau i gael eu dilyn, yn Ynys Môn. Rwy’n parhau i gredu'n gryf y dylai’r Pwyllgor fod yn rhagweithiol a gweithio gydag aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor Sir, ac aelodau’r 40 cyngor tref a chymuned ar yr Ynys, i gefnogi’r safonau uchaf posib o ymddygiad.

9. Cefais fy mhenodi’n Gadeirydd ym mis Chwefror 2020, ychydig cyn i’r pandemig gydio. Felly mae fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd wedi bod yn wahanol i'r un y byddwn i wedi'i rhagweld. Yn naturiol, roedd yn rhaid canolbwyntio adnoddau'r Cyngor ar ddelio â'r argyfwng coronafeirws ac felly roedd gwaith y Pwyllgor yn gyfyngedig am rai misoedd gyda chyfrifoldebau statudol y Pwyllgor yn cael y flaenoriaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf cynnal cyfarfodydd ffurfiol yn llai aml, bu'r Pwyllgor yn ystyried materion eraill gan gynnwys cais am ganiatâd arbennig, adolygiadau o'r Cofrestrau Diddordebau mewn sampl o'r Cynghorau Tref a Chymuned, ymateb i ymgynghoriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Chanllawiau diwygiedig ar y Côd Ymddygiad (a) ar gyfer Cynghorwyr Sir a (b) ar gyfer Cynghorwyr

Cymuned, ac ystyried amrywiol gwynion o dan y protocol datrysiad lleol. Mae hwn yn waith pwysig sy'n hanfodol ar gyfer uchelgais y Pwyllgor o fod yn rhagweithiol.

10. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor, fel pob Pwyllgor arall o'r Cyngor, wedi'u cynnal yn rhithiol. Cynhaliwyd y Panel Gwrandawiad Caniatâd Arbennig ar Microsoft Teams a chynhaliwyd cyfarfodydd diweddarach gan ddefnyddio Zoom. Mae'r dechnoleg wedi gweithio'n dda.

11. Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am ei gyfraniadau diwyd ac amynedd yr aelodau hynny sy'n eu blwyddyn gyntaf o aelodaeth. Mae ein diolch i bob un swyddog sy'n cefnogi a chynghori'r Pwyllgor Safonau yn fawr iawn, yn arbennig o dan yr amgylchiadau oedd yn bodoli eleni. Diolchir hefyd i aelodau'r Cyngor Sir, a'r Cynghorau Tref a Chymuned, am eu parodrwydd i ymgysylltu â gwaith y Pwyllgor.

12. Isod mae crynodeb o'r materion a nodwyd yn y rhaglen Waith ar gyfer 2020-2021.

**12.1 Atgyfeiriadau / Cwynion Côd Ymddygiad**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn derbyn adroddiadau bob chwarter ac yn ei gyfarfodydd cyffredin, sy'n darparu gwybodaeth ystadegol am nifer a statws cwynion Côd Ymddygiad a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn (a) aelodau CSYM a (b) aelodau cynghorau tref a chymuned.

Yn yr adroddiadau am y cyfnod Ebrill 2020 – Mawrth 2021,

- Cyfeiriwyd un gŵyn at OGCC yn erbyn aelod o gyngor tref a chymuned. Penderfynodd OGCC beidio ag ymchwilio i'r gŵyn honno.
- Ni wnaed unrhyw gwynion i OGCC yn erbyn aelod o Gyngor Sir Ynys Môn. .
- Ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn gan OGCC at y Pwyllgor Safonau.

Mae hyn yn ostyngiad o nifer y cwynion a gyflwynwyd i OGCC yn 2019-2020 (er nad oedd hynny'n nifer uchel chwaith). Mae'r Pwyllgor yn parhau i gredu bod hunanreoleiddio yn gweithio a bod adrodd i OGCC am ychydig o gwynion, pan fo angen gwneud hynny a phan fo'n briodol, yn arwydd o sefydliad sy'n deall y gwahaniaeth rhwng y 'taro a'r gwthdaro' anochel sy'n rhan o wleidyddiaeth a'r materion a allai fod yn rhai difrifol ac a allai gyfiawnhau ymchwiliad annibynnol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod nifer a lefel y cwynion i'r OGCC yn arwydd o iechyd corfforaethol da; ac mae'n werth nodi bod y patrwm hwn wedi bod yn parhau ers nifer o flynyddoedd.

Atgoffir yr aelodau bod Protocol Datrysiad Lleol gwirfoddol ac anffurfiol yn bodoli, a allai ddatrys materion yn gyflymach ac yn fwy effeithiol na chwyn i OGGCC. Ehangwyd sgôp y Protocol ym mis Medi 2020 (fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor llawn) ond mae'r Pwyllgor yn awyddus i adolygu'r broses hon ymhellach, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig a ragwelir i'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau cyn etholiadau Mai 2022 . Er na roddir cosb o dan y broses datrysiad lleol, mae'n cynorthwyo partïon i ddod i ddatrysiad cyfeillgar yn achos anghydfod / pan fo perthynas wedi torri i lawr.

Cefais hyfforddiant ar gyfryngu i baratoi ar gyfer cynnal cyfarfodydd o dan y broses Datrysiad Lleol yn 2018. Ni fu modd trefnu hyfforddiant cyfryngu pellach yn ystod 2020/2021; fodd bynnag, dyma fydd un o amcanion y Pwyllgor yn 2021/2022.

Ynghyd ag Is-Gadeirydd y Pwyllgor, bûm yn ymwneud â materion datrysiad lleol yn ystod y flwyddyn, a godwyd yn erbyn Cynghorwyr Sir a hefyd Gynghorydd Cymuned.

Nodwyd fod gostyngiad wedi bod yn nifer yr aelodau etholedig wnaeth gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-2020. Ystyrir y Pwyllgor Safonau fod cyflwyno Adroddiad Blynyddol yn ymarfer da; mae'n cyfleu a chwmpasu y gwaith gaiff ei gyflawni gan aelodau'r Cyngor. Annogir aelodau i gyflwyno Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2020-2021 a'r dyfodol.

Yn ogystal â derbyn adroddiadau am y cwynion yn lleol, mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd sy'n amlygu pwyntiau dysgu ar benderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a Phanel Dyfarnu Cymru, am faterion Cymru gyfan. Mae'r Pwyllgor Safonau hefyd yn dod a'r pwyntiau dysgu yma i sylw aelodau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned drwy gyfrwng y "Newyddlen".

## 12.2 Cyfarfodydd

Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Rhaid cael o leiaf un cyfarfod pob blwyddyn yn unol â'r gofyn statudol. Cyfarfu'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2020; cafodd y cyfarfod ffurfiol a drefnwyd ar gyfer mis Medi 2020 ei ohirio tan fis Rhagfyr 2020 ac mae'r cyfarfod ffurfiol a oedd i'w gynnal ym Mawrth 2021 wedi ei ohirio tan 16 Mehefin, 2021.

Cynhaliwyd Gwrandawiad Caniatâd Arbennig ym mis Gorffennaf 2020 i ystyried cais gan 29 aelod o'r Cyngor Sir mewn perthynas â'r "rheol chwe mis" (gweler 12.3 isod).

Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol pellach, gan gynnwys ar 26 Chwefror pan gynhaliodd y Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Pwyllgor ac ar 10 Mawrth pan gafwyd trafodaeth mewn perthynas ag (A) yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan OGCC ar y Canllawiau ar y Côd Ymddygiad (gweler 12.6 isod) a (B) i gytuno ar ffurf y cyfarfodydd adolygu yn y Cynghorau Tref a Chymuned (gweler 12.5 isod).

Rwyf hefyd wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion mewn perthynas â nifer o faterion ymddygiad lefel isel, materion datrysiad lleol ac er mwyn symud ymlaen â'r rhaglen waith yn ystod y flwyddyn.

## 12.3 Caniatadau Arbennig

Gall y Pwyllgor Safonau roi caniatadau arbennig, mewn rhai amgylchiadau a ddiffinnir gan statud, lle na fyddai'r aelod fel arall yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth neu benderfyniad oherwydd diddordeb personol sylweddol (sy'n rhagfarnu). Weithiau bydd y Pwyllgor Safonau mewn sefyllfa i oresgyn y diddordeb sy'n rhagfarnu os bodlonir rhai amodau. Mae'r Rheoliadau Caniatadau Arbennig yn berthnasol i aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau cynghorau tref a chymuned.

Yn 2020/2021 rhoddodd y Pwyllgor Safonau naw ar hugain o ganiatadau arbennig (yn dilyn cais bloc gan holl aelodau'r Cyngor Sir) mewn perthynas â'r "rheol chwe mis".

Gellir gweld yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau ym mis Gorffennaf 2020 *yma*.

Cynghorir holl aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau cynghorau tref a chymuned i ystyried a allai cais am ganiatâd arbennig fod yn briodol iddynt mewn rhai amgylchiadau ac fe'u hanogir i gysylltu â'r Swyddog Monitro i gael cyngor.

### 12.4 Datblygiad Personol

Mae'r Pwyllgor Safonau yn argymell i'r holl aelodau eu bod yn parhau i ymgysylltu â'r Rhaglen Hyfforddi a Datblygu a gynigir gan y Cyngor Sir a'u bod yn cymryd rhan yn eu Hadolygiadau Datblygiad Personol gyda'u Harweinyddion Grŵp. Mae'r angen i adnewyddu a diweddaru sgiliau a gwybodaeth yr un mor berthnasol i aelodau profiadol ag y mae i'r aelodau hynny a etholwyd yn fwy diweddar ac, yn wir, i aelodau cyfetholedig hefyd.
Atgoffir aelodau hefyd i gynnwys manylion am hyfforddiant a gwblhawyd ganddynt yn eu hadroddiadau blynyddol.

### 12.5 Cofrestrau Diddordebau – Cynghorau Tref a Chymuned

Cynhaliwyd adolygiad o'r Cofrestrau Diddordebau mewn sampl o'r Cynghorau Tref a Chymuned yng ngwanwyn 2021. Y bwriad yw cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2021.

Mae hyn wedi bod yn rhan fawr o waith y Pwyllgor yn ystod 2021 hyd yma, gan gynnwys dewis y cynghorau i'w hadolygu, cytuno ar nodyn methodoleg i sicrhau cysondeb gan holl aelodau'r Pwyllgor Safonau wrth gynnal eu hadolygiadau, hyfforddiant ar y côd ymddygiad fel y mae'n berthnasol i gynghorwyr cymuned, a threfnu cyfarfodydd gyda Chlercod er mwyn cynnal yr adolygiadau.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Glercod ac Aelodau'r pum Cyngor a adolygwyd am eu cydweithrediad.

### 12.6 Ymgynghoriad ar y Canllawiau ar y Côd Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGGC)

Cyflwynwyd Canllawiau diwygiedig i'r Pwyllgor Safonau a gyhoeddwyd gan OGCC, ac a oedd yn destun ymgynghoriad, yn ei gyfarfod anffurfiol ar 10 Mawrth. Er na fu unrhyw newidiadau i'r Côd Ymddygiad, roedd OGCC wedi diweddaru'r Canllawiau a luniwyd ganddo bedair blynedd yn ôl. Mae dwy ddogfen Ganllaw - un ar gyfer Cynghorwyr Sir ac un arall ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Cytunwyd ar lythyr gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor, a oedd yn ymgorffori sylwadau'r Pwyllgor, ac fe'i cyflwynwyd i gyfarfod o Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol y Cyngor ar 18 Mawrth. Anfonwyd copi o’r llythyr i swyddfa OGCC ar 19 Mawrth 2021.

Disgwylir gwybodaeth mewn perthynas â chyhoeddi fersiynau terfynol y dogfennau hyn. Ar ôl eu derbyn, bydd y Pwyllgor yn adolygu ymhellach ac yn eu dosbarthu i'r Aelodau yn unol â hynny.

13. Rhagwelir bydd materion sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gofyn am sylw a mewnbwn y Pwyllgor Safonau yn ystod 2021-2022, yn arbennig ynghylch:

- **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor**

  Er fod y Pwyllgor Safonau eisioes yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor, bydd angen i'r Pwyllgor sicrhau fod adroddiadau'r dyfodol yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol o dan y ddeddfwriaeth.

- **Cynlluniau hyfforddi cynghorau cymuned**

  Mae'r Ddeddf yn cynnwys gofyniad i gynghorau cymuned ddatblygu cynlluniau hyfforddi gan gychwyn yn Ebrill 2022. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi ei drafod yn yr adolygiadau o gofrestrau diddordeb y Cynghorau Tref a Chymuned yn ddiweddar (gweler paragraff 12.5 uchod); bydd yn berthnasol ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol hefyd.

- **Dyletswydd ar arweinwyr grŵp i gynnal safonau ymddygiad uchel**

  Bydd rhaid i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau eu grŵp. Wrth wneud hynny bydd rhaid iddynt gydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo ymarfer ei swyddogaethau. Disgwylir Rheoliadau gan Weinidogion Cymru er mwyn cael mwy o wybodaeth am y gofyniad hwn.

**ARGYMHELLION: -**

1. Nodi'r Rhaglen a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau rhwng Mai 2020 ac Ebrill 2021 yn **ATODIAD A**.

2. Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2021/22 a amlinellir yn **ATODIAD B.**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2020 I EBRILL 2021

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | • Dim atgyfeiriadau hyd yma |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am Ganiatâd Arbennig | • Fel a phryd y derbynnir ceisiadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | • Derbyniwyd cais am ganiatâd arbennig gan y 29 Cynghorydd Sir a chynhaliwyd y gwrandawiad ar 29 Gorffennaf 2020. Rhoddwyd caniatâd arbennig i'r unigolion yn unol â'r telerau a nodwyd yn y Cofnodion. Gweler y ddolen i'r cais/Cofnodion y gwrandawiad.<br>• Paratowyd adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 15 Rhagfyr 2020. Gweler y ddolen i'r adroddiad. |
| 3. | Cyflawni rôl ymgynghorol mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro | • Mae Cadeirydd / Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cynnal nifer o gyfarfodydd/anfon gohebiaeth yn ystod y flwyddyn -<br>• Ystyried awdurdod y Protocol Datrysiad Lleol mewn perthynas â chwyn a godwyd yn erbyn Cynghorydd Sir. Fodd bynnag, nid oedd Cadeirydd ac Is- |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gadeirydd y PS yn ystyried bod y mater yn addas ar gyfer Datrysiad Lleol.<br>• Anfonodd y Cadeirydd ohebiaeth at rai aelodau ynghylch Adroddiadau Blynyddol a chyfarfu hefyd ag un Grŵp.<br>• Anfonodd y Cadeirydd ohebiaeth at Gynghorydd ac Arweinydd Grŵp mewn perthynas â mater yn ymwneud â swyddog.<br>• Anfonodd y Cadeirydd ohebiaeth at Gynghorydd Sir a chynnal cyfarfod ag o mewn perthynas â Chofrestr o Ddiddordebau'r Cynghorydd Sir.<br>• Cyfarfu'r Cadeirydd ac aelod arall o'r Pwyllgor Safonau â chynghorydd mewn perthynas â mater yn y Cyngor Tref a Chymuned. Ni symudodd y mater ymlaen ar gyfer cyfryngu dan broses y Protocol Datrysiad Lleol. |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Côd | • Parhaus | • Swyddog Monitro | <u>CYNGHORAU TREF A CHYMUNED:-</u><br>Anfonwyd cylchlythyr at y Cynghorau Tref a Chymuned ar 04.03.2021 yn eu cynghori ynghylch materion a drafodwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2020 a mis Rhagfyr 2020.<br>Cylchlythyrau pellach i'w hanfon ar ôl pob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor.<br><u>AELODAU CYNGOR SIR:-</u> |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Anfonwyd cylchlythyrau at yr Aelodau Cyngor Sir ar 26.02.2021 yn eu cynghori ynghylch y materion a drafodwyd yn y cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020 a mis Rhagfyr 2020. Cylchlythyrau pellach i'w hanfon ar ôl pob cyfarfod Pwyllgor ffurfiol. |
| 5. | Adolygu sampl o'r Gofrestr o Ddiddordebau Aelodau fel y cânt eu cadw gan y cynghorau tref a chymuned, a rhoi unrhyw gyngor a chanllawiau angenrheidiol wedi hynny | • Yn ddibynnol ar adnoddau – fel arfer byddai'n cael ei amserlennu erbyn diwedd Ebrill 2021 | • Swyddog Monitro | • Cynhaliwyd adolygiad mewn pum Cyngor Tref a Chymuned a gafodd eu dewis yn ystod y Gwanwyn 2021<br>• Paratowyd llythyrau unigol – anfonwyd rhai, eraill i ddilyn yn fuan.<br>• Adroddiad ar y canfyddiadau cyffredinol i'w gyflwyno i gyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2021. |
| 6. | Cyflawni rôl ymgynghorai mewn perthynas ag unrhyw newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau ac yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau a diddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd fydd angen | • Swyddog Monitro | • Nid oes angen. |
| 7. | Cyflawni rôl ymgynghorai mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol / polisi arfaethedig ac ati sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd fydd angen | • Swyddog Monitro | • Adolygodd y Pwyllgor Safonau Adroddiadau Blynyddol aelodau'r Cyngor Sir a chysylltwyd yn uniongyrchol ag aelodau, fel oedd yn briodol, i'w hannog i gwblhau'r adroddiadau.<br>• Ymatebwyd i ymgynghoriad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad – dwy ddogfen ar wahân, un ar gyfer Cynghorwyr Sir ac un arall ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned.<br>• Yn dilyn cynhyrchu ymateb gan y Pwyllgor Safonau, cyflwynodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu cynnig ar ymateb i Arweinyddion y Grwpiau gan sicrhau eu cytundeb unfrydol. |
| 8. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd fydd angen | • Swyddog Monitro | • Gwnaed argymhellion gan y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r dolenni i recordiadau o gyfarfodydd ar wefan y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio ac ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd. Cafodd y mater ei ddatrys yn foddhaol. |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. | • Mai 2020 (neu pan gynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor) | • Cadeirydd | • Mae Mr John R Jones (Cadeirydd ers mis Chwefror 2020) yn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn. Hwn yw ei ail Adroddiad Blynyddol.<br>• Nodwyd y bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno Adroddiad Blynyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 o fis Mai 2022. Angen sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol nesaf yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnwys yr holl ofynion deddfwriaethol. |
| 10. | Y Cadeirydd neu aelodau eraill y Pwyllgor Safonau i fynychu unrhyw gyfarfodydd o’r Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau. | • Fel a phryd fydd angen | • Swyddog Monitro | • Roedd y Cadeirydd yn bresennol yn y Cyfarfod Blynyddol ar 8 Medi 2020.<br>• Mynychodd y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd ddau gyfarfod gydag Arweinyddion Grwpiau gwleidyddol.<br>• Rhaglen o gyfarfodydd / amserlen i’w threfnu ar gyfer 20201. |
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau’r Pwyllgor Safonau’n cael eu datblygu a’u diweddaru drwy:- | | • Swyddog Monitro | |
| | - Adolygu’n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan<br>○ awdurdodau perthnasol eraill<br>○ Panel Dyfarnu Cymru | • Cyfarfod arferol o’r Pwyllgor | | • Cyflwynwyd i’r Pwyllgor Safonau yn y yn y cyfarfodydd ar 11.03.2020 a 15.12.2020.<br>• Rhannwyd â Chynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned fel rhan o’u Cylchlythyrau perthnasol a anfonwyd ar 26.02.2021 a 04.03.2021. |
| | - Cymryd rhan a chyfrannu yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru | • Yn ddibynnol ar adnoddau – fel arfer byddai’n cael ei amserlennu ddwywaith y flwyddyn | | • Ni threfnwyd unrhyw gyfarfodydd o’r Fforwm yn ystod y cyfnod. |
| | - Cymryd rhan a chyfrannu yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan. | • Un bob 2 flynedd – cynhaliwyd y | | • Ni threfnwyd yr un Gynhadledd yn ystod y cyfnod. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | diwethaf ar 14.09.2019, felly byddai'r nesaf yn 2020, ond fe'i gohiriwyd oherwydd y pandemig Coronafeirws. | | |
| | - I'w adolygu dan gynllun adolygu/gwerthuso perfformiad tebyg i'r un a ddefnyddir gan aelodau'r Cyngor Sir. | • Unwaith bob dwy flynedd – un i'w gynnal yn 2020 – ond bydd yn ddibynnol ar adnoddau. | | • Oherwydd cyfyngiadau'r system electronig, yn yr un modd â phob aelod o'r Cyngor Sir (etholedig a chyfetholedig), cynghorir aelodau'r Pwyllgor Safonau i sicrhau eu bod yn diweddaru eu cofnodion hyfforddiant eu hunain. Ni chynhaliwyd unrhyw Adolygiadau Datblygu Perfformiad. I'w ystyried ar gyfer 2021. |
| 12. | Monitro cynnydd o ran cwynion ynghylch aelodau a gafodd eu cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a dadansoddi'n flynyddol y data am gwynion sy'n berthnasol i'r Cyngor Sir a chynghorau tref a chymuned er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu'n amlygu anghenion hyfforddiant. | • Yn ddibynnol ar adnoddau – fel arfer byddai'n cael ei amserlennu'n chwarterol. | • Swyddog Monitro | • Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ar 11.03.2020 a 15.12.2020.<br>• Mae'r matrics cwynion yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor Safonau yn chwarterol ym mis Ebrill (Ionawr-Mawrth), Gorffennaf (Ebrill-Mehefin), Hydref (Gorffennaf-Medi) ac Ionawr (Hydref-Rhagfyr). Mae'n manylu ar y cwynion a dderbyniwyd a chynnydd a wnaed mewn perthynas â chwynion y mae OGCC yn ymchwilio iddynt mewn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | perthynas ag (a) aelodau Cynghorau Sir a (b) aelodau cynghorau tref a chymuned.<br>• Cyflwynwyd adroddiad gan OGCC a chrynodeb o'r Coflyfr o Gwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd gan yr OGCC i'r Pwyllgor Safonau ar 11.03.2020 a 15.12.2020. Cafodd y ddolen i'r adroddiad a chrynodeb ei gylchreded i aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau cynghorau tref a chymuned fel rhan o'u cylchlythyrau perthnasol a anfonwyd ar 26.02.2021 a 04.03.2021. |
| 13. | Cynnal cyswllt ag Arweinyddion Grwpiau er mwyn tafod unrhyw faterion sydd o bryder | • Fel a phryd fydd angen | • Cadeirydd | • 25.02.2021<br>• 18.03.2021<br>• Cafwyd cyfarfod gyda Arweinyddion Grwpiau hefyd i drafod materion penodol oedd yn berthnasol i aelodau eu grŵp(iau). |
| 14. | Adolygu dangosyddion perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Safonau ac adrodd arnynt fel mater o drefn. | • Yn ddibynnol ar adnoddau – fel arfer byddai'n cael ei amserlennu cyn Ebrill 2021. | • Swyddog Monitro | • Adrodd yn chwarterol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 15. | Cynnal rhaglen o hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau yn unol ag **Atodiad A1**, fel y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019. | • Yn ddibynnol ar adnoddau – fel arfer byddai'n cael ei amserlennu cyn Ebrill 2021. | • Swyddog Monitro | • Wedi'i gwblhau yn rhannol. Angen gwneud mwy o waith. Gweler y golofn ddiweddaru yn y ddogfen sy'n ymddangos fel **Atodiad 1**. |
| 16. | Ystyried hyfforddiant ar gyfer Aelodau – anwytho aelodau newydd (yn dilyn etholiadau Mai 2022) ac, fel mater ar wahân, hyfforddiant blynyddol ar gyfer pob aelod, yn unol â rhaglen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | • Yn ddibynnol ar adnoddau – fel arfer byddai'n cael ei amserlennu cyn Ebrill 2021. | • | • Cyflwynwyd adroddiadau gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor.<br>• Ymgynghorwyd â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ynghylch hyfforddiant ar gyfer Aelodau yn 2021-22. |

**Atodiad A1:**

| Hyfforddiant | Naratif | Math o hyfforddiant | Dyddiad Arfaethedig a gytunwyd gan y Pwyllgor – ond bydd rhaid addasu'r amserlen yn unol â gofynion busnes o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws | Wedi ei gwblhau? Diweddariad – Mai 2021 |
|---|---|---|---|---|
| Côd Ymddygiad | Mae'n rhaid i holl Aelodau'r Pwyllgor Safonau ddilyn y Côd Ymddygiad. Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Aelodau fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn ystod pob tymor llawn, presenoldeb o'r fath i ddigwydd yn ystod y chwe mis yn dilyn cael eu hethol. | Modiwl E-ddysgu ar "Foeseg a Safonau"<br><br>Hyfforddiant Ystafell Ddosbarth i'w ddarparu yn fewnol gan y Swyddog Monitro. | Ar gael ar gais<br><br>Mai 2020 | <br><br>Chwefror 2021 |
| Caniatâd Arbennig | Gall Cynghorwyr Tref a Chymuned wneud cais am ganiatâd arbennig. Bydd Panel o aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ystyried cais ysgrifenedig am ganiatâd arbennig mewn Gwrandawiad. | Sesiwn hyfforddiant ystafell ddosbarth ar Ganiatâd Arbennig (y sail ar gyfer rhoi caniatâd arbennig / y fethodoleg ar gyfer cynnal gwrandawiadau ac ati) i'w darparu'n fewnol gan y Swyddog Monitro.<br><br>Bydd hyfforddiant penodol ar y cais am ganiatâd | Haf 2020<br><br>Yn ôl yr angen yn ystod 2020/21 | Ni fu'n bosib cwblhau hyfforddiant ar ganiatadau arbennig ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ystod 2020 ac felly bydd yn cael ei gynnwys yn y dyfodol. |

| Hyfforddiant | Naratif | Math o hyfforddiant | Dyddiad Arfaethedig a gytunwyd gan y Pwyllgor – ond bydd rhaid addasu'r amserlen yn unol â gofynion busnes o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws | Wedi ei gwblhau? Diweddariad – Mai 2021 |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | arbennig gerbron y Panel yn cael ei ddarparu cyn pob Gwrandawiad am Ganiatâd Arbennig ac fe'i darperir yn fewnol gan y Swyddog Monitro. | | Darparwyd hyfforddiant i'r panel cyn y Gwrandawiad ar 29 Gorffennaf 2020. |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) / Panel Dyfarnu Cymru (PDC) – adolygu achosion | Yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau (Mawrth a Medi) darperir diweddariad ar yr achosion sydd wedi eu hystyried gan OGCC a PDC. | Darperir dau adroddiad y flwyddyn ac fe gynhelir trafodaeth yn y Cyfarfodydd. | Mawrth 2020<br><br>Medi 2020<br><br>Mawrth 2021 | Mawrth 2020<br><br>Rhagfyr 2020<br><br>(yn unol ag amserlen cyfarfodydd ffurfiol) |
| Cyfansoddiad CSYM | Darparu trosolwg cyffredinol o Gyfansoddiad y Cyngor o ran y ffordd y gallai effeithio ar y Pwyllgor Safonau. | Sesiwn hyfforddiant gyffredinol yn yr ystafell ddosbarth ar y Cyfansoddiad i'w chynnal yn fewnol gan y Swyddog Monitro. | I'w gadarnhau – 2020 | Heb ei gwblhau. I'w gwblhau yn y dyfodol. |
| Cyfryngu yng nghyd-destun y Protocol | Mae Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn hanfodol i'r broses Datrysiad Lleol yn unol â'r Protocol sydd wedi'i | Darparwr allanol i gynhyrchu a darparu sesiwn hyfforddiant bwrpasol ar | Mai / Mehefin 2020 | Heb ei gwblhau. I'w gwblhau yn y dyfodol. |

| **Hyfforddiant** | **Naratif** | **Math o hyfforddiant** | **Dyddiad Arfaethedig a gytunwyd gan y Pwyllgor – ond bydd rhaid addasu'r amserlen yn unol â gofynion busnes o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws** | **Wedi ei gwblhau? Diweddariad – Mai 2021** |
|---|---|---|---|---|
| Datrysiad Lleol | fabwysiadu gan y Pwyllgor ac sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Arweinwyr Grwpiau. | gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau yn seiliedig ar Brotocol Datrysiad Lleol CSYM. | | |
| Gwrandawiadau Pwyllgor Safonau | Er na ragwelir unrhyw Wrandawiadau yn y dyfodol agos, mae angen i'r Pwyllgor Safonau gynnal Gwrandawiadau petai OGCC yn cyfeirio mater ar gyfer ei benderfynu. | Holi darparwr allanol – efallai y gellid gwneud hyn ar y cyd â Phwyllgor neu Bwyllgorau Safonau eraill. | I'w drefnu ymhellach pan fydd angen (os yw'n debygol y bydd angen Gwrandawiad) | Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu os bydd OGCC yn cyfeirio cŵyn er mwyn i'r Pwyllgor Safonau ei ystyried. |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Seibr Ddiogelwch<br><br>GDPR | Hyfforddiant cyffredinol sydd wedi'i adnabod fel bod yn berthnasol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau o'r rhestr o hyfforddiant a ofynnwyd amdano ar gyfer Aelodau Etholedig. | Modiwlau E-ddysgu. | Ar gael yn ôl yr angen | |
| Diogelu (Sylfaenol)<br><br>Trais yn erbyn merched; | Dyma restr o'r hyfforddiant y gofynnir i Aelodau Etholedig ei gwblhau. | Pob un (ac eithrio Trwyddedu a Chynllunio) i'w cwblhau gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-ddysgu | Ar gael yn ôl yr angen<br><br><br>I'w gadarnhau - 2020 | Ni threfnwyd unrhyw sesiynau ystafell ddosbarth ond mae e-ddysgu ar gael ar alw. |

| **Hyfforddiant** | **Naratif** | **Math o hyfforddiant** | **Dyddiad Arfaethedig a gytunwyd gan y Pwyllgor – ond bydd rhaid addasu'r amserlen yn unol â gofynion busnes o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws** | **Wedi ei gwblhau? Diweddariad – Mai 2021** |
|---|---|---|---|---|
| Prevent; Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE); Caethwasiaeth Fodern<br><br>Iechyd a Diogelwch<br><br>Trwyddedu* / Cynllunio*<br><br>* *os ar y Pwyllgor* | | Efallai y bydd modd cynnal sesiynau ystafell ddosbarth. | | |
| Cadeirio Cyfarfodydd | I'w gynnig i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd sydd newydd eu penodi, os ydynt yn dymuno. | | I'w gadarnhau – 2020 | Cadeirydd ac Is-gadeirydd i fynychu hyfforddiant ar Gadeirio cyfarfodydd rhithwir ym mis Mehefin 2021. |

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU – MAI 2021 I EBRILL 2022

| | | AMSERLEN | ADNODDAU | STATWS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwrandawiadau i achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad i Aelodau yn dilyn eu cyfeirio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) | • Fel a phryd y derbynnir atgyfeiriadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | |
| 2. | Cynnal gwrandawiadau i geisiadau am Ganiatâd Arbennig | • Fel a phryd y derbynnir ceisiadau ac yn unol â'r dangosydd perfformiad | • Swyddog Monitro | |
| 3. | Cyflawni rôl ymgynghorol mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n codi dan Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor | • Fel a phryd y derbynnir cais | • Swyddog Monitro | |
| 4. | Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad ar y Côd Ymddygiad i Aelodau yn unol â pharagraff 2.6 y Côd | • Parhaus | • Swyddog Monitro | |
| 5. | Adolygu'r tair cofrestr o Ddiddordebau Aelodau ar gyfer Cynghorwyr Sir ac yna darparu unrhyw gyngor ac arweiniad angenrheidiol. | • Fel arfer byddai'n cael ei amserlennu erbyn diwedd Ebrill 2022. Yn sgîl materion capasiti yn yr | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | adain Gyfreithiol, bydd yn cael ei ohirio hyd nes diwedd 2022. | | |
| 6. | Cyflawni rôl ymgynghorai mewn perthynas ag unrhyw newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad sy'n berthnasol i rôl y Pwyllgor Safonau ac yn enwedig lle gallai newidiadau arfaethedig o'r fath ragfarnu mewn modd anghymesur, hawliau a diddordebau unrhyw grŵp lleiafrifol. | • Fel a phryd fydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 7. | Cyflawni rôl ymgynghorai mewn perthynas ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol / polisi arfaethedig ac ati sy'n berthnasol i faes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau; rhagwelir bydd hyn yn cynnwys a Fframwaith Foesegol newydd a Chanllawiau OGCC ar y cod ymddygiad ar gyfer cynghorwyr sir a chymuned, gan ddilyn efo adolygiad o'r Protocol Datrysiad Lleol. | • Fel a phryd bydd ymgynghoriadau yn agor ond bydd datblygiadau pellach yn ddibynnol ar faterion capasiti yn yr adain Gyfreithiol ac efallai bydd yn cael ei ohirio hyd nes diwedd 2022. | • Swyddog Monitro | |
| 8. | Gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor ar gyfer gwella'r meysydd gwaith hynny sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau. | • Fel a phryd fydd angen | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn flaenorol. Sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol yn cyd-fynd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol gan Bwyllgorau Safonau. | • Mai 2022 (neu pan gynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor) | • Cadeirydd | |
| 10. | Ar gais y Pwyllgor Safonau, i fynychu cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau, yn achlysurol; bydd presennoldeb felly'n cael ei awdurdodi gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a bydd amserlen a ffurf ar gyfer darparu adborth yn cael eu datblygu ar gyfer y gwaith hwn. | • Fel a phryd fydd angen | • Swyddog Monitro | |
| 11. | Sicrhau fod gwybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Safonau'n cael eu datblygu a'u diweddaru drwy:- | | • Swyddog Monitro | |
| | - Adolygu'n rheolaidd achosion y penderfynwyd arnynt gan<br>○ awdurdodau perthnasol eraill<br>○ Panel Dyfarnu Cymru | • Cyfarfod arferol o'r Pwyllgor | | |
| | - Cymryd rhan a chyfrannu yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru | • Fel arfer byddai'n cael ei amserlennu ddwywaith y flwyddyn ac mae'n gofyn cael cefnogaeth a phresennoldeb swyddog. Bydd | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hyn yn ddibynnol ar faterion capasiti o fewn yr adain Gyfreithiol. | | |
| | - Cymryd rhan a chyfrannu yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau Cymru Gyfan. | • Un bob 2 flynedd – cynhaliwyd y diwethaf ar 14.09.2018, felly byddai'r nesaf yn 2020, ond fe'i gohiriwyd oherwydd y pandemig Coronafeirws.<br>• Bydd hyn yn ddibynnol ar faterion capasiti o fewn yr adain Gyfreithiol. | | |
| | - I'w adolygu dan gynllun adolygu/gwerthuso perfformiad tebyg i'r un a ddefnyddir gan aelodau'r Cyngor Sir. | • Unwaith bob dwy flynedd – un i'w gynnal yn 2020 – ond fe'i gohiriwyd oherwydd y pandemig Coronafeirws. Amserlenwyd yn 2022. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd hyn yn ddibynnol ar faterion capasiti o fewn yr adain Gyfreithiol. | | |
| 12. | Monitro cynnydd o ran cwynion ynghylch aelodau a gafodd eu cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a dadansoddi'n flynyddol y data am gwynion sy'n berthnasol i'r Cyngor Sir a chynghorau tref a chymuned er mwyn nodi unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n peri pryder neu'n amlygu anghenion hyfforddiant. | • Chwarterol | • Swyddog Monitro | |
| 13. | Cynnal cyswllt ag Arweinyddion Grwpiau er mwyn tafod unrhyw faterion sydd o bryder | • Fel a phryd fydd angen | • Cadeirydd | |
| 14. | Adolygu dangosyddion perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Safonau ac adrodd arnynt fel mater o drefn. | • Mai 2022 | • Swyddog Monitro | |
| 15. | Parhau efo cynnal rhaglen o hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau yn unol ag **Atodiad B1**, fel y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019, i'r graddau na chwblhawyd eisoes yn 2020/21. | • Fel arfer byddai'n cael ei amserlennu cyn Mai 2022.<br>• Bydd hyn yn ddibynnol ar faterion capasiti o fewn yr adain Gyfreithiol. | • Swyddog Monitro | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16. | Ystyried hyfforddiant ar gyfer Aelodau – anwytho aelodau newydd (yn dilyn etholiadau Mai 2022) ac, fel mater ar wahân, hyfforddiant blynyddol ar gyfer pob aelod, yn unol â'r rhaglen newydd gaiff ei llunio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. | • Fel arfer byddai'n cael ei amserlennu cyn Mai 2022.<br>• Bydd hyn yn ddibynnol ar faterion capasiti o fewn yr adain Gyfreithiol. | • | |

**Atodiad B1:**

| Hyfforddiant | Naratif | Math o hyfforddiant | Dyddiad Arfaethedig a gytunwyd gan y Pwyllgor – ond bydd rhaid addasu'r amserlen yn unol â gofynion busnes o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws | Diweddariad – Mai 2021 |
|---|---|---|---|---|
| Côd Ymddygiad | Mae'n rhaid i holl Aelodau'r Pwyllgor Safonau ddilyn y Côd Ymddygiad. Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Aelodau fynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad yn ystod pob tymor llawn, presenoldeb o'r fath i ddigwydd yn ystod y chwe mis yn dilyn cael eu hethol. | Modiwl E-ddysgu ar "Foeseg a Safonau"<br><br>Hyfforddiant Ystafell Ddosbarth i'w ddarparu yn fewnol gan y Swyddog Monitro. | Ar gael ar gais<br><br>Mai 2020 | <br><br>Chwefror 2021 |
| Caniatâd Arbennig | Gall Cynghorwyr Tref a Chymuned wneud cais am ganiatâd arbennig. Bydd Panel o aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ystyried cais ysgrifenedig am ganiatâd arbennig mewn Gwrandawiad. | Sesiwn hyfforddiant ystafell ddosbarth ar Ganiatâd Arbennig (y sail ar gyfer rhoi caniatâd arbennig / y fethodoleg ar gyfer cynnal gwrandawiadau ac ati) i'w darparu'n fewnol gan y Swyddog Monitro. | Haf 2020 | Bydd hyfforddiant ar ganiatadau arbennig ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnwys ar ddyddiad yn y dyfodol oherwydd na chafodd ei gwblhau yn ystod 2020. |

| **Hyfforddiant** | **Naratif** | **Math o hyfforddiant** | **Dyddiad Arfaethedig a gytunwyd gan y Pwyllgor – ond bydd rhaid addasu'r amserlen yn unol â gofynion busnes o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws** | **Diweddariad – Mai 2021** |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd hyfforddiant penodol ar y cais am ganiatâd arbennig gerbron y Panel yn cael ei ddarparu cyn pob Gwrandawiad am Ganiatâd Arbennig ac fe'i darperir yn fewnol gan y Swyddog Monitro. | Yn ôl yr angen yn ystod 2020/21 | Darparwyd hyfforddiant i'r panel cyn y Gwrandawiad ar 29 Gorffennaf 2020. |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) / Panel Dyfarnu Cymru (PDC) – adolygu achosion | Yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau (Mawrth a Medi) darperir diweddariad ar yr achosion sydd wedi eu hystyried gan OGCC a PDC. | Darperir dau adroddiad y flwyddyn ac fe gynhelir trafodaeth yn y Cyfarfodydd. | Mawrth 2020<br><br>Medi 2020<br><br>Mawrth 2021 | Mawrth 2020<br><br>Rhagfyr 2020<br><br>(yn unol â'r amserlen ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol) |
| Cyfansoddiad CSYM | Darparu trosolwg cyffredinol o Gyfansoddiad y Cyngor o ran y ffordd y gallai effeithio ar y Pwyllgor Safonau. | Sesiwn hyfforddiant gyffredinol yn yr ystafell ddosbarth ar y Cyfansoddiad i'w chynnal yn fewnol gan y Swyddog Monitro. | I'w gadarnhau – 2020 | Heb ei gwblhau. I'w gynnwys yn y dyfodol. |

| **Hyfforddiant** | **Naratif** | **Math o hyfforddiant** | **Dyddiad Arfaethedig a gytunwyd gan y Pwyllgor – ond bydd rhaid addasu'r amserlen yn unol â gofynion busnes o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws** | **Diweddariad – Mai 2021** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Cyfryngu yng nghyd-destun y Protocol Datrysiad Lleol | Mae Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn hanfodol i'r broses Datrysiad Lleol yn unol â'r Protocol sydd wedi'i fabwysiadu gan y Pwyllgor ac sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Arweinwyr Grwpiau. | Darparwr allanol i gynhyrchu a darparu sesiwn hyfforddiant bwrpasol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau yn seiliedig ar Brotocol Datrysiad Lleol CSYM. | Mai / Mehefin 2020 | Heb ei gwblhau. I'w gynnwys yn y dyfodol. |
| Gwrandawiadau Pwyllgor Safonau | Er na ragwelir unrhyw Wrandawiadau yn y dyfodol agos, mae angen i'r Pwyllgor Safonau gynnal Gwrandawiadau petai OGCC yn cyfeirio mater ar gyfer ei benderfynu. | Holi darparwr allanol – efallai y gellid gwneud hyn ar y cyd â Phwyllgor neu Bwyllgorau Safonau eraill. | I'w drefnu ymhellach pan fydd angen (os yw'n debygol y bydd angen Gwrandawiad) | Caiff yr hyfforddiant hwn ei ddarparu dim ond os bydd OGCC yn cyfeirio cŵyn er mwyn i'r Pwyllgor Safonau ei ystyried. |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br><br>Seibr Ddiogelwch<br><br>GDPR | Hyfforddiant cyffredinol sydd wedi'i adnabod fel bod yn berthnasol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau o'r rhestr o hyfforddiant a ofynnwyd amdano ar gyfer Aelodau Etholedig. | Modiwlau E-ddysgu. | Ar gael yn ôl yr angen | |

| **Hyfforddiant** | **Naratif** | **Math o hyfforddiant** | **Dyddiad Arfaethedig a gytunwyd gan y Pwyllgor – ond bydd rhaid addasu'r amserlen yn unol â gofynion busnes o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws** | **Diweddariad –<br>Mai 2021** |
|---|---|---|---|---|
| Diogelu (Sylfaenol)<br><br>Trais yn erbyn merched;<br>Prevent;<br>Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE);<br>Caethwasiaeth Fodern<br><br>Iechyd a Diogelwch<br><br>Trwyddedu* / Cynllunio*<br><br>* *os ar y Pwyllgor* | Dyma restr o'r hyfforddiant y gofynnir i Aelodau Etholedig ei gwblhau. | Pob un (ac eithrio Trwyddedu a Chynllunio) i'w cwblhau gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-ddysgu<br><br>Efallai y bydd modd cynnal sesiynau ystafell ddosbarth. | Ar gael yn ôl yr angen<br><br><br><br>I'w gadarnhau - 2020 | Ni threfnwyd unrhyw sesiynau ystafell ddosbarth ond mae e-ddysgu ar gael ar alw. |

| **Hyfforddiant** | **Naratif** | **Math o hyfforddiant** | **Dyddiad Arfaethedig a gytunwyd gan y Pwyllgor – ond bydd rhaid addasu'r amserlen yn unol â gofynion busnes o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws** | **Diweddariad – Mai 2021** |
|---|---|---|---|---|
| Cadeirio Cyfarfodydd | I'w gynnig i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd sydd newydd eu penodi, os ydynt yn dymuno. | | I'w gadarnhau – 2020 | Cadeirydd ac Is-gadeirydd i fynychu hyfforddiant ar Gadeirio cyfarfodydd rhithwir ym mis Mehefin 2021. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mai, 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2020/21** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeiryddion y:**<br>**1. Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>**2. Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y ddau bwyllgor sgriwtini yn ystod 2020/21 a darparu trosolwg o rhaglen waith sgriwtini ar gyfer 2021/22** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:**<br>**E-bost:**<br>**Rhif Ffôn** | **Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752578** |

1. **Argymhellion**

   Gofynnir i'r Cyngor:

   **A1** Gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2020/21

   **A2** Nodi'r cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud o ran ein siwrnai ddatblygu Sgriwtini a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymarfer.

   **A3** Penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai, 2021 a Mai, 2022.

2. **Cefndir a chyd-destun**

   **2.1** Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Drosolwg a Sgriwtini yn trafod y gwaith a wnaed gan y ddau bwyllgor sgriwtini rhwng Mai 2020 a Mai, 2021.

   **2.2** Bu cadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini yn arwain ar ddatblygu'r blaen raglenni gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Caiff blaen raglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a gynhelir yn fisol ac i bob cyfarfod o'r pwyllgorau sgriwtini ar gyfer eu cymeradwyo.

   **2.3** Bu swyddogaeth sgriwtini y Cyngor drwy daith wella yn sgil comisiynu'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus i adolygu ein trefniadau sgriwtini yn lleol (Rhagfyr, 2017). Mae'r rhaglen wella a roddwyd mewn lle o ganlyniad i'r adolygiad wedi dirwyn i ben a rhaglen ddatblygu yn ei lle mewn cyd-destun gwella parhaus a datblygiadau ar gyflymder priodol a amlinellir yn yr adroddiad.

   Mae effaith a gwerth ychwanegol gweithgaredd sgriwtini'n cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor drwy gefnogaeth a her.

3. **Rôl Pencampwr Sgriwtini**

   **3.1** Mae gan y Pencampwr Sgriwtini rôl bwysig o ran hyrwyddo'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yn y Cyngor a gyda phartneriaid allanol yr Awdurdod. Nid yw'n swydd fandadol ac ni cheir unrhyw gydnabyddiaeth ariannol am ei gwneud. Ystyrir bod y rôl yn allweddol wrth ddangos ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau

bod Sgriwtini yn gwneud y gorau o gyfraniad Aelodau nad ydynt yn aelodau'r Pwyllgor Gwaith i berfformiad cyffredinol ac "iechyd corfforaethol" y sefydliad.

**3.2** Ar 14 Mai, 2015 penderfynodd y Cyngor y dylid penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai, 2015 a Mai, 2016 ac y byddai'r rôl yn cael ei gwneud gan y ddau gadeirydd sgriwtini bob yn ail. O'r herwydd, dylid penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fel y Pencampwr Sgriwtini dynodedig am y flwyddyn nesaf.

| **Atodiad:** |
| --- |
| Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2020/21 |

# Adroddiad Blynyddol

# Trosolwg a Sgriwtini: 2020-21



Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 2 | Ein strwythur lleol |
| 3 | Taith ddatblygu Sgriwtini yn lleol |
| 4 | Asesu effaith Sgriwtini |
| 5 | Edrych ymlaen i 2021/22 |
| 6 | Cysylltu â Sgriwtini |

| ATODIADAU | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Beth ydy trosolwg a sgriwtini? |
| Atodiad 2 | Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth ein pwyllgorau sgriwtini |
| Atodiad 3 | Y Weledigaeth ar gyfer Sgriwtini Effeithiol yn y Cyngor |

# 1. RHAGAIR

| **Cynghorydd Aled Morris Jones**<br><br>• **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2020/21**<br>• **Pencampwr Sgriwtini 2019/20 → 2020/21** |  |
|---|---|

Mae'n bleser gennyf ddarparu trosolwg o waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dros y 12 mis diwethaf. Caiff sgôp gwaith y Pwyllgor ei drafod yn yr adroddiad hwn ac mae'n deg nodi bod y llwyth gwaith yn parhau i fod yn sylweddol ac amrywiol. Cynhaliwyd cyfanswm o 11 cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddinesig, sy'n fwy na'r llynedd er gwaetha'r pandemig.

- **Gosod cyllideb flynyddol 2021/22** – un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cyfrannu at y broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor sy'n broses hanfodol sy'n cael effaith bellgyrhaeddol ar bob maes a gwasanaeth o fewn y Cyngor ac ar y cyhoedd. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r cynigion o ran y gyllideb flynyddol ar gyfer 2021/22. Mae cyfraniad y **Panel Sgriwtini Cyllid** wedi ychwanegu gwerth at y broses hon hefyd, ac mae gwaith craffu manwl wedi cael ei gwblhau gan y Panel sydd wedi cynorthwyo'r Pwyllgor.

- **Monitro perfformiad yn chwarterol** – bu'r Pwyllgor fonitro perfformiad yn ystod 2020/21, gan ddefnyddio'r cerdyn sgorio corfforaethol sy'n rhoi sylw i nifer o ddangosyddion ar gyfer pob gwasanaeth unigol. Mae'r cerdyn sgorio'n parhau i esblygu fel arf effeithiol i Aelodau Etholedig graffu ar berfformiad a data'r gwahanol wasanaethau. Rhaid cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith ar rai targedau yn naturiol.

- Mae ein gwaith fel pwyllgor hefyd wedi cynnwys craffu ar nifer o **Adroddiadau Blynyddol** gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol i enwi rhai ohonynt, sy'n elfen greiddiol o waith y Pwyllgor.

- **Blaenoriaethau trawsnewid -** cyfranodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol at y rhaglen moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni. Cafodd y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini ei weithredu yn y cyfarfodydd hyn er mwyn sicrhau mewnbwn y cyhoedd ym mhenderfyniadau strategol y Cyngor a gwrando ar eu lleisiau.

- **Pandemig Covid 19**- bu i'r Pwyllgor graffu ar ymateb y Cyngor i'r pandemig Covid 19 gan gynnwys yr elfennau ariannol, a phenderfynwyd i graffu yn fanylach ar ddwy agwedd benodol sef Llesiant staff y Cyngor a chymunedau a monitro effeithiolrwydd y strategaeth Tracio ac Amddiffyn (TTP).

Hoffwn ddiolch yn fawr i aelodau'r ddau is-banel sef y **Panel Sgriwtini Cyllid** a'r **Panel Sgriwtini Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol** sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith y Pwyllgor.

I gloi, hoffwn bwysleisio bod y swyddogaeth Sgriwtini wedi addasu yn llwyddiannus yn ystod y pandemig, a bod y cyfarfodydd bellach yn rhai rhithiol. Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion am eu cymorth yn ystod 2020/21.

**Cynghorydd Aled Morris Jones**

**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pencampwr Sgriwtini)**



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Cynghorydd Gwilym O Jones



- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2020/21**

Teimlaf bod sgriwtini yn chwarae rôl hynod o bwysig yn llywodraethiant y Cyngor drwy ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, herio mewn modd adeiladol, ac yn sicrhau bod lleisiau'r cyhoedd a'n cymunedau yn cael eu clywed yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r ffaith bod y Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini bellach yn weithredol yn gam sylweddol ymlaen ac yn ffurfioli'r broses i'r cyhoedd leisio eu barn yn y Pwyllgorau Craffu.

Yn y lle cyntaf, hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am eu cyfraniadau a'u hymrwymiad i waith y Pwyllgor sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wireddu Cynllun y Cyngor ac wrth gynnal safonau ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bleser gennyf ddarparu trosolwg o'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd ag o yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion teg a chadarn i'r Pwyllgor Gwaith ar sawl pwnc a maes allweddol dros y cyfnod hwn, a hefyd gwaith partneriaid yr Awdurdod:

- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd (BCG)** – Mae'r Pwyllgor yn arwain ar y gwaith o graffu ar waith y Bwrdd sy'n bartneriaeth rhwng Gwynedd a Môn. Mae hyn yn cynnwys craffu ar wireddu'r Cynllun Llesiant, trefniadau llywodraethiant a'r Adroddiad Blynyddol. Cafwyd enghraifft o waith craffu da gydag Aelodau yn holi sut mae'r Bwrdd wedi addasu ei raglen waith yn sgil y pandemig, a sut bydd hyn yn effeithio ar y Bwrdd yn y cyfnod Adfer.
- **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** – bu i'r Pwyllgor graffu ar y Cytundeb Llywodraethiant 2 newydd, a chodwyd cwestiynau pwysig iawn megis sut y bydd y risgiau posib o orwario mewn prosiectau yn cael eu rheoli, a sut mae'r Bwrdd wedi addasu i'r pandemig Covid 19 ac yn parhau i wneud yn ystod y cyfnod adfer a Brexit. Dyma'r Pwyllgor dynodedig fydd yn craffu ar waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, fydd yn hanfodol er mwyn sicrhau y buddion economaidd mwyaf i Ogledd Cymru a Môn yn benodol.

- **Perfformiad ysgolion** – Bu'r Pwyllgor graffu ar y bartneriaeth statudol sy'n bodoli rhwng y Cyngor a GwE. Mae cyfraniad y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn parhau yn allweddol yn y maes hwn, ond bu'n rhaid rhoi'r gwaith hwn o ymweld ag ysgolion a monitro perfformiad ysgolion unigol o'r neilltu ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, bwriedir ailafael yn yr ymweliadau pan fydd yr amodau yn caniatáu.

- **Partneriaethau eraill** – Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar amrywiol adroddiadau er mwyn dal partneriaid i gyfrif yn ogystal â sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r cyhoedd. Mae'r adroddiadau hyn wedi cynnwys Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru, Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, ac Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb. O ganlyniad i'r pandemig, ni bu'n bosibl i nifer o'n prif bartneriaid ddod gerbron y Pwyllgor yn enwedig y gwasanaethau brys, gan eu bod wedi bod yn ymateb ar y rheng flaen i'r pandemig. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud i'w gwahodd pan fydd yr amgylchiadau yn caniatáu.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ac aelodau'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion am y gwaith tîm effeithiol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r holl aelodau

wedi llwyddo i addasu a sicrhau bod y swyddogaeth craffu yn parhau yn rhithiol drwy gydol y pandemig, a theimlaf y bydd nifer o'r agweddau a'r arferion da hyn yn parhau i'r dyfodol ac yn golygu bod y Cyngor yn ymgymryd â chraffu mewn modd arloesol, gan wneud y defnydd gorau o amser swyddogion ac Aelodau Etholedig.

**Cynghorydd Gwilym O Jones**
**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)**

### Cyd-destun Unigryw Pandemig Covid-19

1.1 Mae'n wir dweud fod y pandemig wedi cael ac yn parhau i gael effaith bellgyrhaeddol ar fywydau pawb, ein cymunedau a hefyd y modd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau. Mae'r cyfnod hwn **(rheoli'r ymateb brys i'r Pandemig, y Cyfnod Adfer a dychwelyd yn raddol i'r Normal newydd)** yn gyfnod heriol eithriadol i'r Cyngor a phob sefydliad cyhoeddus arall ar draws Cymru wrth i ni barhau i wynebu heriau argyfwng Covid-19. Mae hyn wedi golygu bod y Cyngor wedi gorfod newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang.

1.2 Yn unol â Deddf Coronafeirws 2020 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 rydym yn cynnal cyfarfodydd o bell gan ddilyn y Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor rhoddwyd ar waith o fis Mai[1]. O ganlyniad i'r pandemig, rhoddwyd o'r neilltu y gofynion i graffu rhai adroddiadau blynyddol, neu ymestynwyd yr amserlen er mwyn ymgymryd â'r gwaith hwn, gan gyflwyno elfen o hyblygrwydd ar lefel leol i'r flaen raglen yn sgil y pandemig.


1.3 Bu i'r ddau Bwyllgor Sgriwtini ailafael yn eu rhaglenni gwaith ym mis Medi, 2020. Mae'r ddau Bwyllgor wedi cyfarfod yn rheolaidd ers hynny, ac wedi ailafael yn y gwaith craffu a oedd yn flaenoriaeth. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu'n llwyddiannus, gan sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion ar gyfer ei wasanaethau hefyd. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi craffu ar bartneriaethau allweddol ac wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol. Er hynny, mae rhai partneriaid a amserlenwyd yn naturiol wedi cael eu gohirio oherwydd y pandemig, ac mae rhaglen waith y Pwyllgor wedi cael ei blaenoriaethu i gydfynd â gofynion lleol a hefyd y pwysau yr oedd ein partneriaid yn ei wynebu.

## 2.0 EIN STRWYTHUR LLEOL

Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Eu prif bwrpas ydy dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliannau, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau. Trafodir crynodeb o'r cyd-destun polisi cenedlaethol yn **ATODIAD 1.**

2.1 Mae ein strwythur lleol yn cynnwys 2 bwyllgor sgriwtini a thri phanel:

[1] Strategaeth ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor hyd at Ebrill, 2021 (CSYM, Mai, 2020).




Rhoddir crynodeb o gylch gorchwyl ac aelodaeth ein pwyllgorau sgriwtini yn **ATODIAD 2.**

# 3.0 TAITH DDATBLYGU SGRIWTINI YN LLEOL


3.1 Bu swyddogaeth sgriwtini y Cyngor drwy daith wella yn sgil comisiynu'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus i adolygu ein trefniadau sgriwtini yn lleol (Rhagfyr, 2017). Mae'r rhaglen wella a roddwyd mewn lle o ganlyniad i'r adolygiad wedi dirwyn i ben a rhaglen ddatblygu yn ei lle mewn cyd-destun gwella parhaus. Bu i'r adolygiad ddarparu sylfaen gref i ddatblygu rôl craffu o fewn y Cyngor, a'i gwella, gan sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgorau Sgriwtini yn chwarae rôl flaenllaw o ran blaenoriaethau gwelliant y Cyngor, ac yn cefnogi dull cadarn ac effeithiol o wneud penderfyniadau, ac yn parhau i esblygu mewn modd cadarnhaol. Mae'r sylfeini cadarn hyn bellach yn sail i'r rhaglen ddatblygu sy'n gyrru gwelliannau a datblygiadau ar gyflymder priodol.

3.2 **Themâu ein Rhaglen Ddatblygu**

Oddi mewn i gyfyngiadau pandemig Covid, mae ein rhaglen ddatblygu wedi blaenoriaethu themâu allweddol (ceir crynodeb ohonynt isod), er mwyn darparu fframwaith cadarn i:

- Esbonio rôl a chyfraniad Sgriwtini i drefniadau llywodraethiant y Cyngor
- Nodi'r camau y mae angen eu cymryd yn y tymor byr a'r tymor canol er mwyn gwella Sgriwtini ymhellach a hynny yng nghyd-destun y pandemig a thu hwnt.

**SIWRNAI DDATBLYGU SGRIWTINI: THEMÂU ALLWEDDOL**



# 3 ASESU EFFAITH SGRIWTINI

4.1 Llwyddodd Sgriwtini i sicrhau nifer o **allbynnau** pwysig yn ystod y flwyddyn sirol ddiwethaf sy'n mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ein cynorthwyo i asesu'r effaith y mae'r swyddogaeth wedi ei chael yn lleol:

- **Cyfarfodydd pwyllgor –** cynhaliwyd 16 o gyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini yn ystod 2020/21 a hynny o fis Medi, 2020 ymlaen yn sgil y pandemig.

| Pwyllgor | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd |
|---|---|
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | **10** |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | **6** |

Mae trefniadau cadarn wedi cael eu sefydlu hefyd i sicrhau bod cadeiryddion y pwyllgorau sgriwtini yn rhoi adborth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ar faterion sydd wedi cael eu hystyried gan y ddau bwyllgor.

- **Cyfarfodydd y Paneli Sgriwtini –** cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r 3 phanel sgriwtini yn ystod 2020/21 o fis Medi, 2020 yn sgil y pandemig.

| Panel | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd |
|---|---|
| Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | **7** |
| Panel Sgriwtini Cyllid | **4** |
| Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion | **7** |

Mae gweithrediad y paneli hyn wedi cael ei sefydlu'n gadarn drwy:

- Sefydlu trefniadau llywodraethiant cadarn i gefnogi pob panel
- Sicrhau ffocws / cylch gorchwyl a rhaglen waith clir ar gyfer y paneli
- Sefydlu proses adrodd / uchafu er mwyn sicrhau yr adroddir ar waith y paneli sgriwtini yn chwarterol i'r ddau Riant Bwyllgor, gyda Chadeiryddion y Paneli yn cynnig argymhellion ar gynlluniau neu benderfyniadau arfaethedig
- Sicrhau'r cyflymder priodol ar waith y paneli, sy'n cydymffurfio â blaenoriaethau corfforaethol, a chraffu manwl ar bynciau hollbwysig i'r Cyngor.

- **Blaen raglenni gwaith** – mae'r arfer o flaen raglennu gwaith wedi hen sefydlu ac mae hynny'n atgyfnerthu gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini. Mae'r rhaglenni hyn yn bwysig o ran cynorthwyo aelodau pwyllgorau sgriwtini i flaenoriaethu eu gwaith ac maent yn cael eu trafod gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth, ac yn cael eu trafod yn y Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini. Mae'r naill bwyllgor a'r llall yn adolygu cynnwys eu blaen raglenni gwaith yn rheolaidd, ac mae'r Blaen Raglenni Gwaith yn eitem sefydlog ar raglen y ddau Bwyllgor, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac er mwyn cadw ar y blaen â blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau blaen raglennu gwaith bellach yn canolbwyntio fwyfwy ar:

i. Agweddau strategol
ii. Ymgysylltiad dinasyddion / rhanddeiliaid eraill a chanlyniadau
iii. Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid gorfforaethol ar gyfer 2017/2022
iv. Risgiau
v. Gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio

vi. Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

- **Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion -** mae'r Fforwm wedi'i hen sefydlu ac yn parhau i gwrdd bob mis. Ystyrir y Fforwm yn gyfrwng pwysig i oruchwylio rhaglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini ac i gyd-drafod y blaenoriaethau â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini. Mae hefyd yn cymryd y cyfrifoldeb am arwain ar y gwaith o ddatblygu swyddogaeth drosolwg a sgriwtini'r Cyngor a'i gwella'n barhaus. Mae rôl y Fforwm yn cynnwys sgyrsiau misol rhwng y Pwyllgor Gwaith (Arweinydd), Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (Prif Weithredwr) er mwyn sicrhau gwell aliniad rhwng rhaglenni gwaith.

- **Datblygu, hyfforddi a chefnogi Aelodau –** drwy:

  - Sicrhau momentwm i rai elfennau allweddol llywodraethiant / sgriwtini er gwaethaf sgil effeithiau Covid:

**Côd Ymddygiad / Cyfansoddiad**

**Rôl ac ymddygiad Cadeiryddion Sgriwtini / Sgiliau cadeirio effeithiol**

**Aliniad Sgriwtini â blaenoriaethau'r Pwyllgor Gwaith a blaenoriaethau corfforaethol**

**Sgiliau sgriwtini ariannol effeithol**

**Ymagwedd "Cyngor cyfan" at Sgriwtini**

**Sgiliau cwestiynu effeithiol a sgiliau herio adeiladol**

**Modelau arloesol / amgen o sgriwtini Aelodau**

  - Mae elfennau sylweddol y rhaglen hyfforddiant a datblygu Aelodau corfforaethol wedi cael eu rhoi o'r neilltu ar hyn o bryd yn sgil y pandemig, ac mae'r hyfforddiant wedi canolbwyntio ar uwchsgilio aelodau o ran y dechnoleg, a sicrhau bod modd i bob un gymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd rhithiol (modelau arloesol / amgen o sgriwtini Aelodau).
  - Cynnal sesiynau briffio misol ar gyfer rhannu gwybodaeth / codi ymwybyddiaeth Aelodau Sgriwtini ar faterion allweddol (ee Cyd-Bwyllgorau Corfforedig, a Phorthladd Caergybi). Hefyd, fel fforwm ar gyfer hunanasesiad Aelodau / adlewyrchu ar berfformiad sgriwtini.

  - **Sgriwtini ar draws maes ehangach –** ymagwedd ehangach tuag at sgriwtini gan Aelodau wedi cael ei datblygu yn ystod y flwyddyn drwy:

    **i.** Gynllunio ymlaen yn effeithiol er mwyn sicrhau bod aliniad rhwng y pynciau a drafodir mewn sesiynau briffio i Aelodau, paneli sgriwtini a chyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini llawn
    **ii.** Sicrhau adroddiadau cadarn, lefel uchel ac amserol i'r pwyllgorau sgriwtini gan ddwyn sylw at unrhyw lithriad yn ôl yr angen
    **iii.** Datblygu ystod y pynciau a drafodir mewn sesiynau briffio Aelodau i gefnogi Craffu a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i Aelodau ar bynciau strategol a thrawsnewid.

  - **"Cau'r cylch Sgriwtini" –** drwy sefydlu trefniadau cadarn i:

    **i.** Adrodd ar gynnydd neu uchafu materion o:

      - Baneli sgriwtini i'r rhiant bwyllgorau

- Bwyllgorau sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith
- Y byrddau rhaglen corfforaethol i'r pwyllgorau sgriwtini.

**ii.** Galluogi ac annog hunan-ddadansoddiad ac adlewyrchiad gan Aelodau Sgriwtini er mwyn nodi cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad / ffocws pellach.

- **Sgriwtini a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol –** datblygu rôl Sgriwtini drwy:
  - Sicrhau bod Aelodau'n canolbwyntio ar y 5 ffordd i lunio cwestiynau
  - Gweithredu'r templed ar gyfer adroddiadau sgriwtini, sy'n rhoi llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth ei wraidd
  - Codi ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth i Aelodau mewn sesiynau briffio a datblygu
  - Adolygu'r cynnydd a wnaed o ran datblygu rôl sgriwtini yn erbyn arfer orau
  - Sefydlu fframwaith i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau allweddol.

- **Ymgysylltiad dinasyddion â Sgriwtini –** datblygu datganiad polisi fel y sylfaen ar gyfer datblygu ymhellach ein prosesau ymgysylltu â dinasyddion drwy sgriwtini Aelodau a sefydlu camau i sicrhau y gwrandewir ar lais dinasyddion wrth wneud penderfyniadau yn lleol. Mae'r Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini yn weithredol ers mis Hydref wedi iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Medi, 2020. Mae adran benodol ar wefan y Cyngor sy'n hyrwyddo'r Protocol, a lluniwyd datganiad i'r wasg er mwyn codi ymwybyddiaeth ac hyrwyddo ei ddefnyddgan y cyhoedd.

**Mesur canlyniadau:**

4.2 Mae sefydlu ac asesu effaith Sgriwtini yn heriol oherwydd nid yw **canlyniadau** gweithgareddau trosolwg a sgriwtini bob amser yn weladwy ac nid oes modd yn aml eu mesur mewn modd systematig. Ymhellach, nid yw'n hawdd mesur gallu'r swyddogaeth sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau ble mae mewnbwn sgriwtini wedi ychwanegu gwerth ac / neu wedi dylanwadu ar y modd y mae cynigion wedi cael eu gweithredu gan y Cyngor:

## <u>Canlyniadau Craffu Cyffredinol</u>

- **Blaen raglenni gwaith –** mae rhaglenni gwaith sgriwtini yn rhaglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu gyda llai o eitemau'n cael eu cynnwys er mwyn ychwanegu gwerth. Mae ein trefniadau hefyd yn sicrhau aliniad rhwng rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini a rhaglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, ac mae'r rhaglenni gwaith yn eitemau sefydlog ar raglenni'r ddau Bwyllgor Sgriwitini.

  **Canlyniad:** rhaglen waith dreigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini wedi'i halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

- **Datblygiad, hyfforddiant a chefnogaeth i Aelodau** – mae sicrhau bod gan Aelodau Etholedig sydd ynghlwm â Sgriwtini y sgiliau a'r gallu i ymgymryd â'r gwaith yn elfen hollbwysig o drefniadau craffu'r Cyngor. Mae Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau yn bodoli ac mae modiwl e-ddysgu 'Cyflwyniad i Graffu' ar gael i'r holl aelodau etholedig. Ond fel y soniwyd eisoes mae elfennau o'r rhaglen wedi'u rhoi o'r neilltu am y tro yn sgil y pandemig, a hyfforddiant eleni wedi canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau technoleg Aelodau er mwyn iddynt gymryd rhan yn rhithiol yng nghyfarfodydd y Cyngor. Mae'r sesiynau briffio Aelodau misol yn sesiynau datblygu anffurfiol, ac yn fodd iddynt dderbyn gwybodaeth sy'n eu cynorthwyo i graffu.

**Canlyniad:** Mae Aelodau sy'n ymwneud â'r broses Sgriwtini yn meddu ar y sgiliau a'r cymwyseddau cywir ac maent yn gallu cael mynediad i'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad fel y maent eu hangen er mwyn cyflawni eu rôl yn effeithiol (***penderfyniadau gwell***).

- **Ymgysylltiad a chyfranogiad dinasyddion –** roedd mewnbwn sgriwtini i'r **rhaglen moderneiddio ysgolion** (ardal Llangefni) yn cynnwys ymgysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, a chyfraniadau ganddynt, gyda hynny'n ychwanegu gwerth at y broses gwneud penderfyniadau.

  **Canlyniad:** mae cyfraniad pobl leol a rhanddeiliaid eraill at y broses sgriwtini Aelodau wedi datblygu ymhellach ein gallu i sicrhau bod lleisiau pobl leol yn cael eu clywed fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau (***ymgysylltu'n well â'r cyhoedd***). Hefyd, sylfaen gref ar gyfer gwella canlyniadau ar gyfer y cyhoedd.

- **Hunan werthusiad; Mesur effaith sgriwtini -** yn dadansoddi effaith y daith wella a'r themâu allweddol a amlinellwyd fel rhan o'r daith hon, sef; Atgyfnerthu ymagwedd Cyngor cyfan i Graffu; Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Sgriwtini; Gwella effaith craffu; Adeiladu'r capasiti a'r gallu ar gyfer craffu; Gwella ymgysylltu â'r cyhoedd yn ein gwaith craffu. Fel rhan o'r asesiad pwysleisiwyd y llwyddiannau craffu diweddar, a'r meysydd i'w gwella ymhellach i lywio'r gwaith craffu. Nodwyd bod lefel dealltwriaeth yr Aelodau o gymhlethdodau amrywiol wasanaethau'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn.

## Craffu Cyllidol

- **Y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2021-22 -** mae ymagwedd strategol sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac ar arfer orau wedi'i sefydlu'n lleol o ran gosod y gyllideb. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi ystyried a chraffu ar y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb ac wedi cyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith o ran gosod y gyllideb ar gyfer 2021/22. Bu i'r Panel Sgriwtini Cyllid chwarae rôl bwysig yn y broses hon hefyd drwy graffu ar y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb refeniw a chyllideb gyfalaf. Bu i argymhellion a sylwadau craffu ddylanwadu ar benderfyniad terfynol y Cyngor. Hefyd, bu i'r Panel Sgriwtini Cyllid ymgymryd â gwaith craffu manwl o ran ystyried pennu'r dreth gyngor mewn modd sy'n gwarchod gwasanaethau'r Cyngor a sicrhau darpariaeth ar gyfer y risgiau anodd eu mesur, ac sy'n fforddiadwy i'r cyhoedd. I grynhoi, bu i'r Panel a'r Pwyllgor ychwanegu gwerth at y broses gwneud penderfyniadau
- **Adolygiadau Gwasanaeth-** Bu i Gadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid fynychu'r holl adolygiadau gwasanaeth diweddar fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, ac fe adroddodd yn ôl i'r Panel Sgriwtini Cyllid. Nodwyd y byddai'r mwyafrif o'r toriadau posibl a gynigwyd yn mynd i gael effaith sylweddol ar allu'r Cyngor i ddarparu ei wasanaethau, ac y byddai gweithredu'r toriadau a gynigwyd yn risg sylweddol i'r Cyngor. Teimlwyd bod y Cyngor wedi cyrraedd diwedd y daith o ran gwireddu unrhyw arbedion na fydd yn creu risg sylweddol.

  **Canlyniad:** ymagwedd fwy systematig o sgriwtini ariannol ac fel rhywbeth sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.
- **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf -** Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn craffu ac yn monitro cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn chwarterol gan ganolbwyntio ar y meysydd gorwariant ac ymdrin ag unrhyw bwysau ariannol.

- **Effaith Covid-19 ar sefyllfa ariannol y Cyngor** - Derbyniodd y Panel Sgriwtini gyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 yn crynhoi effaith Covid-19 ar sefyllfa ariannol y Cyngor. Dysgwyd am y costau ychwanegol a'r golled incwm yn sgil y

pandemig. Clywyd sut bu i'r blaen daliadau rheolaidd y RSG gan Lywodraeth Cymru gael effaith gadarnhaol ar sefyllfa ariannol y Cyngor**.**

**Canlyniadau:**

- Dull mwy systematig at graffu cyllidol sy'n seiliedig ar ganlyniadau gan wneud cyfraniad cadarn a phwysig at reolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu.
- Gweithredu mesurau lliniaru effeithiol ychwanegol wrth ymateb i heriau ariannol mewn gwasanaethau penodol neu yn y Cyngor yn gyffredinol.

## Craffu ar Wasanaethau Cymdeithasol

- **Panel Sgriwtini Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol -** Mae'r Panel wedi bod yn craffu ar gynnydd y cynllun gwella Oedolion a'r cynllun datblygu gwasanaethau plant. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi cynnwys Aelodau'r Panel yn derbyn sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth er mwyn cyfoethogi eu gwybodaeth am y maes a'r heriau a thrwy hynny datblygu eu sgiliau craffu yn y maes gofal cymdeithasol. O ganlyniad i'r pandemig, cafodd yr Ymweliadau Laming eu rhoi o'r neilltu gyda'r ymweliadau yn cael eu cynnal yn rhithiol ers mis Mawrth, 2021. Mae rhaglen waith yn ei lle ar gyfer gweddill y flwyddyn galendr er mwyn craffu ar agweddau penodol o'r gwasanaeth. Mae craffu ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn elfen sylweddol o raglen waith y Panel.
- **Ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i Covid-19**- cafwyd cyflwyniad ar ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y pandemig, a chraffwyd ar y modd y bu i'r gwasanaeth addasu i'r amgylchiadau. Cafwyd trosolwg a sesiwn benodol ar sut mae'r Cartrefi Gofal wedi addasu yn ystod y pandemig, gan amlinellu'r heriau a'r gwersi a ddysgwyd.
- **Adroddiad Drafft Archwilio Mewnol a Chynllun Gweithredu Panel Rhiantu Corfforaethol**- cynhaliwyd archwiliad mewnol o effeithiolrwydd y Panel Rhiantu Corfforaethol ar gais y Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol, gan edrych yn benodol ar drefniadau llywodraethu (aelodaeth, cylch gorchwyl, proses adrodd, cadw cofnodion). Casglodd yr archwiliad bod tebygrwydd rhwng y ddau Banel, a bod cyfle i alinio gwaith y paneli yn fwy agos. Mae gwaith felly bellach ar y gweill i sicrhau bod yr un trefniadau yn weithredol ar gyfer y Panel Rhiantu Corfforaethol, ac i leihau nifer y cyfarfodydd o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol o 12 i 8, a chynnal cyfarfod o'r Panel Rhiantu Corfforaethol yn chwarterol. Bydd y newid hwn yn golygu bod mwy o aliniad rhwng y ddau Banel yn ogystal ag ehangu gwybodaeth yr aelodau sgriwtini o'r maes.

Mae'r ffrwd waith hon wedi arwain at y canlyniadau positif isod:

**Canlyniadau**:

- Tîm o Aelodau sydd wedi datblygu gwybodaeth lefel uchel am gymhlethdodau a heriau y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu ynghyd â lefel o arbenigedd yn y maes gwasanaeth hwn.
- Creu amodau sy'n ffafriol i Sgriwtini effeithiol, e.e. bu gwelliant go iawn yn lefel a dyfnder y cwestiynu gan y Panel sy'n herio ond yn hyrwyddo gwelliannau parhaus.
- Gweithgareddau Sgriwtini sy'n cael eu cynllunio'n dda, sy'n effeithlon ac yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth o amrediad o ffynonellau gan gynnwys ymgymryd ag Ymweliadau Safle a siarad â defnyddwyr gwasanaeth sy'n rhoi mewnwelediad clir o safon y ddarpariaeth er mwyn craffu ar y maes.

- Trosolwg eang o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol - ariannol a pherfformiad yn erbyn y Cynllun Gwella.

  (***penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell***)

**Craffu ar y maes Addysg**

**Monitro Perfformiad Ysgolion unigol** – Mae Sgriwtini yn chwarae rhan weithredol yn y broses o fonitro ac annog gwelliant o ran perfformiad ysgolion a Gwasanaeth Dysgu'r Cyngor. Er hynny, mae'r ffrwd gwaith hon wedi cael ei rhoi yn rhannol o'r neilltu ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig, ac mae'r Panel yn bwriadu ailymweld â'r ymweliadau hyn pan fydd yr amodau yn caniatáu. O'r herwydd bydd angen i'r Panel addasu'r modd y mae'n gweithio ac yn craffu ar berfformiad ysgolion unigol, ac mae cwmpas i'r Panel ymgymryd â'r gwaith hwn yn rhithiol dros Teams yn y dyfodol agos.

O ganlyniad i'r pandemig, ni gyfarfu'r Panel yn ystod y cyfnod Mai- Awst, 2020, gan ailgydio yn y gwaith o fis Medi ymlaen. Ers mis Medi, 2020 mae Aelodau'r Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion wedi:

- Cyfarfod â Phenaethiaid un ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd. Fel rhan o waith craffu y Panel gwahoddwyd dwy ysgol uwchradd (ar wahân) i drafod dwy daith benodol sef taith ysgol dros gyfnod y pandemig, a thaith wella ynghyd â datblygiadau a heriau perthnasol eraill. Cafwyd cyflwyniadau manwl ac effeithiol gan yr ysgolion gyda chyfle i aelodau y panel gwestiynu a herio fel yn berthnasol. Y bwriad wrth symud ymlaen yw gwahodd y dair ysgol Uwchradd arall o dan yr un drefn.
- Craffu ar Adroddiad Cynnydd GwE 2020/21: Cefnogi ysgolion yn ystod y pandemig.
- Craffu ar Ymateb y Gwasanaeth Dysgu ac Ysgolion Môn i Covid 19. Cafwyd cyflwyniadau penodol ar Ganolfannau Gofal a Dysgu o Bell, Dysgu Cyfunol, a chefnogaeth i blant bregus a phrosiect Caergybi.
- Craffu ar Ddiweddariad ar Ddatblygiadau Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd a Môn.
- Cynnal ymarfer hunanwerthuso
- Cyflwyno adroddiadau cynnydd amserol i'r rhiant bwyllgor.

## Canlyniadau:

- Y Penaethiaid a Chadeiryddion y Cyrff Llywodraethu sydd yn y pen draw yn gyfrifol am berfformiad ysgolion. Fodd bynnag, mae craffu adeiladol gan y Panel a'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn wedi cyfrannu tuag at wella addysg ar yr Ynys.
- Mae gan Aelodau'r Panel ddealltwriaeth gadarn o gymhlethdodau a risgiau ysgolion sy'n gymorth mawr iddynt wrth graffu'n effeithiol ar berfformiad ysgolion unigol, eu dal i gyfrif gan fod ganddynt wybodaeth gyflawn am safonau ysgolion a'r cyd-destun ehangach mae'r ysgolion yn gweithredu y tu mewn iddo.

**Craffu Partneriaethol**

- **Cydweithio gyda phartneriaid allweddol**

Mae craffu'r gwaith o gydweithio rhwng y Cyngor a sefydliadau cyhoeddus eraill yn hollbwysig, ac mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn tanlinellu'r angen i gryfhau craffu ar bartneriaethau ymhellach. Cyfarfu'r ddau Bwyllgor Sgriwtini am y tro cyntaf ers ddechrau'r

pandemig yn ystod mis Medi, 2020, ac ers hynny, mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi ailafael yn y gwaith craffu ar bartneriaethau allweddol ac wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol. Er hynny, mae rhai partneriaid a amserlenwyd yn naturiol wedi cael eu gohirio oherwydd y pandemig, a bu rhaid blaenoriaethu rhaglen waith y Pwyllgor i gydfynd â gofynion lleol ac ystyried gofynion a phwysau yr oedd ein partneriaid yn ei wynebu hefyd.

Craffwyd ar nifer o adroddiadau blynyddol ein partneriaid gan gynnwys Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (2019/20), Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) 2019/20, ac Adroddiad Cynnydd GwE 2019/20, i enwi rhai ohonynt. Mae'r gwaith craffu hwn yn elfen hollbwysig o waith y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod partneriaid y Cyngor a'r partneriaethau yn cyflawni er lles trigolion Môn.

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**- Y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yw'r Pwyllgor dynodedig sy'n craffu ar waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fydd yn hanfodol er mwyn sicrhau y buddion economaidd mwyaf i Ogledd Cymru a Môn yn benodol. Bu i'r Pwyllgor graffu ar y Cytundeb Llywodraethu 2 newydd ar gyfer y Bwrdd, a chodwyd cwestiynau allweddol megis sut y bydd y risgiau posib o orwario mewn prosiectau yn cael eu rheoli, a sut mae'r Bwrdd wedi addasu i'r pandemig Covid 19 ac yn parhau i wneud yn ystod y cyfnod adfer a Brexit.

Wrth symud ymlaen, bydd angen sicrhau bod eitemau statudol yn cael eu cyfarch, ac o bosibl bydd angen sicrhau rhoi sylw i'r eitemau a lithrwyd yn sgil y pandemig yn 2020 (*Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Comisiynydd yr Heddlu, Medrwn Môn a'r Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru).* Bwriedir gwahodd y partneriaethau ble mae'r rhaglen waith wedi llithro yn sgil pandemig Covid-19 i drafod eu gwaith partneriaethol a hynny i gyd-fynd â'r cyfnod adfer.

**Canlyniadau:**

- Sicrhau bod partneriaid yn cydweithio i fodloni'r ymrwymiadau statudol i weithio gyda'i gilydd. Cafodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio sicrwydd bod partneriaid yn gweithredu'n effeithiol ar yr Ynys.
- Mae Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi datblygu eu gwybodaeth a byddent mewn sefyllfa gryfach i ddarparu sgriwtini effeithiol drwy fonitro rheolaidd wrth symud ymlaen.
- Mae blaen raglen waith y Pwyllgor wedi aeddfedu, ac mae'r Aelodau yn meddu ar wybodaeth drylwyr a datblygedig am waith partneriaethol y Cyngor. Hefyd, mae'r cwestiynau craffu yn cynnig her i'r gwaith partneriaethol, ac yn fodd o sicrhau bod y gwaith partneriaethol yn cyfrannu at gyflawni Cynllun y Cyngor, ac yn cynnig gwasanaethau o'r radd flaenaf i drigolion Môn.

- **Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Môn a Gwynedd**

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Môn a Gwynedd yn 2016 yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n pwysleisio'r angen i graffu ar bartneriaethau, a'r angen i gyrff cyhoeddus gydweithio er mwyn sicrhau gwell canlyniadau nawr ac yn y dyfodol.

Parhaodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i graffu ar y bartneriaeth bwysig hon yn ystod y cyfnod hwn.

Canlyniadau:

- Craffu ar strwythur llywodraethu a threfniadau darparu'r BGC. Cafodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio sicrwydd fod y trefniadau llywodraethu yn cydymffurfio â gofynion statudol, ac nid oes angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.
- Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio graffu ar gyflymder gweithredu ffrydiau gwaith y Cynllun Llesiant, a derbyniodd gadarnhad o'r prif risgiau a'r mesurau lliniaru, a'r camau ymarferol y mae'r Bwrdd yn eu cymryd er mwyn integreiddio eu blaenoriaethau i mewn i gynlluniau a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill.
- Craffwyd ar Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2019/20

**Mesur Effaith ein Siwrnai Ddatblygu:**

3.3 Mae'r tabl isod yn crynhoi effaith rhai o'n meysydd datblygu allweddol ar gyfer 2020/21:

**EFFAITH TAITH DDATBLYGU CRAFFU**

| Maes Blaenoriaeth | Sut | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth ar gyfer Craffu** | Rydym wedi sicrhau dull Cyngor cyfan at sgriwtini.<br><br>Mae gan y Cyngor Bencampwr Sgriwtini er mwyn sicrhau amgylchedd cefnogol er mwyn i sgriwtini lwyddo.<br><br>Sylfeini cadarn wedi'u gosod gan Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini i wella canlyniadau ar gyfer y cyhoedd, gwell penderfyniadau a llywodraethiant. | Tystiolaeth → cynnydd yn hyder yr Aelodau; gwell sgriwtini mewn pwyllgorau; strategaeth gwestiynu; ansawdd cyfraniadau'r Aelodau yng ngwaith paneli ac aeddfedrwydd y strategaethau cwestiynu; teimlad o Dîm Sgriwtini ymysg y rhan fwyaf o'r Aelodau. (***penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell***) |
| **Blaen raglenni gwaith Sgriwtini** | Wedi datblygu ymhellach ein trefniadau a rhoi mwy o bwyslais ar:<br><br>• agweddau strategol<br>• ymgysylltu â'r cyhoedd<br>• blaenoriaethau Cynllun y Cyngor (2017/22), a rhaglenni trawsnewid corfforaethol<br>• risgiau | Rhaglenni gwaith treigl sy'n canolbwyntio ar lai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerthu, a chanolbwyntio ar ansawdd craffu.<br><br>**Aliniad –** wedi sicrhau blaen gynllunio effeithio er mwyn cael aliniad rhwng pynciau a drafodwyd mewn sesiynau briffio Aelodau, paneli sgriwtini a chyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini. Aliniad rhwng rhaglenni gwaith ar draws y |

| | | |
|---|---|---|
| | • gwaith archwilio, ymchwiliad a rheoleiddio<br>• Eitemau sydd ar flaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith.<br>• Wedi datblygu blaen adroddiad ar gyfer y rhaglen waith sy'n cael ei gyflwyno ym mhob Pwyllgor Sgriwtini.<br><br>• Sgyrsiau alinio rhaglenni â'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn y Fforwm Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Sgriwtini (misol).<br>• Trafodaeth fisol rhwng yr Arweinydd, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr Sgriwtini.<br>• Trafodaethau alinio rheolaidd → swyddogion sgriwtini a phenaethiaid gwasanaeth. | Cyngor.<br><br>Craffu wedi'i gynllunio'n dda, yn effeithiol ac yn wrthrchol. (penderfyniadau gwell). |
| **Dulliau mwy arloesol o Sgriwtini** | • **Cyfraniad y Paneli Sgriwtini** – mae'r Paneli wedi bod yn fodd o graffu'n fanylach ar wasanaethau a phynciau penodol, ac yn adrodd i'r Pwyllgorau Sgriwtini er mwyn llywio penderfyniadau. Mae hyn wedi cynnwys adolygu a datblygu rhaglenni gwaith y Paneli.<br>• **Hunan-werthuso** | Dulliau mwy arloesol o ymgymryd â gwaith craffu (cynnig SAC ar gyfer gwella), arwain at well canlyniadau a chael mwy o effaith. (**penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell**). |

| | | |
|---|---|---|
| | – Mae'r tri phanel yn cynnal hunan werthusiad yn rheolaidd ac yn adrodd ar gynnydd i'r ddau riant Bwyllgor er mwyn mesur llwyddiannau, ac er mwyn adnabod blaenoriaethau wrth symud ymlaen.<br>• **Craffu y tu allan i Bwyllgorau**- mae'r sesiynau briffio misol yn fodd o graffu ar feysydd allweddol y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, sy'n cynorthwyo'r Aelodau i graffu'n ddeallus ac yn gywrain yng nghyfarfodydd y Panel a'r Pwyllgorau Sgriwtini o ganlyniad. | |
| **Templed Sgriwtini** | • Mae'r templed yn cynnwys cwestiynau sgriwtini clir, yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Llesiant ac yn cael effaith ar ddyfnder y cwestiynu yn ystod cyfarfodydd. | Eglurder ynghylch rôl Sgriwtini → amcanion cryno, cwestiynau sgriwtini clir, cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>(penderfyniadau gwell) |
| **Datblygiad, hyfforddiant a chefnogaeth i Aelodau** | • Mae rhaglen ddatblygu sgriwtini wedi'i datblygu.<br>• Mae sesiynau briffio misol yn cael eu cynnal sy'n cyd-fynd ag eitemau ar raglenni gwaith amrywiol Bwyllgorau. | (canlyniadau gwell, penderfyniadau gwell) |

| | | |
|---|---|---|
| **Ymgysylltu â'r Cyhoedd** | Mae cyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini wedi cael eu hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor i'w hyrwyddo.<br><br>Mae Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini ar waith<br><br>Wedi sicrhau llais y cyhoedd fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. | (Gwell canlyniadau, gwell penderfyniadau, ymgysylltu'n well) |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)** | Rhoddwyd rhaglen yn ei lle er mwyn mynd i'r afael â'r ddau argymhelliad yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Mae Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Môn a Gwynedd wedi cydweithio'n agos â swyddogaeth sgriwtini'r Cyngor; wedi cytuno ar amserlenni craffu, a'r meysydd i'w craffu (craffu ar wireddu'r Cynllun Llesiant, yr Adroddiad Blynyddol, a'r trefniadau llywodraethu. Maent hefyd wedi cydweithio er mwyn ceisio alinio cylchoedd craffu i gyd-fynd â chyfarfodydd y Bwrdd.<br><br>Mae'r BGC yn rhannu gwybodaeth a chofnodion er mwyn sicrhau bod gan y pwyllgorau craffu y wybodaeth angenrheidiol i graffu'n effeithiol. | Craffu effeithiol ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda dealltwriaeth a hyder yr Aelodau yn cynyddu o dderbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y gwaith.<br><br>Cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol.<br>(ymgysylltu'n well) |

### 4.4 Hunan-asesiad o effeithiolrwydd Sgriwtini

Mae ein gwaith o fesur canlyniadau ac effaith arferion Sgriwtini yn y Cyngor hefyd wedi cynnwys rhywfaint o waith arolwg gydag Aelodau eto eleni, drwy gyfrwng trafodaethau â'r Aelodau Sgriwtini a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

### Cwestiynau craidd yr hunanasesiad:

- Beth oedd yr uchafbwyntiau yn Sgriwtini dros y flwyddyn ddiwethaf?
- Yn eich tyb chi, pa effaith gafodd Sgriwtini yn ystod 2020/21 wrth gefnogi'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau cadarn?
- Pa anghenion datblygu sydd gennych yn y rôl i'r dyfodol?
- Unrhyw sylwadau cyffredinol eraill ynglŷn â dylanwad a / neu effaith y gwaith gan Aelodau Sgriwtini yn y prosesau gwneud penderfyniadau?
- A oes cyfleoedd yn eich barn chi i ddatblygu swyddogaeth sgriwtini ymhellach o fewn y Cyngor?
- O ganlynad i'r pandemig a gweithio'n rhithiol, beth sydd wedi gweithio'n dda a beth ellir ei ddatblygu ymhellach wrth symud ymlaen?

**Yr hyn oedd gan ein Haelodau i'w ddweud…**

Isod, ceir blas o'r hyn a ddywedodd aelodau o'r Pwyllgorau Sgriwtini a'r Paneli Sgriwtini. Mae canfyddiadau'r ymarfer hwn wedi cael eu bwydo i mewn i'n blaenoriaethau gwelliant ar gyfer 2021/22.

**EDRYCH YN ÔL**

Rydym wedi parhau â'r gwaith craffu yn rhithiol, ac wedi cyflawni holl waith arferol y Pwyllgorau er gwaetha'r pandemig a'r heriau cysylltiedig. Mae pob Aelod wedi llwyddo i gyfrannu i'r swyddogaeth craffu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Paneli Sgriwtini yn gyfle i aelodau graffu yn fanwl iawn ar faterion penodol, gan adrodd a chyflwyno argymhellion i'r Pwyllgorau Sgriwtini sy'n hwyluso'r broses.

Mae dynameg y Pwyllgor Sgriwtini yn gweithio'n dda, gydag Aelodau yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth gefndirol gwahanol sy'n gymorth mawr wrth graffu ar wahanol feysydd y mae'r Pwyllgorau yn gyfrifol amdanynt.

Mae'r cyfarfodydd paratoi sy'n cael eu cynnal cyn Pwyllgorau yn hynod o ddefnyddiol ac wedi datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'r cwestiynau craffu allweddol o gymorth i ni fel Aelodau graffu.

Mae'r Paneli Sgriwtini yn golygu ein bod wedi datblygu arbenigedd a gwybodaeth fanwl am y gwasanaethau sy'n gymorth i ni ymgymryd â'r gwaith craffu yn gyffredinol.

Mae'r dechnoleg wedi golygu ein bod wedi gallu parhau i graffu drwy gydol y pandemig, a'n bod wedi datblygu ein sgiliau ymhellach.

## Edrych Ymlaen

Credaf fod angen i ni fel Pwyllgor ddilyn i fyny ar eitemau wedi iddynt ddod gerbron y Pwyllgor Sgriwtini, drwy gael adroddiadau cynnydd neu ddiweddariadau ar eitemau penodol.

Dylid ceisio osgoi sefyllfa o orlwytho rhaglenni gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn gallu craffu'n fanwl a rhoi ystyriaeth briodol i bob eitem er mwyn ychwanegu gwerth.

Mae angen sicrhau bod mewnbwn y Pwyllgor yn cael ei glywed gan Bwyllgorau Craffu cynghorau eraill mewn achos o bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cysondeb a sicrhau bod llais y Pwyllgor yn cael ei glywed.

Byddai'n ddefnyddio cael cyflwyniadau ac adroddiadau cyn cyfarfodydd o'r Paneli er mwyn gallu craffu cyn y cyfarfod ei hun er mwyn paratoi a meddwl am gwestiynau craffu ymlaen llaw.

Byddai'n ddefnyddiol cael barn rhywun annibynnol ar y swyddogaeth Sgriwtini, er mwyn gweld a oes posibl cryfhau'r swyddogaeth a'i datblygu ymhellach.

Ystyried parhau i gynnal rhai cyfarfodydd yn rhithiol yn y dyfodol megis y cyfarfodydd paratoi.

# 5.0 Edrych Ymlaen i 2021/22

5.1 Bydd yr Awdurdod yn parhau ar y cam nesaf o'i daith ddatblygu craffu, ac mae'r meysydd allweddol canlynol wedi'u blaenoriaethu yn y rhaglen ddatblygu a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer gweithredu arnynt dros y misoedd i ddod:

**MEYSYDD ALLWEDDOL DATBLYGU SGRIWTINI**

| Thema | Sut | Canlyniad[2] |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth** | Parhau i brif lifo egwyddorion ein gweledigaeth, a sicrhau bod gan bob Aelod Etholedig a Swyddog ddealltwriaeth gadarn o bwrpas a gwerth craffu oddi | ***Canlyniadau gwell*** |

[2] Canlyniadau a Nodweddion am Drosolwg a Sgriwtini Effeithiol i Lywodraeth Leol – Craffu Da? Cwestiwn Da! Swyddfa Archwilio Cymru 2014

| Thema | Sut | Canlyniad[2] |
|---|---|---|
| | mewn i lywodraethiant y Cyngor | |
| **Datblygiad a chefnogaeth i Aelodau** | • Ailafael yn y rhaglen hyfforddiant a datblygu i gefnogi a datblygu Aelodau Sgriwtini – ffocws ar hunan-asesu; sgiliau cadeirio; craffu data perfformiad; craffu cyllidol; materion technoleg gwybodaeth; E-ddysgu<br>• Parhau i gynnal sesiynau briffio / datblygu / adolygu byr yn rheolaidd gyda'r Aelodau Craffu | ***Penderfyniadau gwell*** |
| **Paneli Sgriwtini** | Cefnogi gwaith y paneli craffu drwy:<br>• Sicrhau bod blaen raglenni'r 3 phanel yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor<br>• Datblygu ffocws esblygol i waith y Paneli<br>• Sicrhau bod y Paneli yn cwblhau ymarferion hunanarfarnu o leiaf unwaith y flwyddyn<br>• Cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Paneli Craffu fel rhan o strwythur llywodraethiant y Cyngor. | ***Penderfyniadau gwell*** |
| **Ymgysylltiad Cyhoeddus yn ein gwaith Craffu** | • Parhau i brif lifo'r Protocol Siarad Cyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd ohono er mwyn sicrhau rhagor o gyfranogiad cyhoeddus drwy ddarparu strwythur clir i'r cyhoedd wneud cais am gael siarad mewn Pwyllgorau. | ***Ymgysylltu'n well*** |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | • Parhau i gefnogi'r cadeiryddion i ddatblygu rôl sgriwtini wrth fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Gwreiddio strategaeth gwestiynu gadarn yn llawn drwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>• Adolygu ein trefniadau er mwyn | ***Canlyniadau gwell*** |

| Thema | Sut | Canlyniad[2] |
|---|---|---|
| | sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a meddylfryd swyddfa'r Comisiynydd. | |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gwaith partneriaethol** | • Parhau i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o gyflawni'r Cynllun Llesiant a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd, ac effeithlonrwydd partneriaethau yn unol â'r canllawiau cenedlaethol<br>• Parhau i wahodd partneriaid allweddol i ddod gerbron y Pwyllgorau er mwyn craffu ar eu gwaith ar yr Ynys. | ***Ymgysylltu'n well*** |
| **Modelau arloesol o Sgriwtini gan Aelodau** | • Yn sgil pandemig Covid-19, ystyried ffyrdd mwy arloesol ac effeithiol o graffu gan fanteisio'n llawn ar dechnoleg wrth ymgymryd â hyn. | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell, ymgysylltu'n well*** |
| **Aliniad a Pherchnogaeth o Raglenni Gwaith Sgriwtini** | • Adolygu a diweddaru rhaglenni gwaith y pwyllgor a'r paneli craffu yn fisol, i alinio gyda'r broses o ddiweddaru blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith<br>• Sicrhau trafodaeth o'r blaen raglen waith ym mhob cyfarfod o'r Fforwm cadeiryddion Sgriwtini / pwyllgor / paneli, a sicrhau mewnbwn Aelodau wrth lunio'r rhaglenni gwaith er mwyn sicrhau perchnogaeth ohonynt<br>• Gwneud defnydd o'r arfer dda yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i lywio'r rhaglenni gwaith | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell*** |
| **Hunanasesiad o'n trefniadau Sgriwtini lleol** | Aelodau'n parhau i gwblhau ymarferion hunanasesu, sy'n cynnwys dynodi argymhellion er mwyn gwella'r trefniadau craffu presennol:<br>• fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini<br>• i asesu canlyniadau ac effaith ein paneli sgriwtini | ***Canlyniadau gwell*** |
| **Codi ymwybyddiaeth/rhannu gwybodaeth** | • Adolygu'r wybodaeth ynglŷn â threfniadau craffu'r Cyngor sydd ar wefan y Cyngor er mwyn: | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell, ymgysylltu'n well*** |

| Thema | Sut | Canlyniad[2] |
|---|---|---|
| | 1. Sicrhau bod Aelodau Etholedig yn gallu llwyddo yn eu rôl<br>2. Galluogi i lais unigolion a rhanddeiliaid fod yn amlwg yn y broses graffu<br>3. Codi ymwybyddiaeth o'r Protocol Siarad Cyhoeddus | |
| Cau'r Cylch Sgriwtini ac Aliniad gyda'r Byrddau Trawsnewid | • Atebolrwydd drwy adrodd ar gynnydd gwaith y Paneli yn chwarterol, a pharhau i ffurfioli'r drefn o adrodd i'r Pwyllgorau Sgriwtini drwy Gadeiryddion y Paneli fel mater o drefn | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell, ymgysylltu'n well*** |
| **Paratoi at Fesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)** | • Trefnu sesiynau briffio penodol i Aelodau craffu ar oblygiadau'r Mesur ar swyddogaeth craffu y Cyngor drwy:<br>**1. Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau craffu**<br>**Ystyried goblygiadau'r Mesur o ran ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi cyd-bwyllgorau craffu**<br>• Diwygio cylch gorchwyl y Pwyllgorau Craffu/Y Cyfansoddiad i gynnwys y ddarpariaeth. | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell,*** |

## 6.0 CYSYLLTU Â SGRIWTINI

6.1 I ddysgu mwy am sgriwtini ar Ynys Môn neu i wneud unrhyw sylwadau cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Yr Uned Sgriwtini,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni.
Ynys Môn.
LL77 7TW

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini (arwain ar gefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) | (01248) 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk |
| Sioned Rowe | Swyddog Sgriwtini (arwain ar gefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio) | (01248) 752039<br>SionedRowe@ynysmon.gov.uk |

# Adroddiad Blynyddol
# Trosolwg a Sgriwtini: 2020/21

# ATODIADAU



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI?
# Cyd-destun polisi cenedlaethol

**Cyd-destun cenedlaethol:**
Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o’r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Yn ogystal â sefydlu Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau sgriwtini. Eu rôl pennaf yw dal y rheini sy’n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rôl wrth ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae’r Ganolfan Graffu Gyhoeddus (CfPS)[3] yn arddel pedair egwyddor allweddol i gefnogi gwaith sgriwtini effeithiol gan Aelodau:

i. Darparu her “cyfaill beirniadol“ i’r rheini sy’n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau
ii. Sicrhau y clywir llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau
iii. “Llywodraethwyr annibynnol eu meddwl“ sy’n arwain y broses sgriwtini ac yn cymryd perchnogaeth ohoni
iv. Yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

[3] Canllaw Sgriwtini Da, Canolfan Graffu Gyhoeddus 2004

**ATODIAD 2**

# CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH EIN PWYLLGORAU SGRIWTINI

Mae’r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael ei chyflawni drwy gyfrwng strwythur sy’n cynnwys dau o riant bwyllgorau sgriwtini – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

### Cylch gorchwyl:

- Ffocws gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yw darparu sicrwydd ynghylch cyflawni a darparu’r holl wasanaethau; sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a’i amcanion ar gyfer ei wasanaethau (fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Flynyddol, y Fframwaith Polisi a Chyllideb, y Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu eu cynlluniau a’u polisïau olynol); a chefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.
- Mae aelodau’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cynnal cyfarfodydd paratoi cyn pob pwyllgor er mwyn paratoi a rhoi ffocws i’r drafodaeth yng nghyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor. Ystyrir bod hyn yn arfer dda a bwriedir parhau â’r trefniadau hyn yn 2021/22.

### Aelodaeth

- Y Cynghorydd Aled Morris Jones yw cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chaiff gefnogaeth gan yr Is-gadeirydd, sef y Cynghorydd Dylan Rees. Mae deg o aelodau’n gwasanaethu ar y pwyllgor[4] gyda darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

[4] Mae aelodaeth cynghorwyr ar y Pwyllgorau Sgriwtini yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

# Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng Aled Morris Jones (Cadeirydd) | Twrcelyn | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng Lewis Davies | Seiriol | Plaid Cymru |
|  | Cyng Alun Roberts | Seiriol | Plaid Cymru |
|  | Cyng Richard Griffiths | Twrcelyn | Y Grŵp Annibynnol |
|  | Cyng J Arwel Roberts | Ynys Gybi | Plaid Lafur |

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng Dylan Rees (Is-gadeirydd) | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng John Griffith | Talybolion | Plad Cymru |
|  | Cyng Nicola Roberts | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng Richard O Jones | Twrcelyn | Y Grŵp Annibynnol |
|  | Cyng Bryan Owen | Bro Aberffraw | Annibynwyr Môn |

| Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystod rhan o 2020/21. |
|---|
| Cyng Margaret Roberts |
|  |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

**Cylch gorchwyl:**

- Prif ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yw sicrhau yr hyrwyddir buddiannau Dinasyddion Ynys Môn ac y gwneir y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, sy'n dangos gwerth ychwanegol yn sgil gweithio gyda phartneriaid. Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn cynnwys trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â threfniadau lleol.
- Y pwyllgor hefyd yw'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn enwebedig sy'n delio â materion trosedd ac anhrefn, fel sy'n ofynnol o dan Adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Hwn yw'r pwyllgor dynodedig hefyd ar gyfer craffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.
- Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'r arfer o gynnal cyfarfodydd briffio gydag aelodau cyn pob cyfarfod ffurfiol o'r pwyllgor sgriwtini. Caiff hyn ei weld fel arfer da a bwriedir parhau â'r trefniadau hyn yn 2021/22.

**Aelodaeth:**

- Y Cynghorydd Gwilym Jones yw Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a chaiff gefnogaeth gan yr Is-gadeirydd, sef y Cynghorydd Glyn Haynes. Mae deg o aelodau hefyd yn gwasanaethu ar y pwyllgor hwn gyda darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

## Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/ Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng Gwilym O Jones (Cadeirydd) | Llifon | Y Grŵp Annibynnol |
|  | Cyng Dafydd Roberts | Bro Rhosyr | Y Grŵp Annibynnol |
|  | Cyng Alun Roberts | Seiriol | Plaid Cymru |
|  | Cyng Nicola Roberts | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng Kenneth P Hughes | Talybolion | Annibynwyr Môn |

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng Glyn Haynes (Is-gadeirydd) | Caergybi | Plaid Lafur |
|  | Cyng Vaughan Hughes | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Margaret Roberts | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Trefor Lloyd Hughes | Ynys Gybi | Plaid Cymru |
|  | Cyng Robert Llewelyn Jones | Caergybi | Annibynwyr Môn |



Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Gall ein pwyllgorau sgriwtini wneud eu gwaith mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyried y pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol
- Ystyried y pwnc yn fanylach drwy sefydlu panel canlyniad sgriwtini NEU
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes polisi penodol.

Unwaith eto yn ystod 2020/21, roedd y pwyllgorau sgriwtini yn ymwybodol o'r angen i geisio canolbwyntio eu gwaith ar ganlyniadau ac o fewn fframwaith Swyddfa Archwilio Cymru o nodweddion a chanlyniadau sgriwtini a throsolwg effeithiol mewn llywodraeth leol[5]:

- Canlyniadau gwell
- Penderfyniadau gwell
- Ymgysylltu'n well

**Galw penderfyniadau i mewn:** gall pwyllgorau sgriwtini "alw i mewn" penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, Aelod Portffolio neu swyddog sydd wedi cael pwerau dirprwyol gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad penodol. Nid yw'r pwyllgorau sgriwtini ond yn galw penderfyniad i mewn pan mae rheswm da dros wneud hynny (drwy Brawf o Arwyddocâd), ac yn ystod 2020/21 gwnaed hyn ddwywaith, gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Gwelwyd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn galw mewn y penderfyniad canlynol gan y Pwyllgor Gwaith / Deilydd Portffolio:

1. **Penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith**
    - Tir ar Stad Ddiwydiannol Mona - Cais gan Gymdeithas Amaethyddol Ynys Môn i ddiwygio amodau'r brydles
    - Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig

[5] Craffu Da? Cwestiwn Da! Swyddfa Archwilio Cymru, 2014

# ATODIAD 3

## Gweledigaeth ar gyfer sgriwtini effeithiol yng Nghyngor Sir Ynys Môn

**Gweledigaeth**

Mae Sgriwtini yn Ynys Môn yn anelu at sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau a hefyd ychwanegu at effeithiolrwydd y Cyngor drwy helpu i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tryloyw, cynhwysol, atebol a chost effeithiol.

**Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Sgriwtini yn Ynys Môn**

- Mae sgriwtini yn creu awyrgylch o gyd-ymddiriedaeth, cydweithio a rhannu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cymunedau lleol.
- Mae Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith yn anwleidyddol yn y modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi a herio.
- Mae gweithgaredd sgriwtini yn ehangu yn uniongyrchol y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno rhaglenni trawsnewid oherwydd mae'n rhoi syniad o'r modd y mae cymunedau lleol yn debygol o deimlo am y cynigion.
- Mae Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith yn helpu i sicrhau y cymerir ymagwedd strategol, tymor hir pan mae bwriad i ail-gyflunio gwasanaethau ar raddfa fawr a hynny drwy ddarparu her adeiladol wrth roi prawf ar ragdybiaethau, edrych ar risgiau a herio'r modd y mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.

**Ein Gwerthoedd**

**Trosolwg a Sgriwtini yn Ynys Môn….**

- Mae'n edrych 'ymlaen ac at allan' ac yn rhagweithiol yn hytrach nag yn 'fewnol ac mewn modd ymatebol'.
- Mae gan sgriwtini rôl sydd wedi ei diffinio'n glir ac sy'n cael ei gwerthfawrogi yn nhrefniadau gwella a llywodraethiant y cyngor.
- Mae'n anwleidyddol, yn gadarn o ran ei fethodoleg ac yn cynnwys amrediad eang o ffynonellau tystiolaeth a safbwyntiau gan gynnwys rhai gan bartneriaid strategol, rheoleiddwyr a'r cyhoedd.
- Mae'n cael ei arwain gan gynghorwyr sy'n cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu y maent eu hangen i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.
- Mae'n derbyn cefnogaeth effeithiol gan uwch dîm arweinyddiaeth y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer trosolwg a sgriwtini o ansawdd uchel ac yn cael ei darparu mewn modd amserol a chyson.
- Mae'n cymryd i ystyriaeth pryderon a fynegir ar lefel ward mewn modd nad yw'n blwyfol wrth reoli ei raglen waith ar gyfer y dyfodol.
- Mae'n cael ei gynllunio'n dda, ei gadeirio'n effeithiol ac mae'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddo.
- Mae'n cael ei gydnabod gan y pwyllgor gwaith a'r uwch dîm arweinyddiaeth fel mecanwaith pwysig yn y Cyngor ar gyfer ymgysylltiad cymunedol ac mae'n golygu ei bod yn haws i ddinasyddion ymwneud â llywodraethiant.
- Adeiladu ymddiriedaeth a pherthnasau cadarnhaol gydag amrediad eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mai, 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd: 2020/21** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **J Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2020/21** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:**<br>**E-bost:**<br>**Rhif Ffôn** | **J Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)**<br>**JJones@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752108** |

1. **Argymhellion**
   **Gofynnir i'r Cyngor:**
   **A1** Dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2020/21.

2. **Cefndir a chyd-destun**
   **2.1** Dyma'r nawfed Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ers ei sefydlu yn 2012.
   **2.2** Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Mae'n ofynnol dan y Mesur bod y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor llawn.
   **2.3** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn darparu trosolwg o'r holl faterion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2020/21 ac yn manylu ar unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd.
   **2.4** Yn ogystal â hyn, mae'r adroddiad yn amlinellu beth fydd cynnwys rhaglen waith y Pwyllgor yn ystod 2021/22 o ran y materion a ganolbwyntir arnynt fydd yn sail i waith y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2020/21 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mai, 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd- Adroddiad Blynyddol 2020/21** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyng Robert Llewelyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2020/21** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:**<br>**E-bost:**<br>**Rhif Ffôn** | **Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)**<br>**Jjones@ynysmon.gov.uk** |

**1. Rhagarweiniad**

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Dan y Mesur, rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor llawn.

Dyma'r nawfed adroddiad blynyddol y mae'r Pwyllgor wedi ei ddarparu ers ei sefydlu yn 2012.

2. **Cyd-destun unigryw Pandemig Covid-19**

1.1 Mae'n wir dweud fod y pandemig wedi cael ac yn parhau i gael effaith bellgyrhaeddol ar fywydau pawb, ein cymunedau a'r modd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau. Mae'r cyfnod hwn **(rheoli'r ymateb brys i'r Pandemig, y Cyfnod Adfer a dychwelyd yn raddol i'r Normal newydd)** yn gyfnod heriol eithriadol i'r Cyngor a phob sefydliad cyhoeddus arall ar draws Cymru wrth i ni barhau i wynebu heriau argyfwng Covid-19. Mae hyn wedi golygu bod y Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang.

1.2 Yn unol â Deddf Coronafeirws 2020 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 rydym yn cynnal cyfarfodydd o bell gan ddilyn y Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor rhoddwyd ar waith o fis Mai[1]. O ganlyniad i'r pandemig, ni chyfarfu'r Pwyllgor hwn nes 30 Gorffennaf, 2020.

**3. Datblygiad Proffesiynol Aelodau**

Mae cefnogi Aelodau Etholedig yn hollbwysig er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau o ran cefnogi a chynrychioli eu cymunedau yn llawn, gwneud penderfyniadau a chadw golwg ar berfformiad y Cyngor er budd gorau eu hetholwyr, i gynrychioli'r Cyngor yn effeithiol, i sicrhau llywodraethu mewnol a safonau moesol, fel y nodir yn y Disgrifiad Rôl ar gyfer Aelod Etholedig.

[1] Strategaeth ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor hyd at Ebrill, 2021 (CSYM, Mai, 2020).

Er mwyn datblygu ac ehangu ar sgiliau a gwybodaeth Aelodau, mae Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau yn bodoli sy'n amlinellu'r holl gyfleoedd hyfforddiant a datblygu sydd ar gael iddynt am y flwyddyn. Mae'r ddogfen yn cael ei haddasu yn rheolaidd er mwyn bodloni anghenion yr holl Aelodau ac yn ymateb i ofynion sy'n cael eu hamlygu yn Adolygiadau Datblygiad Personol y Cynghorwyr. Cyflwynir y Cynllun Datblygu yn chwarterol i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn i swyddogion penodol allu adnabod mewnbynnau datblygu addas neu benodol. Fel y nodir ymhellach yn yr adroddiad, ni chynhaliwyd fawr ddim sesiynau datblygu a hyfforddiant i aelodau etholedig yn ystod chwarter olaf 2019/20, ac eithrio hyfforddiant TG cynhwysfawr.

I'r un perwyl, cynhelir sesiynau briffio misol i Aelodau ar bynciau penodol, er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ar faterion strategol a thrawsnewid o fewn y Cyngor sy'n hanfodol iddynt er mwyn cyflawni eu dyletswyddau a'u rôl.

**4. Rhaglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2020/21 a cheir ynddo hefyd sylwadau ar y statws cyfredol.
Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y meysydd canlynol:

- Adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau 2019/20
- Taliadau i Aelodau- Adroddiadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2019/20
- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22
- Newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol
- Datblygu Aelodau

Cynhaliwyd cyfanswm o 3 cyfarfod o'r Pwyllgor dros y deuddeg mis diwethaf.

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

| Dyddiad y Pwyllgor | Pwnc | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| **30 Gorffennaf 2020** | Adolygiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn | • Cyflwynwyd diweddariad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 25 Medi 2019, fel rhan o adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol y Cyngor Sir.<br>• Nododd fod y Comisiwn wedi cefnogi achos ac argymhellion y Cyngor i gael 35 Aelod a 14 Ward, heb unrhyw newid i 6 ward etholiadol, gan olygu cyfartaledd sirol o 1,461 o etholwyr i bob Aelod. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno'r trefniadau newydd mewn pryd ar gyfer etholiadau 2022. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td><ul><li>Penderfynwyd argymell i’r Cyngor Sir bod y cynigion a nodir yn adroddiad y Comisiwn Ffiniau yn cael eu derbyn, yn amodol ar newid yr enw ar gyfer ward newydd Braint i ‘Bodowyr’.</li><li>Cyflwnwyd adroddiad pellach i’r Pwyllgor ar 23 Tachwedd, 2020.</li></ul></td></tr>
<tr><td></td><td>Adroddiad Blynyddol Aelodau 2019/20</td><td><ul><li>Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y mesurau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi adroddiadau blynyddol aelodau 2019/20.</li><li>Mae rhan 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau i wneud trefniadau er mwyn caniatáu i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.</li><li>Gofynnwyd i Aelodau gwblhau adroddiadau erbyn 22 Mai i bwrpas cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2020.</li><li>Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac annog aelodau i gwblhau adroddiadau blynyddol.</li></ul></td></tr>
<tr><td></td><td>Taliadau i Aelodau- Adroddiadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol</td><td>Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:<ul><li>Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy’n gosod y lwfansau sy’n daladwy i Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig a hawliau pleidleisio.</li><li>Cyflwynwyd cynigion drafft y panel ar gyfer 2020/21 i’r Pwyllgor hwn ar 10 Rhagfyr, 2019.</li><li>Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol terfynol ym mis Chwefror 2020, heb newidiadau pellach, heblaw am gynnydd o £350 yng nghyflog sylfaenol yr Aelodau. Nodwyd bod Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr y Cyngor ar gyfer 2020/21 wedi’i gyhoeddi yn unol â’r gofynion.</li><li>Cyfeiriwyd at y Panel ar ddigolledu costau gofal, a ddaeth yn weithredol ar 1 Gorffennaf 2020. Mae’r Panel yn bryderus bod y niferoedd sy’n hawlio’r ddarpariaeth yn isel. Mae’r Panel wedi gofyn i Awdurdodau Lleol godi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau fod y cymorth ariannol ar gael ac mae argymhelliad wedi’i wneud bod adolygiad blynyddol o amgylchiadau pob Aelod yn cael ei gyflawni bob blwyddyn yn ystod eu gwerthusiadau blynyddol.</li><li>Penderfynwyd nodi:</li></ul></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | i. bod y Cyngor wedi cyhoeddi ei Restr Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr ar gyfer 2020/21, yn unol â'r gofynion;<br>ii. yr egwyddorion mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal a chadarnhau sut mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi'r egwyddorion ar waith. |
| | Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2019/20 | Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Pwyllgor hwn gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:<br>• bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 8 Medi, 2020.<br>• Crynhoir y materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019/20.<br>• Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019/20. |
| **23 Tachwedd 2020** | Adolygiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o Drefniadau Etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn | Cyflwynwyd adroddiad diweddaru gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 30 Gorffennaf a 25 Medi 2020, a oedd yn ymdrin â'r materion canlynol:<br>• Nodwyd bod y Comisiwn wedi cyhoeddi ei gynigion drafft ar gyfer ymgynghori arnynt ar 16 Mehefin 2020, a oedd yn gyson ag argymhellion y Cyngor Sir, ar gyfer model seiliedig ar 14 ward a 35 Aelod.<br>• Nodwyd ymhellach bod argymhellion y Pwyllgor hwn o newid enw'r ward Braint newydd i Bodowyr wedi'u mabwysiadu gan y Comisiwn. Bydd argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir ar 8 Rhagfyr 2020 ar gyfer eu cymeradwyo. Gobeithir cyflwyno'r newidiadau mewn pryd ar gyfer etholiadau 2022.<br>• Penderfynwyd:-<br>i. Nodi argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau, ac<br>ii. Argymell bod y Cyngor Sir yn derbyn argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau ar 8 Rhagfyr 2020. |
| | Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/22 | Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yr Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA), a nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:<br>• Mae'r adroddiad yn gosod y lwfansau sy'n daladwy i Aelodau ac aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio.<br>• Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Drafft y PACGA ar gyfer 2021/22 ar gyfer |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymgynghoriad tan 23 Tachwedd 2020. Bydd y Panel yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2021.<br>• Rhoddwyd crynodeb o'r newidiadau arfaethedig fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021.<br>• Penderfynwyd derbyn penderfyniadau drafft adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22. |
| | Newidiadau i absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol | Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ddogfen ymgynghori i ehangu'r amodau absenoldeb mabwysiadu ar gyfer Aelodau awdurdodau lleol. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:<br>• bydd y cap ar daliadau yn cael ei ddisodli gan gostau gofal ffurfiol ac anffurfiol.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod telerau cyflogaeth Aelodau Etholedig yn fwy ffafriol ac y bydd absenoldebau yn dod i fod yn unol â rhai staff, sy'n caniatáu 26 wythnos o absenoldeb.<br>• Croesawodd y Pwyllgor y cynnig gan obeithio y byddai mwy o ddiddordeb gan unigolion fengach a merched fod yn Aelodau Etholedig.<br>• Penderfynwyd derbyn y newidiadau arfaethedig a amlinellwyd yn nogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ac awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i ymateb yn ôl yr angen mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor. |
| **16 Mawrth, 2021** | Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22 | Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:<br>• Cyfyngwyd ar y newidiadau fyddai'n cael eu gwneud i'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol yn 2021/22 oherwydd effaith y pandemig.<br>• Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 25 Chwefror 2021. Mae'r Panel wedi cadarnhau'r cynnydd yng nghyflogau aelodau etholedig prif gynghorau, gyda chynnydd canlyniadol i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thân ac Achub. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r Adroddiad drafft.<br>• Penderfynwyd nodi'r penderfyniadau a nodwyd yn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2021/22. |

| | | |
|---|---|---|
| | Datblygu Aelodau | Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddi, a nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:<br><br>• Bod y pandemig wedi cael effaith ar hyfforddiant a ddarparwyd, ac mai ychydig iawn o weithgaredd sydd wedi bod o ran hyfforddiant i Aelodau Etholedig yn ystod chwarter olaf 2019/2020 o ganlyniad.<br>• Bwriedir casglu anghenion hyfforddi'r aelodau er mwyn llunio Cynllun Datblygu diwygiedig o'r cyfnod presennol hyd at etholiadau 2022, a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo.<br>• Yn ystod y cyfnod clo, cynhaliwyd hyfforddiant ar ddefnyddio MS Teams a Zoom er mwyn sicrhau bod Aelodau yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol.<br>• Gobeithir y bydd arweiniad a gwybodaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o ran darparu hyfforddiant ar draws yr holl Awdurdodau.<br>• Parheir â'r gwaith ar y modiwlau E-ddysgu ar gyfer Aelodau Etholedig.<br>• Crewyd bwletin hyfforddiant i Aelodau Etholedig er mwyn hysbysebu hyfforddiant sydd ar gael.<br>• Penderfynwyd cyflwyno'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2021/22 i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth. |

**<u>Edrych Ymlaen i 2021/22:</u>**

Bydd rhaglen waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiadd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol ar gyfer 2021/22:

- Y Cynllun ar gyfer Datblygu a Hyfforddi Aelodau gan gynnwys Adolygiadau Datblygiad Personol
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau
- Materion cysylltiedig ag Aelodau gan gynnwys- Siartr Cymru ar gyfer datblygiad a chefnogaeth Aelodau
- Ymgynghoriadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru/ Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Materion perthnasol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a pharatoadau ar gyfer etholiadau 2022.

**Argymhelliad:**

Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2020/21.

**Cyng Robert Llewelyn Jones**
**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**(30.04.2021)**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad:** | **22/03/21 a 18/05/21** |
| **Pwnc:** | **Datganiad ar y Polisi Trwyddedu am y cyfnod 2021-2026** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Richard Dew**<br>**Y Cynghorydd Nicola Roberts Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Christian Branch**<br>**Pennaeth Dros Dro - Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Sion Hughes**<br>**07747 118 406**<br>**slhpp@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell i'r Cyngor Llawn y dylid mabwysiadu'r Datganiad ar Bolisi Trwyddedu 2021-2026.

Yn unol â Deddf Trwyddedu 2003, rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad ar ei Bolisi Trwyddedu bob pum mlynedd. Mae'r Polisi hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau o ran rheoleiddio gweithgareddau trwyddedig. Cynhyrchwyd y polisi drafft yn unol â chanllawiau statudol y Ddeddf Drwyddedu ynghylch ffurf a chynnwys y Polisi.

Mae'n fersiwn ddiwygiedig a diweddaredig o bolisi blaenorol y Cyngor.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad ar y Polisi Trwyddedu yn unol â'r gyfraith. Nid oes unrhyw opsiynau eraill ar gael.

**C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion i'r Cyngor gan fod y polisi'n rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Mae'n rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi.

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** | Cymeradwywyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. |

| | | |
|---|---|---|
| | (mandadol) | Gofynnodd y Dirprwy Brif Weithredwr am gyfeiriad at addasu i ffactorau allanol sy'n effeithio ar weithrediad y polisi. Wedi'i gynnwys ym mhara. 14.5. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | Cymeradwyo gyda chais i annog taliadau ar-lein. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Cymeradwyo. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r holl awdurdodau cyfrifol fel y'u rhestrir yn y polisi. Cyhoeddwyd tudalen ymgynghori gyhoeddus ar ein gwefan. Cafwyd gwybodaeth ddiweddaru gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Cynllunio a’r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd. Gofynnodd Teulu Môn am gyfeiriad penodol at ecsbloetio plant, sydd wedi'i gynnwys. Ni chafwyd unrhyw ymatebion eraill i'r ymgynghoriad. |

| **E – Risgiau a Chamau Lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd Ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Datganiad ar y Polisi Trwyddedu, Deddf Trwyddedu 2003, 2021 - 2026 |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# POLISI TRWYDDEDU

*CHWEFROR 2021(DYDDIAD MABWYSIADU)*


**1. Cefndir**

**2. Cwmpas a Graddau Deddf Trwyddedu 2003**

**3. Amcanion Trwyddedu**

**4. Y Broses Drwyddedu a Gweinyddu Swyddogaethau**

**5. Trwyddedau Eiddo a Thystysgrifau Eiddo Clwb (Ceisiadau Newydd, Amrywiadau a Gwybodaeth Gyffredinol)**

**6. Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro (TENs)**

**7. Trwyddedau Personol**

**8. Trwyddedau Eiddo Clwb**

**9. Atodlen Weithredu**

**10. Ffioedd**

**11. Effaith Gronnol, Ardoll Hwyr y Nos a Gorchmynion Cyfyngu ar Werthu Alcohol yn Fuan yn y Bore**

**12. Cyfundrefnau perthnasol eraill**

**13. Camau Gorfodi**

**14. Amrywiol**


**ATODIADAU**


**Atodiad A** **Manylion cysylltu ar gyfer ceisiadau trwyddedu**
**Atodiad B** **Awdurdodau Cyfrifol**
**Atodiad C** **Gweithdrefn adolygu sy'n ymgorffori datrys problemau ar y cyd â'r weithdrefn orfodaeth**
**Atodiad D** **Dirprwyo swyddogaethau**
**Atodiad E** **Rhestr Termau**

## 1 CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y Polisi Trwyddedu (**y Polisi**) hwn yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 (**y Ddeddf**). Mae'r Polisi'n nodi'r egwyddorion a weithredir gan Gyngor Sir Ynys Môn (**yr Awdurdod**) wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau, gwrandawiadau, adolygiadau ac apeliadau o dan y Ddeddf mewn perthynas â:

(a) Manwerthu alcohol;

(b) Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu ar orchymyn, aelod o'r clwb;

(c) Darparu lluniaeth hwyr y nos (bwyd neu ddiodydd poeth o unrhyw eiddo rhwng 23.00 a 05.00); a

(d) Darparu adloniant rheoledig ar gyfer y cyhoedd neu aelodau o glwb neu gyda'r bwriad o wneud elw gan gynnwys codi arian tuag at elusen pan fydd yr adloniant yn cynnwys: perfformiad theatr neu arddangos ffilm; digwyddiad chwaraeon dan do; gornestau bocsio neu wreslo; perfformio cerddoriaeth fyw; chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio neu berfformiad dawns.

1.2 Lleolir Ynys Môn yng Ngogledd Orllewin Cymru. Tir isel a geir ar yr Ynys yn bennaf ac mae ganddi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) arfordirol. Mae'n denu niferoedd mawr o ymwelwyr sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi lleol. Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn weithgaredd pwysig ac yn rhan annatod o hunaniaeth a diwylliant yr ynys. Yng Nghyfrifiad 2011 cofnodwyd poblogaeth o 69,769 gyda 30,600 o aelwydydd. Caergybi yw'r dref fwyaf ym Môn, a lleolir y mwyafrif o'r aneddiadau mwyaf o amgylch yr arfordir. Yr anheddiad mwyaf i ffwrdd o'r arfordir yw Llangefni, sef y dref sirol. Mae gan Ynys Môn gysylltiadau trafnidiaeth rhyngwladol cryf ag Iwerddon trwy Borthladd Caergybi. Mae'r A55, sy'n rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd (TERN), ynghyd â rheilffordd arfordir Gogledd Cymru yn cysylltu'r ardal â gweddill Gogledd Cymru a'r Deyrnas Unedig.

1.3 Ychydig iawn o "glybiau nos" cydnabyddedig neu grynoadau dwys o eiddo trwyddedig a geir ar yr ynys. Mae neuaddau pentref ac ysgolion yn darparu lleoliadau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol. Ceir nifer o gyngherddau a sioeau awyr agored sy'n ffurfio'r digwyddiadau mwy o ran maint a digwyddiadau dros dro.

## 2 CWMPAS A GRADDAU DEDDF TRWYDDEDU 2003

2.1 Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cyflawni ei ddyletswyddau dan y Ddeddf gyda golwg ar hyrwyddo'r **Pedwar Amcan Trwyddedu** yn gyfartal:

(a) Atal Trosedd ac Anrhefn;

(b) Diogelwch y Cyhoedd;

(c) Atal Niwsans Cyhoeddus; ac

(d) Amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Cydnabyddir mai dim ond un ffordd o gyflawni'r amcanion uchod yw'r swyddogaeth drwyddedu. Bydd yr Awdurdod felly'n parhau i weithio mewn partneriaeth â phob rhanddeiliad a phartner perthnasol arall.

2.3 Wrth ymgymryd â'i swyddogaeth drwyddedu, bydd yr Awdurdod yn ystyried deddfwriaeth arall a Strategaethau a Pholisïau'r Llywodraeth fel y bo'n briodol. Yn achos bod cyfundrefnau rheoleiddiol eraill yn gosod rhwymedigaethau ar ymgeiswyr, bydd yr Awdurdod yn osgoi gosod yr un rhwymedigaethau neu rai tebyg fel amodau ar drwydded i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

2.4 Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried mentrau ehangach sy'n berthnasol i drwyddedu fel:

(a) Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) yng nghanol trefi

(b) Gorchmynion Gwahardd o Ganol Tref

(c) Canllawiau Mynychu Clybiau yn Fwy Diogel

(d) Cynllun Gwylio Tafarndai ("Pub Watch") a Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch

(e) Menter Wobrwyo Braf Bob Nos ("Best Bar None")

2.5 Dymuniad yr Awdurdod yw hwyluso eiddo sydd dan reolaeth dda gyda deiliaid trwyddedau yn dangos sensitifrwydd i'r effaith ar breswylwyr lleol. Mae'r Awdurdod yn sylweddoli fod eiddo trwyddedig ar yr ynys yn cyfrannu tuag at yr economi lleol. Maent yn denu ymwelwyr a thwristiaid, yn creu trefi a phentrefi bywiog ac yn gyflogwyr mawr. Yn ogystal, mae gan ddeiliaid masnachol eiddo ddisgwyliadau dilys o ran cael amgylchedd sy'n ddeniadol a chynaliadwy i'w busnesau. Ond mae'r Awdurdod yn ymwybodol y dylid sicrhau cydbwysedd rhwng hyn ac anghenion preswylwyr lleol ynghyd ag ystyriaethau ehangach yn unol â'r Amcanion Trwyddedu.

2.6 Mabwysiadwyd y Polisi hwn gan yr Awdurdod ac mae'n amlinellu ymagwedd gyffredinol yr Awdurdod tuag at wneud penderfyniadau yng nghyswllt trwyddedu. Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn ystyried y Polisi, yn ogystal â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 182 o'r Ddeddf, wrth gydnabod bod rhaid ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant.

2.7 Adolygwyd y Polisi hwn ddiwethaf ar [24 Chwefror 2016] ac fe'i mabwysiadwyd ar [**i'w gadarnhau**].

2.8 Os bydd y canllawiau statudol a gyhoeddwyd dan Adran 182 o'r Ddeddf yn cael eu diwygio ar unrhyw adeg, neu os gwneir newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol perthnasol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried datblygiadau o'r fath o ran eu heffaith bosibl ar y Polisi hwn.

## 3 AMCANION TRWYDDEDU

3.1 Nodir ymhellach isod sut y bydd yr Awdurdod yn gweithredu'r Amcanion Trwyddedu.

3.2 Yn ogystal â'i bwerau o dan y Ddeddf, bydd yr Awdurdod yn defnyddio amrediad cyflawn o fesurau gan gynnwys ei reolaethau cynllunio, rheolaethau trafnidiaeth, polisïau a phwerau trosedd ac anhrefn. Bydd yr Awdurdod yn sefydlu trefniadau mewn partneriaeth gan weithio'n agos â'r Heddlu, yr awdurdod tân, y Bwrdd Iechyd lleol, busnesau lleol, cynrychiolwyr yn y gymuned a phobl leol i gyflawni'r amcanion hyn.

### Atal Trosedd ac Anrhefn

3.3 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anrhefn yn yr ardal.

3.4 Gostwng lefelau troseddu mewn ardaloedd penodol yw un o flaenoriaethau pwysicaf Strategaeth Trosedd ac Anrhefn yr Awdurdod. Bydd y Polisi'n rhoi sylw i effaith debygol trwyddedu o ran sicrhau bod eiddo a'r amgylchedd o'u cwmpas yn cael eu rheoli'n dda.

3.5 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Heddlu Gogledd Cymru.

3.6 **Mynychu Clybiau yn Ddiogel –** Dymuna'r Awdurdod hyrwyddo egwyddorion "Mynychu Clybiau yn Ddiogel". Bydd yn argymell canllawiau cyfredol y Swyddfa Gartref i Ddeiliaid Trwydded Eiddo a Deiliaid Tystysgrif Eiddo Clwb. Gellir gosod amodau trwyddedu priodol a chymesur i reoli'r amgylchedd mewn eiddo perthnasol er mwyn cyflawni amcanion "Mynychu Clybiau yn Ddiogel".

3.7 **Cyffuriau -** Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gosodir amodau i leihau'r posibilrwydd o werthu a/neu ddefnyddio cyffuriau. Ymgynghorir â'r Tîm Gweithredu Cyffuriau lleol a'r Heddlu ym mhob achos pan fydd angen gosod yr amodau hyn .

3.8 **Goruchwylwyr ar y Drysau -** Lle mae trwydded eiddo yn cynnwys amod sy'n gofyn i unrhyw un gyflawni gweithgaredd i sicrhau diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n gofyn i'r unigolyn hwnnw fod wedi'i drwyddedu gan yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, onid yw wedi'i eithrio o ofyniad o'r fath am y rheswm ei fod yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau a nodwyd yn adran 21(2) o'r Ddeddf (trwyddedau sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu ar achlysuron eraill). Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gall yr Awdurdod arfer ei ddoethineb a gosod amodau bod rhaid cyflogi goruchwylwyr trwyddedig ar y drysau (a gymeradwyir gan yr Awdurdod y Diwydiant Diogelwch), naill ai trwy gydol yr amser neu ar yr adegau hynny a nodir gan yr Awdurdod, ac yn unol â'r nifer a'r gymhareb a bennir gan yr Awdurdod, yn seiliedig ar asesiad risg o'r eiddo.

**Diogelwch y Cyhoedd**

3.9 Dymuna'r Awdurdod hyrwyddo safonau uchel o ddiogelwch i'r cyhoedd mewn perthynas â'r eiddo a'r gweithgareddau o fewn cwmpas y Ddeddf.

3.10 Ymgynghorir ag Adain Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod fel Awdurdod Cyfrifol yn hyn o beth i orfodi gofynion iechyd a diogelwch mewn eiddo perthnasol ac fe gaiff ei swyddogion hefyd weithredu fel Personau Awdurdodedig at ddibenion gorfodaeth o dan y Ddeddf.

3.11 Mae'r Awdurdod yn cydnabod na fydd dyletswyddau iechyd a diogelwch cyffredinol bob amser yn cynnwys materion penodol yn ddigonol, ac felly bydd angen gosod amodau ar Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb. Mae diogelwch corfforol yn cynnwys atal damweiniau ac anafiadau a mathau eraill o niwed uniongyrchol sy'n gallu digwydd o ganlyniad i yfed alcohol, fel bod yn anymwybodol neu wenwyn alcohol.

3.12 Pan fydd angen Trwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb, caiff yr Awdurdod ddewis rhai amodau sy'n briodol ac yn gymesur ar gyfer natur y gweithgareddau a nodwyd yn yr atodlen weithredu ac sy'n adlewyrchu'r amcanion trwyddedu.

3.13 Pan fo gweithgareddau'n cael eu trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas neu eiddo cymunedol mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu ei bod yn arfer da bod yr un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch yn cael ei darparu ag fel pe bai perthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli, boed dyletswyddau cyfreithiol llym yn bodoli o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol ai peidio. Anogir ymgeiswyr hefyd i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at faterion diogelwch cyffredinol, gan gynnwys rhai eu cwsmeriaid, ac i drafod camau priodol gyda'r Awdurdodau Cyfrifol dan sylw.

3.14 Pan fydd unrhyw amodau wedi'u gosod ar Drwydded Eiddo neu Dystysgrif Eiddo Clwb, gall Swyddog Awdurdodedig ar ran yr Awdurdod archwilio'r eiddo hwnnw ar unrhyw adeg resymol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r amodau.

3.15 Byddai'r Awdurdod yn disgwyl i drefnwyr digwyddiadau mawr, lle y cynhelir gweithgareddau trwyddedadwy, baratoi cynllun rheoli digwyddiad gan gynnwys asesiadau risg priodol a'u cyflwyno i'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau mewn digon o bryd cyn unrhyw ddigwyddiad arfaethedig. Penderfyniad yr Awdurdod fydd unrhyw benderfyniad i awdurdodi digwyddiad o'r fath.

3.16 **Diogelwch Tân** Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw priodol i sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a bydd yn ymgynghori â hwy fel un o'r Awdurdodau Cyfrifol sy'n ymwneud â cheisiadau. Caiff yr Awdurdod ddewis amodau priodol a chymesur o ran materion iechyd a diogelwch mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Bydd Rheoliadau Rhagofalon Tân (yn y gwaith) 1997 (fel y'i diwygiwyd) yn berthnasol mewn unrhyw eiddo lle bydd gweithgaredd gwaith yn digwydd a bydd Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 hefyd yn berthnasol. Gorfodir y rheoliadau hyn gan Wasanaeth Tân ac

Achub Gogledd Cymru a bydd dyletswydd statudol ar oruchwylwyr eiddo i gynnal a diweddaru eu hasesiadau risg tân eu hunain ar gyfer pob eiddo. Ymhlith materion eraill, dylai'r ddogfen Asesiad Risg tân fynd i'r afael â dulliau adeiladu, y niferoedd a fydd yn defnyddio eiddo, systemau synhwyro mwg a thân, systemau larwm a chyfathrebu, diogelwch a goruchwyliaeth, y prif ddull a'r dull eilaidd o ddianc, ynghyd ag offer diffodd tân ar gyfer eiddo trwyddedig.

**Atal Niwsans Cyhoeddus**

3.17 Pan fydd yr Awdurdod yn dod i farn wrthrychol ynghylch yr hyn sydd yn cael ei ystyried yn niwsans bydd yn canolbwyntio ar effeithiau afresymol y gweithgareddau trwyddedadwy yn yr eiddo perthnasol ar y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cyffiniau. Bydd y materion yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol: sŵn siarad, gwaeddi a cherddoriaeth a chwaraeir; gwastraff; sbwriel, parcio ceir a llygredd golau ac arogleuon niweidiol.

3.18 Pan fydd yr Awdurdod yn ystyried yr effaith bosibl a gaiff unrhyw eiddo trwyddedig ar yr ardal o amgylch i'r eiddo hwnnw, bydd y Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y math o weithgaredd adloniant, yr oriau gweithredu a fwriedir, capasiti'r eiddo, natur yr ardal a'r agosrwydd at breswylwyr lleol.

3.19 Gorfodir darpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n ymwneud â niwsans sŵn gan Adain Iechyd Yr Amgylchedd yr Awdurdod ac fe ymgynghorir â'r Adran honno ynghylch eiddo presennol os bydd niwsans statudol yn amharu ar breswylwyr neu'r gymuned fusnes. Ymgynghorir â hwy hefyd fel Awdurdod Cyfrifol mewn perthynas â cheisiadau.

3.20 Bydd yr Awdurdod yn defnyddio amrediad o amodau trwyddedu i reoli sŵn a gellir cyfeirio at y 'Canllawiau Ymarfer Da Ynghylch Rheoli Sŵn o Dafarndai a Chlybiau'. Mae'n debygol y gosodir amodau caethach ar gyfer rheoli sŵn mewn ardaloedd lle mae eiddo yn agos neu'n gyfagos i eiddo preswyl.

3.21 Ni fydd yr Awdurdod yn gosod amodau na fyddant dan reolaeth uniongyrchol deiliad trwydded, neu ynghylch materion nad ydynt yn gysylltiedig â chyffiniau'r eiddo.

3.22 Yn ogystal, mae gan Heddlu Gogledd Cymru hawliau dan y Ddeddf i reoli sŵn o eiddo. Pe byddai angen iddynt ddefnyddio'r pwerau hyn, byddant yn cysylltu, pan fo hynny'n ymarferol, gyda'r Awdurdod yn unol â'r protocol gorfodaeth a rennir.

3.23 Bydd yr Awdurdod yn cydbwyso'r posibilrwydd o rywfaint o aflonyddu ar gymdogaethau gyda'r angen i annog a hyrwyddo cerddoriaeth fyw, a dawnsio a theatr.

3.24 Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda Gweithredwyr Eiddo Trwyddedig i sicrhau y glynir wrth holl delerau priodol Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

3.25 Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2013 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cau eiddo os yw sŵn o unrhyw eiddo trwyddedig yn achosi niwsans cyhoeddus.

**Amddiffyn Plant Rhag Niwed**

3.26 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gellir cyflwyno cais am drwydded ar gyfer amrywiaeth eang o eiddo. Er enghraifft, byddant yn cynnwys theatrau, sinemâu, gwestai, archfarchnadoedd a siopau llai, tai bwyta, tafarndai, clybiau nos, caffis, siopau tecawê, neuaddau cymuned ac ysgolion. Ni fydd plant yn cael eu rhwystro mewn unrhyw fodd rhag cael mynd i mewn i unrhyw eiddo (ac eithrio bo hynny'n unol â'r Ddeddf) oni fydd yn briodol a chymesur i wneud hynny i'w diogelu rhag niwed ac ecsbloetiaeth.

3.27 Wrth ystyried ceisiadau ac opsiynau sy'n briodol i atal niwed ac ecsbloetiaeth i blant, bydd yr Awdurdod yn ystyried hanes eiddo penodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal yno. Er enghraifft:

(a) A gafwyd euogfarnau am werthu alcohol i bobl ifanc dan oed neu a oes gan yr eiddo hanes/tystiolaeth o yfed dan oed (gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd gan Adain Safonau Masnach yr Awdurdod ynghylch pryniannau prawf o ran cyflenwi alcohol);

(b) A oes unrhyw gysylltiad hysbys gyda defnyddio neu ddelio mewn cyffuriau;

(c) A oes elfen gref o gamblo yn yr eiddo; neu

(d) A fydd adloniant i oedolion neu o natur rywiol yn cael ei gynnig yn aml.

3.28 Lle ystyrir bo hynny'n briodol, gellir gosod amodau sy'n:

(a) Cyfyngu ar yr oriau pan gaiff plant fod yn bresennol;

(b) Cyfyngu ar oedran y sawl sy'n cael bod yn yr eiddo (o dan 18);

(c) Cyfyngu a ba bryd y gellir cynnal rhai gweithgareddau neu rwystro plant rhag bod yn bresennol ar yr adegau hynny; neu

(d) Bod angen oedolyn yn gwmni i blentyn.

3.29 Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn caniatáu i Awdurdodau Trwyddedu a'r Heddlu y dewis o osod cyfnod o gau gwirfoddol am hyd at bythefnos (o leiaf 48 awr) yn achos eiddo sy'n gwerthu alcohol i blant yn gyson, fel opsiwn yn lle erlyn mewn rhai achosion. Mae'r ddirwy uchaf wedi'i chodi i £20,000.

3.30 Pan fydd niferoedd mawr o blant yn debygol o fod yn bresennol mewn unrhyw eiddo trwyddedig, er enghraifft ar gyfer sioe blant neu bantomeim, yna bydd yr Awdurdod yn gofyn am gael nifer briodol o staff sy'n oedolion yn bresennol (a fydd wedi darparu gwiriad cofnodion troseddol boddhaol) i sicrhau eu diogelwch ac i'w hamddiffyn rhag niwed.

3.31 Pan fydd caniatâd wedi'i roi i ddangos ffilmiau, bydd yr Awdurdod yn disgwyl y byddir yn cydymffurfio â chyfyngiadau oedran yn unol ag argymhellion Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau

Prydain. Ni wnaiff yr Awdurdod ond ystyried amrywiadau i'r rheol gyffredinol hon mewn achosion eithriadol.

3.32 Ni ddangosir unrhyw ffilm mewn eiddo trwyddedig sy'n debygol o greu anhrefn, ennyn casineb neu ysgogi trais tuag at unrhyw garfan o'r cyhoedd ar sail lliw, hil neu dras ethnig neu genedlaethol, anabledd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, beichiogrwydd neu rywedd.

3.33 Ni fydd yr Awdurdod yn gosod unrhyw amod sy'n gofyn yn benodol am ddarparu mynediad i blant i unrhyw eiddo. Pa na fydd unrhyw gyfyngiad wedi'i osod, mater i'w benderfynu gan y deiliad trwydded unigol fydd mynediad.

3.34 Mae Deddf Gamblo 2005 yn caniatáu rhywfaint o chwarae gemau cyfle cyfartal mewn eiddo trwyddedig, ynghyd â nifer gyfyngedig o beiriannau gemau. Rhaid i'r Awdurdod neu'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig fonitro presenoldeb plant neu bobl fregus.

## 4 Y BROSES DRWYDDEDU A GWEINYDDU SWYDDOGAETHAU – TROSOLWG

4.1 Mae **Atodiad A** yn darparu manylion cysylltu ar gyfer y broses geisiadau trwyddedu, tra bo'r adran hon yn darparu rhywfaint o ganllawiau cyffredinol.

### Gweinyddu Swyddogaethau Trwyddedu a'r Pwyllgor Trwyddedu

4.2 Caiff pwerau'r Awdurdod o dan y Ddeddf eu cyflawni gan y Pwyllgor Trwyddedu, neu gan Is-bwyllgor, neu gan un neu ragor o swyddogion yn gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig (gweler **Atodiad D**).

4.3 Mae'r Pwyllgor Trwyddedu yn cynnwys 15 aelod o'r Awdurdod. Cynhelir gwrandawiadau (pan fo angen) gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu sy'n cynnwys 3 aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu.

### Hysbysebu a Sylwadau Perthnasol

4.4 Pan fydd cais yn cael ei hysbysebu, caiff yr Awdurdodau Cyfrifol (**gweler Atodiad B**) ac unigolion eraill y cyfle i wneud sylwadau. Ni fydd sylwadau ond yn cael eu hystyried yn berthnasol os ydynt yn ymwneud ag un neu ragor o'r amcanion trwyddedu.

4.5 Gall Awdurdodau Cyfrifol wneud sylwadau mewn perthynas â'r effaith y gallai pob cais am drwydded ei chael ar yr amcanion trwyddedu a ph'un a yw'r mesurau rheoli a gynhwysir yn yr atodlen weithredu yn ddigonol i liniaru'r effeithiau hynny.

4.6 Gall unrhyw un arall gyflwyno sylwadau (gan gynnwys trydydd parti neu Gynghorydd Ward sy'n cynrychioli unigolyn, os gellir bodloni'r Awdurdod o ran pwy ydyw'r unigolyn a bod y trydydd parti wedi'i awdurdodi i gyflwyno sylwadau ar ei ran).

4.7 Gall sylwadau fod yn rhai cadarnhaol yn ogystal ag yn negyddol, fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd angen cynnal gwrandawiad os mai dim ond sylwadau cadarnhaol a dderbynnir

4.8 Bydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu fod yn fodlon bod cyswllt tystiolaethol rhwng y sylwadau a wnaed, yr amcanion trwyddedu a'r eiddo dan sylw. Pan fydd sylw'n gwneud dim ond ailrestru'r amcanion trwyddedu, heb nodi pam yr ystyrir y bydd caniatáu'r cais yn tanseilio'r amcanion neu'n methu â'u hyrwyddo, efallai y caiff y sylw ei wrthod fel un sy'n annilys.

4.9 Dylai unrhyw un sy'n gwneud sylw ar gais gadw mewn cof y bydd ei ddata personol (megis ei enw a'i gyfeiriad) yn cael eu datgelu i'r ymgeisydd. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn golygu llythyrau sy'n cyflwyno sylwadau. Bydd pob llythyr sylwadau'n cael ei gynnwys ar yr agenda petai'r mater yn mynd ymlaen i wrandawiad gan yr Is-bwyllgor. Mae gwrandawiadau yn agored i'r cyhoedd a gallai aelodau o'r cyfryngau fod yn bresennol, onid yw'r is-bwyllgor yn penderfynu fel arall o dan Reoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005 neu Ddeddf Llywodraeth Leol 1972¸ Atodlen 12A (fel y diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, SI 2007/969, Erthygl 3). Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd data personol yn cael ei gyhoeddi yn y cofnodion sy'n cael eu dosbarthu i'r holl bartïon yn yr achos ac a fydd ar gael ar wefan yr Awdurdod.

**Sylwadau a thrafodaeth a'r angen am wrandawiad**

4.10 Dan y Ddeddf mae rheidrwydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i gymeradwyo cais oni bai y derbynnir sylwadau perthnasol. Os na dderbynnir unrhyw sylwadau perthnasol bydd swyddogion trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu yn delio â'r cais o dan y cynllun dirprwyo. Os ceir sylwadau perthnasol na ellir eu datrys (gweler isod) yna bydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yn ystyried y cais mewn gwrandawiad cyhoeddus.

4.11 Os cyflwynir sylwadau, bydd swyddog yn gyfrifol am sicrhau cysylltiad rhwng yr Ymgeisydd/Ymgeiswyr, yr Awdurdodau Cyfrifol ac unrhyw unigolyn arall sy'n gwneud sylwadau perthnasol.

4.12 Os cyflwynir sylwadau perthnasol, gallai swyddog o'r Awdurdod Trwyddedu gysylltu â'r partïon perthnasol i weld a yw "setliad" yn bosibl i oresgyn unrhyw wrthwynebiadau ac i ddatrys unrhyw faterion sy'n destun pryder, heb yr angen i'r mater fynd gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Unwaith y bydd cais wedi'i wneud, gosodir amserlenni statudol ar y broses geisiadau a phenderfynu a allai cyfyngu ar y cyfle i drafod, sicrhau cyswllt a chyfryngu.

4.13 Os gellir dod i gytundeb, bydd Aelodau'n cyfarfod i ystyried yr amodau arfaethedig a gytunwyd, ac os ystyrir eu bod yn berthnasol ac yn briodol, byddant yn cytuno i'w hatodi i'r Drwydded. Ni fydd materion ond yn cael eu hatgyfeirio i'w penderfynu gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu os na ellir cysoni unrhyw wrthwynebiadau a godwyd.

4.14 Er bod Ceisiadau Trwyddedu a Gwrandawiadau Adolygu sy'n cael eu herio yn lled-farnwrol o ran natur, bydd yr Is-bwyllgor yn ceisio sicrhau bod y trafodion mor anffurfiol â phosibl. Mae angen rhyw fath o ffurfioldeb i sicrhau bod yr holl bartïon yn derbyn gwrandawiad teg. Bydd yn rhaid sefydlu gofynion gweithdrefnol i sicrhau bod yr holl bartïon yn gallu mynegi eu safbwyntiau yn agored ac yn deg.

4.15 Er bod yr Is-bwyllgor fel arfer yn cyfarfod yn gyhoeddus, mae ganddo'r pŵer i wrando ar rai ceisiadau penodol yn breifat. Fodd bynnag, bydd yr Is-bwyllgor bob amser yn llunio'i benderfyniad yn breifat. Bydd cyhoeddiad cyhoeddus o'r penderfyniad yn cael ei wneud ar ddiwedd y Gwrandawiad fel arfer, ynghyd ag amlinelliad o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

**Amodau**

4.16 Os na chyflwynir unrhyw sylwadau perthnasol, cymeradwyir y cais ar y telerau a geisiwyd, h.y. yn gyson â'r atodlen weithredu ac yn amodol ar yr amodau gorfodol. Ni osodir unrhyw amodau ychwanegol.

4.17 Yr Is-bwyllgor Trwyddedu sy'n delio â cheisiadau lle cyflwynwyd sylwadau perthnasol, neu os ceir cais i adolygu trwydded. Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr Is-bwyllgor yn ystyried y Polisi hwn, y Ddeddf, y canllawiau statudol a rheoliadau cysylltiedig.

4.18 Os aiff y mater i wrandawiad, gall yr Is-bwyllgor Trwyddedu atodi amodau (yn ychwanegol i'r amodau gorfodol) os daw i'r casgliad (ar ôl derbyn sylwadau perthnasol) bod hynny'n briodol i hyrwyddo un neu ragor o'r amcanion trwyddedu. Bydd yr Awdurdod, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn osgoi gosod amodau anghymesur a beichus ar eiddo.

4.19 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cyngor a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref na ddylid caniatáu i safbwyntiau'r lleiafrif ddominyddu buddion cyffredinol y gymuned.

4.20 Bydd unrhyw amodau a atodir yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd yn yr eiddo ar y rheiny sy'n mynychu'r eiddo ac ar aelodau o'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu fel arall yn ymwneud â gweithgareddau arferol yng nghyffiniau'r eiddo. Wrth benderfynu a yw unigolyn yn byw neu a oes ganddo ddiddordebau busnes yn ddigon agos at yr eiddo fel ei bod yn debygol y caiff ei effeithio gan y gweithgareddau arfaethedig, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ffactorau megis:

(a) Maint yr eiddo.

(b) Natur yr eiddo.

(c) Pellter yr eiddo o leoliad cartref neu fusnes yr unigolyn sy'n gwneud y sylwadau.

(d) Effaith bosibl yr eiddo (e.e. nifer y cwsmeriaid a'r llwybrau y mae'r cwsmeriaid yn debygol o'u defnyddio).

4.21 Efallai y bydd rhaid gosod amodau sy'n ceisio rheoli ystod neu natur y gweithgareddau o fewn yr eiddo, neu sydd wedi'u dylunio i leihau'r potensial am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd amodau o'r fath hefyd yn ceisio dylanwadu'n uniongyrchol ar ymddygiad cwsmeriaid yn yr eiddo neu yng nghyffiniau'r eiddo.

**Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu**

4.22 Bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â chais am drwydded yn cael ei wneud yn hollol ar wahân i unrhyw benderfyniad sydd yn ymwneud â materion cynllunio. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor Cynllunio'n derbyn adroddiadau rheolaidd ynglŷn â'r sefyllfa o ran trwyddedu yn yr ardal, ynghyd ag effaith gyffredinol trosedd ac anrhefn sydd yn gysylltiedig ag alcohol.

4.23 Dylai'r Pwyllgor Trwyddedu hefyd dderbyn adroddiadau gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd mewn perthynas â Throsedd ac Anrhefn.

4.24 Wrth ddelio â cheisiadau, mae'n bosibl y bydd angen rhoi sylw dyledus i nifer o faterion ehangach. Lle ystyrir bo hynny'n briodol, dylai Pwyllgor Trwyddedu'r Awdurdod dderbyn adroddiadau ar anghenion y diwydiant twristiaid lleol, Strategaeth Ddiwylliannol yr ardal, y sefyllfa o safbwynt cyflogaeth yn yr ardal, ar angen am fuddsoddiad a gwaith newydd ynghyd ag ystyriaethau cynllunio a allai effeithio ar eiddo trwyddedig.

4.25 Pan fydd unrhyw brotocolau y cytunwyd arnynt gyda'r Heddlu yn nodi angen penodol i wasgaru pobl o ganol y dref yn gyflym ac yn ddiogel er mwyn osgoi casgliadau o bobl a fyddai'n gallu creu trosedd ac anrhefn, bydd yr Awdurdod yn ceisio rhoi gwybod i'r sawl sy'n gyfrifol am drefnu cludiant lleol fel y gellir gwneud trefniadau, lle bo hynny'n ymarferol, i leihau'r posibilrwydd y bydd problemau'n codi.

4.26 Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am wneud sylwadau ar geisiadau am drwyddedau. Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i lywio eu penderfyniadau. NId yw iechyd cyhoeddus yn amcan trwyddedu hyd yma, ond mae'r awdurdod trwyddedu'n credu bod gan iechyd cyhoeddus lawer i'w gyfrannu at drwyddedu o ran anghenion iechyd y boblogaeth leol mewn perthynas ag alcohol. Mae gan gyrff iechyd megis Iechyd Cyhoeddus Cymru fynediad unigryw at ddata nad yw ar gael i awdurdodau cyfrifol eraill a allai gyfrannu at benderfyniadau trwyddedu. Mae Iechyd Cyhoeddus yn ddefnyddiol wrth ddarparu tystiolaeth o niweidiau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig mewn perthynas â pholisïau ar effeithiau cronnus.

## 5 TRWYDDEDAU EIDDO A THYSTYSGRIFAU EIDDO CLWB (CEISIADAU NEWYDD, AMRYWIADAU A GWYBODAETH GYFFREDINOL)

5.1 Bydd yr Awdurdod yn asesu pob cais newydd neu gais i amrywio amodau yng ngoleuni'r amcanion trwyddedu, a bydd yn rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

(a) Y camau a gymerir neu’r rheiny y bwriedir eu cymryd i atal sŵn a dirgryniad o’r eiddo, gan gynnwys cerddoriaeth, sŵn o offer awyru a sŵn lleisiau. Gall y fath gamau gynnwys cyfarpar a dyfeisiau i ynysu’r eiddo rhag sain, i dymheru’r awyr, i gyfyngu ar sŵn ynghyd â lobïau acwstig.

(b) Y camau a gymerir neu’r rheiny y bwriedir eu cymryd i atal aflonyddwch gan gwsmeriaid a staff sy’n cyrraedd neu’n gadael yr eiddo.

(c) Y camau a gymerir neu y bwriedir eu cymryd i atal ciwio, neu, os yw ciwio'n anochel, i wyro'r ciwiau o'r eiddo cyfagos, neu i reoli'r ciw i atal aflonyddwch neu rwystr.

(d) Y trefniadau parcio i gwsmeriaid a wnaed neu y bwriedir eu gwneud, ac effaith parcio ar breswylwyr lleol.

(e) P’un a oes darpariaeth ddigonol ar gyfer cludiant cyhoeddus i gwsmeriaid.

(f) P’un a fydd y tacsis a’r cerbydau hurio preifat sydd yn cynnig gwasanaeth i’r eiddo yn debygol o darfu ar breswylwyr lleol.

(g) P’un a yw’r llwybrau i ac o'r eiddo ar droed neu mewn car neu gerbydau gwasanaeth neu ddosbarthu yn pasio eiddo preswyl.

(h) P’un a ystyriwyd unrhyw ddulliau eraill o atal niwsans, fel defnyddio camerâu cylch cyfyng neu gyflogi goruchwylwyr cofrestredig ar y drysau.

(i) Y camau y bwriedir eu cymryd i atal y defnydd neu’r gwerthiant o gyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau chwilio.

(j) Y camau y bwriedir eu cymryd i gydymffurfio â’r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

(k) Y tebygolrwydd bod unrhyw drais, anrhefn cyhoeddus neu broblem plismona yn codi pe bai trwydded yn cael ei chymeradwyo.

(l) Os yw'r ymgeisydd wedi dal trwydded gyda’r Awdurdod yn flaenorol, manylion unrhyw gamau gorfodi sydd wedi deillio o'r eiddo.

(m) P’un a fyddai cynnydd mewn problemau o ran storio neu waredu sbwriel, neu a fyddai sbwriel ychwanegol yng nghyffiniau’r eiddo.

(n) Derbyn sylwadau gan awdurdodau cyfrifol (gan gynnwys yr Heddlu, yr Awdurdod Tân ac Iechyd yr Amgylchedd).

(o) Derbyn sylwadau gan unrhyw unigolyn arall (megis aelod o’r cyhoedd neu fusnes arall).

(p) Unrhyw gamau lliniaru a gynigiwyd.

5.2 Mae’r Awdurdod hefyd yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol i gefnogi eu ceisiadau ac i ddangos ymwybyddiaeth o’r gymuned leol; gallai hynny gynnwys nodweddion demograffig yr ardal ac/neu faterion trosedd ac anrhefn lleol penodol er enghraifft.

5.3 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol a ddaethpwyd i’w sylw, yn enwedig pan mae’n tanseilio’r amcanion trwyddedu. Gall unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion statudol eraill ddangos nad yw’r eiddo’n addas ar gyfer y gweithgareddau a fwriedir; neu nad oes rheolaeth ddigonol ar yr eiddo i ddiogelu’r cyhoedd rhag niwed neu niwsans.

5.4 **Mân Amrywiadau** – Gall deiliad tystysgrif eiddo clwb/trwydded eiddo wneud cais dan y drefn mân amrywiadau ar gyfer mân amrywiadau na fydd yn cael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Mae hon yn broses amrywio fwy syml ac nid oes unrhyw hawl i wrandawiad. Os gwrthodir y cais, gellir gwneud amrywiad llawn.

**Gwybodaeth Gyffredinol**

5.5 **Tynnu Amod bod rhaid cael Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig** – Os oes gan eiddo yn y gymuned drwydded sy’n caniatáu cyflenwi/gwerthu alcohol, gall deiliad y drwydded wneud cais i gael gwared ar yr amod gorfodol sy’n dweud bod rhaid penodi Goruchwyliwr Dynodedig ar gyfer yr eiddo. Mae hyn yn trosglwyddo’r cyfrifoldeb am werthu/cyflenwi alcohol i’r Pwyllgor Rheoli ar gyfer yr eiddo.

5.6 **Garejis** – Wrth wneud penderfyniadau am geisiadau ar gyfer garejis (h.y. siopau cwrt blaen) mae’n rhaid i’r Awdurdod benderfynu p’un a yw’r eiddo’n cael ei ddefnyddio’n bennaf fel garej ai peidio, a bydd disgwyl i’r ymgeiswyr gyflwyno data sy’n sefydlu’r prif ddefnydd. Pan nad yw gwybodaeth o’r fath ar gael (er enghraifft, oherwydd nad yw’r eiddo ond newydd gychwyn masnachu), mae’n bosibl y bydd yr Awdurdod yn ystyried gosod amod sy’n gofyn am gael darparu’r wybodaeth hon yn rheolaidd i’r Awdurdod Trwyddedu am y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau bod yr eiddo’n cael ei ddefnyddio fel garej yn bennaf.

**6 HYSBYSIADAU DIGWYDDIADAU DROS DRO (TENS)**

6.1 Ceir meini prawf caeth a chyfyngiadau mewn perthynas â Hysbysiadau y dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol ohonynt a chydymffurfio â hwy. Mae’r rhain yn cynnwys (ond nid wedi eu cyfyngu iddynt):

(a) **Nifer yr Hysbysiadau y gellir eu rhoi ym mhob blwyddyn galendr** - 50 ar gyfer deiliad trwydded bersonol (gan gynnwys uchafswm o 10 Hysbysiad hwyr), 5 i bobl eraill (gan gynnwys uchafswm o 2 Hysbysiad hwyr). Uchafswm o 15 Hysbysiad ym mhob blwyddyn galendr ar gyfer unrhyw eiddo penodol.

(b) **Uchafswm hyd un digwyddiad** – 168 awr (saith diwrnod).

(c) **Cyfanswm uchafswm hyd digwyddiadau drwy gydol blwyddyn galendr** - 21 diwrnod.

(d) **Cyfanswm nifer y mynychwyr ar unrhyw adeg** – 499.

(e) **Y cyfnod lleiaf rhwng digwyddiadau a awdurdodir o dan Hysbysiadau ar wahân mewn perthynas â'r un eiddo** - 24 awr.

6.2 Dylai ymgeiswyr ystyried a ydynt yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau cyn cyflwyno Hysbysiad.

**Amseriadau ar gyfer cyflwyno**

6.3 Mae'r Awdurdod yn argymell y dylai ymgeiswyr gyflwyno Hysbysiadau safonol **o leiaf 20 diwrnod** cyn y digwyddiad dros dro sydd dan sylw.

6.4 Gall yr Heddlu a'r Adran Iechyd yr Amgylchedd gyflwyno gwrthwynebiad i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, cyn pen tri diwrnod i gyflwyno hysbysiad, a fydd yn caniatáu cyfnod ar gyfer adolygu'r Hysbysiad, a fydd yn arwain at ei newid mewn rhai achosion fel y gall yr Awdurdod ychwanegu amodau i'r Hysbysiad.

6.5 Hysbysiad hwyr yw un a gyflwynir rhwng 9 a 5 diwrnod gwaith cyn y digwyddiad.

6.6 Gwahaniaeth allweddol rhwng Hysbysiad safonol a hwyr yw os derbynnir gwrthwynebiad mewn perthynas â Hysbysiad safonol, yna rhaid cynnal gwrandawiad (onid yw bob parti yn ystyried bod hyn yn ddiangen). Os yw'r Heddlu neu Adran Iechyd yr Amgylchedd yn gwrthwynebu i Hysbysiad hwyr, yna ni fydd gwrandawiad ac ni chynhelir y digwyddiad.

6.7 Bydd yr Awdurdod yn ceisio darparu cyngor ynghylch trefnu digwyddiadau o'r fath i ymgeiswyr, gan gynnwys ar faterion diogelwch y cyhoedd. Lle bo angen, bydd cydweithrediad rhwng awdurdodau cyfrifol a'r gwasanaethau brys yn cael ei hwyluso trwy'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch.

6.8 Bydd llawer o ddigwyddiadau lleol wedi'u trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas. Mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn arfer da bod yr un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch yn cael ei ddarparu ag fel pe bai perthynas cyflogwr/cyflogai yn bodoli, boed dyletswyddau cyfreithiol llym yn bodoli o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol ai peidio..

## 7 TRWYDDEDAU PERSONOL

7.1 Rhaid i ymgeiswyr am Drwydded Bersonol gyflawni'r gofynion a ganlyn:

(a) Eu bod yn 18 neu drosodd.

(b) Bod ganddynt gymhwyster trwyddedu perthnasol.

(c) Na chafodd unrhyw drwydded bersonol a oedd ganddynt ei fforffedu yn ystod y 5 mlynedd cyn y cais presennol.

(d) Pan fo gan ymgeisydd euogfarn sydd heb ddarfod ar gyfer trosedd berthnasol neu drosedd dramor, a naill ai i) nad yw'r Heddlu wedi gwrthwynebu i gymeradwyo'r cais neu ii) mae'r Awdurdod wedi ystyried gwrthwynebiad yr Heddlu ond wedi penderfynu na fydd cymeradwyo'r cais yn tanseilio'r amcan atal trosedd ac anrhefn.

(e) Maent wedi talu'r ffi berthnasol.

7.2 Rhaid i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS) ar bob Trwydded Eiddo, sef y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr Awdurdod, yr Heddlu ac Awdurdodau Cyfrifol eraill ddal trwydded bersonol.

7.3 Mae Trwyddedau Personol yn ddilys am gyfnod amhenodedig, fodd bynnag, unwaith y byddant wedi'u cyflwyno, yr awdurdod â'u cyflwynodd sy'n parhau fel yr awdurdod trwyddedu perthnasol ar eu cyfer, er efallai y bydd deiliad y drwydded yn symud o'r ardal.

7.4 Bydd yn rhaid i'r sawl sy'n dal Trwydded Bersonol roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw euogfarnau perthnasol a rhoi gwybod i'r llysoedd bod ganddynt drwydded bersonol cyn gynted ag y bo modd fel bod modd ystyried ardystio, atal neu ddirymu trwydded. Bydd peidio â chydymffurfio â'r uchod yn drosedd.

7.5 Bydd Trwydded Bersonol yn cael ei dirymu os nad oes gan ddeiliad y Drwydded Bersonol bellach hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.

## 8 TYSTYSGRIFAU EIDDO CLWB

8.1 Mae clwb yn sefydliad lle mae aelodau wedi ymuno â'i gilydd am resymau cymdeithasol, chwaraeon neu wleidyddol penodol. Ni ddylid eu cymysgu â chlybiau perchnogol, sef clybiau sy'n cael eu rhedeg gan unigolion, partneriaethau neu fusnesau er elw. Er mwyn ymgeisio am Dystysgrif Eiddo Clwb, mae angen i'r clwb fod yn 'Glwb Cymwys', sy'n golygu bod rhaid i'r clwb gyflawni amodau a nodir yn y Ddeddf, gan gynnwys:

(a) O dan reolau'r clwb, bod cyfnod o o leiaf 2 ddiwrnod rhwng ymgeisio i fod yn aelod a chael mynediad i'r clwb. Mae hyn yn cynnwys breintiau aelodaeth (h.y. cael defnyddio'r cyfleusterau ac yfed alcohol).

(b) Bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal mewn ewyllys da fel clwb.

(c) Bod gan y Clwb o leiaf 25 aelod.

(d) Nad yw alcohol yn cael ei gyflenwi, neu y bwriedir ei gyflenwi, i aelodau yn yr eiddo ac eithrio gan neu ar ran y clwb.

8.2 Mae gan glybiau sy'n dal Tystysgrifau Eiddo Clwb yr hawl i fuddion penodol:

(a) Nid oes angen Deiliaid Trwydded Bersonol yn yr eiddo.

(b) Nid oes angen Goruchwylwyr Eiddo Dynodedig.

(c) Hawliau mynediad mwy cyfyngedig i'r Heddlu ac Unigolion Awdurdodedig (Swyddogion Trwyddedu) gan fod yr eiddo'n cael ei ystyried yn eiddo preifat ac nad yw ar agor i'r cyhoedd yn gyffredinol.

(d) Gwerthu bwyd poeth a diod rhwng 11pm a 5am i aelodau a gwesteion heb fod angen trwydded.

**9 ATODLEN WEITHREDU**

9.1 Dylai'r holl geisiadau newydd a cheisiadau am amrywio trwydded ar gyfer Trwyddedau Eiddo, Tystysgrifau Eiddo Clwb a Datganiadau Dros Dro gynnwys atodlen weithredu sy'n amlinellu sut y bydd yr eiddo'n cael ei weithredu. Dylai'r atodlen hon gynnwys manylion am sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar y gymuned leol sy'n deillio o weithredu eu busnes, yn dibynnu ar y math o eiddo, ei leoliad a phroffil y cwsmeriaid.

9.2 Bydd y cynigion a gynhwysir yn yr atodlen weithredu yn ffurfio prif gorff yr amodau sydd i'w gosod ar y drwydded, ynghyd ag unrhyw amodau mandadol sy'n berthnasol, unrhyw amodau y cytunir arnynt gydag awdurdodau cyfrifol yn ystod y broses ymgeisio ac unrhyw amodau sydd i'w gosod gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu (fel y bo'n berthnasol).

9.3 Wrth gwblhau atodlen weithredu, disgwylir i ymgeiswyr roi ystyriaeth i'r Polisi hwn ac arddangos bod ganddynt wybodaeth addas o'u hardal leol pan fyddant yn disgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu. Dylai ymgeiswyr ddangos, pan fyddant yn amlinellu'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, eu bod yn deall:

(a) cynllun yr ardal leol a'r amgylchedd ffisegol gan gynnwys mannau lle mae llawer o drosedd ac anhrefn, agosrwydd at eiddo preswyl ac agosrwydd at fannau lle mae plant efallai'n ymgynnull;

(b) unrhyw risg i'r ardal leol o ganlyniad i weithgareddau trwyddedig arfaethedig yr ymgeiswyr; ac

(c) unrhyw fentrau lleol (er enghraifft, mentrau lleihau trosedd lleol neu gynlluniau gwirfoddol, gan gynnwys cynlluniau marsialiaid tacsi lleol, bugeiliaid y stryd a chynlluniau eraill) a allai fod o gymorth i liniaru risgiau posibl.

9.4 Cynghorir ymgeiswyr i drafod eu hatodlenni gweithredu arfaethedig gyda'r Awdurdod ac Awdurdodau Cyfrifol eraill cyn eu cyflwyno. Bydd swyddogion yr Awdurdod yn ymdrechu i ddarparu arweiniad ar gyfer y cam hwn o'r broses. Lle mae swyddog yn cynrychioli'r Awdurdod

yn ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol, lle bynnag y bo modd, dynodir swyddog arall i brosesu'r cais ac i ddarparu arweiniad i ymgeiswyr.

9.5 Bydd y cymhlethdod a'r manylion sydd eu hangen yn yr atodlen weithredu yn dibynnu ar natur a defnydd yr eiddo dan sylw. Er enghraifft, ar gyfer tafarndai lle na ddarperir adloniant wedi'i reoleiddio, dim ond dogfen eithaf syml fyddai ei hangen. Fodd bynnag, os yw'r atodlen weithredu yn rhan o gais ar gyfer digwyddiad neu leoliad adloniant mawr, bydd disgwyl i'r atodlen roi sylw manwl i faterion megis diogelwch y cyhoedd ac atal trosedd ac anrhefn.

9.6 Mae'n rhaid gosod yr atodlen weithredu ar y ffurflen benodedig a rhaid iddi gynnwys y canlynol:

(a) Manylion llawn am y gweithgareddau trwyddedig a fydd yn cael eu cynnal yn yr eiddo a'r defnydd a fwriedir ar gyfer yr eiddo;

(b) Yr amseroedd y bydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd;

(c) Unrhyw adegau eraill pan fydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd;

(d) Pan fo angen y drwydded am gyfnod cyfyngedig, beth yw'r cyfnod hwnnw;

(e) Pan fo'r gweithgareddau trwyddedig yn cynnwys cyflenwi alcohol, enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n cael ei ddynodi'n oruchwyliwr eiddo dynodedig (fel y bo'n berthnasol);

(f) P'un a fydd alcohol yn cael ei gyflenwi i'w yfed yn yr eiddo neu oddi ar yr eiddo, neu'r ddau;

(g) Y camau y mae'r ymgeisydd yn eu cynnig er mwyn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.

9.7 O ran rhai eiddo, mae'n bosibl na fydd angen unrhyw fesurau i hyrwyddo un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu, er enghraifft, am eu bod yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pob atodlen weithredu yn fanwl gywir a bod modd ei gorfodi, nad yw'n annelwig, nad yw'n dyblygu darpariaethau statudol eraill, ei bod yn glir yn yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni, ac yn briodol, yn gymesur a bod modd ei chyfiawnhau.

**Oriau Gweithredu**

9.8 O dan y Ddeddf, nid oes rhagdybiaeth gyffredinol o blaid ymestyn oriau.

9.9 O ran oriau gweithredu, y pedwar amcan trwyddedu fydd y brif ystyriaeth bob amser a bydd pob cais yn cael ei farnu ar ei rinweddau ei hun. Fel rhan o hyn, mae'r materion allweddol a ystyrir yn cynnwys: ansawdd yr amgylchedd; amwynderau preswylwyr; cymeriad neu swyddogaeth ardal benodol a natur y gweithgareddau y bwriedir eu darparu yn yr eiddo.

9.10 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall oriau trwyddedu hirach ar gyfer gwerthu alcohol fod yn ffactor sy'n gallu lleihau problemau mewn lleoedd sy'n gwerthu bwyd yn hwyr yn y nos,

safleoedd tacsi, swyddfeydd cerbydau hurio preifat a mathau eraill o gludiant sy'n gallu creu anrhefn ac aflonyddwch.

9.11 Caniateir i siopau, storfeydd ac archfarchnadoedd werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo yn ystod oriau agor arferol y busnes. Os gwneir sylwadau perthnasol (er enghraifft gan yr Heddlu neu breswylydd/breswylwyr mewn perthynas â siopau unigol sy'n hysbys fel canolbwynt anrhefn ac aflonyddwch), efallai y bydd yn briodol i gyfyngu ar eu horiau.

9.12 Tra bo'r Awdurdod o blaid cymeradwyo'r oriau cau yr ymgeisiwyd amdanynt pan fydd yr ymgeisydd yn gallu dangos na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar unrhyw un o'r uchod, gall yr Awdurdod bennu oriau cau cynharach os yw o'r farn, o ystyried yr amcanion trwyddedu, bod hyn yn briodol o ran natur y gweithgareddau ac amwynderau'r ardal.

9.13 Pan fo eiddo wedi'i leoli ger ardaloedd preswyl yna efallai y bydd amodau caethach o ran rheoli sŵn yn berthnasol, ond ni ddylai hyn gyfyngu'r oriau agor ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau.

## 10 FFIOEDD

10.1 Er bod trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb yn cael eu cymeradwyo am gyfnod amhenodol, mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded/tystysgrif dalu ffi drwydded flynyddol i'r Awdurdod Trwyddedu. Rhaid talu'r ffi flynyddol ar ben-blwydd dyddiad cymeradwyo'r drwydded.

10.2 Os nad yw'r ffi flynyddol wedi'i thalu erbyn y dyddiad dyledus, bydd trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb yn cael eu **hatal dros dro** gan yr Awdurdod, yn amodol ar gyfnod gras o 21 diwrnod os na wnaed taliad o ganlyniad i anghydfod neu wall gweinyddol. Ar ôl talu'r ffi, bydd y drwydded yn cael ei hadfer yn awtomatig.

10.3 Ar ôl derbyn hysbysiad/darganfod na chafodd ffi flynyddol ei thalu, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno rhybudd ysgrifenedig i ddeiliad y drwydded/dystysgrif:

(a) Y bydd y drwydded/dystysgrif yn cael ei hatal dros dro am 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad, ond ni ddaw hyn i rym os telir y ffi cyn y diwrnod y caiff ei hatal dros dro.

(b) Os oes honiad o wall gweinyddol, bydd y dyddiad atal dros dro yn 21 diwrnod o'r dyddiad dyledus, neu'r dyddiad atal dros dro ar yr hysbysiad 14 diwrnod, pa un bynnag yw'r hwyraf.

(c) Cyflwynir copi o'r hysbysiad hefyd i'r goruchwyliwr eiddo dynodedig/rheolwr yr eiddo os nad hwy yw deiliad trwydded yr eiddo.

10.4 Os nad yw'r ffi wedi ei thalu erbyn y dyddiad ar yr hysbysiad, ystyrir y bydd y drwydded/dystysgrif wedi'i hatal dros dro. Bydd deiliad y drwydded/dystysgrif a'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig/Rheolwr yn cael eu hysbysu ar unwaith bod yr ataliad dros dro yn dod i rym, a byddant yn cael gwybod na ellir cynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn yr eiddo hyd

nes y telir y ffi ac y bydd yr ataliad dros dro wedi'i godi. Pan wneir taliad llawn, bydd yr Awdurdod yn codi'r ataliad dros dro ar unwaith, ac yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

10.5 Lle bo trwydded/tystysgrif yn cael ei hatal dros dro a bod gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu darparu, bydd yr Awdurdod yn ystyried erlyn y darparwr am droseddau o dan adran 136 o'r Ddeddf.

## 11 EFFAITH GRONNOL, ARDOLL HWYR Y NOS, GORCHMYNION CYFYNGIAD CYNNAR YN Y BORE

### Effaith Gronnol

11.1 Mewn rhai ardaloedd lle bo math neu nifer yr eiddo sy'n gwerthu alcohol neu'n darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos yn uchel neu'n eithriadol o uchel, gall hyn gael effaith negyddol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Er enghraifft, gall nifer y bobl sydd naill ai'n cerdded trwy'r strydoedd neu'n hel at ei gilydd ar y strydoedd yn ystod oriau'r nos gynyddu oherwydd effaith gronnol niferoedd o eiddo adloniant sydd ar agor gyda'r hwyr (gan gynnwys caffis nos) mewn ardal benodol, sy'n gallu creu: cynnydd mewn trosedd; cynnydd yn y lefelau sŵn a fydd yn amharu ar breswylwyr; cynnydd sylweddol yn nifer y cerddwyr ar y strydoedd; tagfeydd traffig a/neu anawsterau parcio a/neu daflu sbwriel a baeddu strydoedd.

11.2 Gall hyn ymyrryd ag amwynderau preswylwyr lleol mewn modd annerbyniol, gan na fydd bob amser yn bosibl priodoli achos y problemau hyn i gwsmeriaid eiddo penodol. Mae hyn yn golygu, er y cymerir camau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau, ni fyddant efallai'n datrys yr holl broblemau mewn ardal.

11.3 O dan y Ddeddf, mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn (ar ôl dilyn gweithdrefn benodol) i gyflwyno Polisi Effaith Gronnol a fyddai'n creu rhagdybiaeth wrthbrofadwy y bydd ceisiadau ar gyfer cymeradwyo neu amrywio trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb sy'n debygol o ychwanegu at yr effaith gronnol, fel arfer yn cael eu gwrthod neu'n destun cyfyngiadau penodol.

11.4 **Nid oes gan yr Awdurdod Bolisi Effaith Gronnol arbennig ar waith ar hyn o bryd ond bydd yn cadw hyn dan sylw.**

11.5 Nid yw absenoldeb Polisi Effaith Gronnol ar hyn o bryd yn atal unrhyw Awdurdod Cyfrifol neu unigolyn arall rhag gwneud sylwadau ar gais ar gyfer cymeradwyo neu amrywio trwydded ar y sail y bydd yn creu effaith gronnol negyddol ar un neu ragor o'r amcanion trwyddedu o ganlyniad i leoliad yr eiddo dan sylw.

11.6 Dylid nodi mai un ffordd yn unig o ddelio â'r problemau a nodwyd uchod yw Trwyddedu ac y dylid troi at y dulliau canlynol hefyd er mwyn ceisio delio â'r problemau:

(a) Rheolaeth gynllunio.

(b) Pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod lleol yn fannau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus a lle bydd alcohol yn cael ei atafaelu.

(c) Pwerau'r Heddlu i gau eiddo neu ddigwyddiadau dros dro am hyd at 24 awr ar sail anrhefn, y tebygolrwydd o anrhefn neu sŵn gormodol.

(d) Erlyn deiliaid trwydded bersonol sy'n gwerthu alcohol i bobl sydd wedi meddwi.

(e) Pwerau'r Heddlu, awdurdodau cyfrifol neu breswylydd neu fusnes lleol i geisio cael adolygu trwydded neu dystysgrif eiddo.

**Ardoll Hwyr y Nos**

11.7 Mae pŵer Ardoll Hwyr y Nos yn galluogi'r Awdurdod i godi ardoll ar unigolion sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol rhwng hanner nos a 06.00 fel modd o godi cyfraniad tuag at gostau plismona'r economi hwyr y nos.

11.8 **Nid yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol cyflwyno'r ardoll ar hyn o bryd.**

**Gorchymyn Cyfyngiad Cynnar yn y Bore (EMRO)**

11.9 Mae'r Gorchymyn hwn yn caniatáu cyflwyno cyfyngiadau ar werthu alcohol yn holl ardal yr Awdurdod, neu rannau ohoni, rhwng hanner nos a 06.00, os yw'n fodlon y byddai'n briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

11.10 **Nid yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol cyflwyno'r Gorchymyn ar hyn o bryd.**

**12 GWEITHDREFNAU PERTHNASOL ERAILL**

**Cynllunio/Rheoli Adeiladu**

12.1 Nodir polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol. Nodir Polisïau Cynllunio'r Awdurdod o fewn Cynllun Datblygu lleol ar y cyd (Ynys Môn a Gwynedd).

12.2 Mae swyddogaethau cynllunio, rheoli adeiladu a thrwyddedu wedi'u gwahanu'n briodol o fewn yr Awdurdod. Mae'r gweithdrefnau Cynllunio a Thrwyddedu yn ystyried materion gwahanol (er bod cysylltiad rhyngddynt), ac nid yw'r Pwyllgor Trwyddedu wedi'i rwymo gan benderfyniadau'r pwyllgor cynllunio (ac i'r gwrthwyneb).

12.3 Ar ôl i ymgeisydd fynd trwy'r broses gynllunio cyn cyflwyno ei gais trwyddedu, mae'r Awdurdod yn disgwyl y bydd atodlen weithredu'r ymgeisydd yn gyson ag unrhyw ganiatâd cynllunio neu amodau a osodir.

12.4 Pan fydd unrhyw oriau a bennir ar gyfer eiddo yn wahanol dan amodau Cynllunio o gymharu â Thrwyddedu rhaid i'r ymgeisydd lynu wrth yr amser cau cynharaf. Byddai modd erlyn, dan gyfraith cynllunio, yn achos unrhyw eiddo sy'n cael ei redeg mewn modd sy'n torri amodau

caniatâd cynllunio.

12.5 Dylid cadw mewn cof fod Rheoliadau Adeiladu yn rheoli amryw o faterion, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at yr Amcanion Trwyddedu, gan gynnwys dulliau o ddianc, cyfanrwydd strwythurol, hygyrchedd a diogelwch y cyhoedd. Efallai y bydd gofyn cael Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu a Thystysgrifau Cwblhau cyn medru defnyddio'r eiddo ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy.

**Masnachu ar y Stryd**

12.6 Bydd Masnachwyr Stryd yn rhoi ystyriaeth i Bolisi'r Awdurdod mewn perthynas â masnachu ar y stryd ac yn sicrhau bod pob safle a ddefnyddir wedi'u trwyddedu'n briodol.

**Byrddau a Chadeiriau**

12.7 Bydd Gweithredwyr yn rhoi sylw i bolisi'r Awdurdod mewn perthynas â dodrefn gardd/stryd ac unrhyw oblygiadau posibl o ran cydymffurfio â'r pedwar amcan trwyddedu sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf.

**Adloniant i Oedolion – Lleoliadau Adloniant Rhywiol**

12.8 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu Atodlen 3 o Ddeddf Lywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Mae hyn yn golygu bod rhaid i leoliadau sy'n bwriadu darparu adloniant rhywiol geisio am Drwydded Lleoliad Adloniant Rhywiol (yn ychwanegol i'w trwydded eiddo dan y Ddeddf) os bydd eiddo'n cael ei ddefnyddio ar fwy na 12 achlysur o fewn cyfnod o 12 mis ar gyfer unrhyw adloniant rhywiol perthnasol. Mae adloniant rhywiol perthnasol yn cynnwys: dawnsio glin, dawnsio polyn, dawnsio bwrdd, sioeau tynnu dillad, sioeau llygadu a sioeau rhyw byw.

12.9 Mae eithriad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 sy'n caniatáu i eiddo gynnig adloniant rhywiol ddim mwy nag 11 gwaith y flwyddyn ac nid yn fwy aml nag unwaith y mis. Pan fo gweithredwyr yn bwriadu cymryd mantais o'r eithriad hwn, mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl eglurhad clir yn yr atodlen weithredu o'r arwyddion mae'n bwriadu eu harddangos, yn ogystal â'r cyhoeddusrwydd arfaethedig a'r deunyddiau hysbysebu/arddangos allanol. Ni ddylai deunydd anweddus fod yn weladwy a dylai arwyddion sy'n ymwneud â natur yr adloniant a'r ffaith fod plant wedi'u heithrio fod yn amlwg ac yn weladwy.

12.10 Byddai'r awdurdod trwyddedu'n disgwyl gweld y mesurau a ganlyn yn cael eu cynnig yn yr atodlen weithredu:

(a) Ni fydd unrhyw un o dan 18 mlwydd oed yn cael mynediad i'r eiddo pan fo perfformiad o adloniant i oedolion yn digwydd.

(b) Ni fydd unrhyw berfformiad yn cynnwys cyswllt corfforol rhwng y perfformiwr/perfformwyr ac unrhyw un arall.

(c) Ni fydd unrhyw berfformiad yn cynnwys defnyddio teclynnau rhyw (fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 a bydd rhaid i'r perfformwyr bob tro wisgo 'g-string' neu ddillad tebyg eraill ar y rhan berthnasol o'r corff.

(d) Dylai camerâu teledu cylch cyfyng wylio'r holl fannau perfformio yn yr eiddo gan gynnwys y mannau hynny sydd wedi'u neilltuo ar gyfer perfformiadau/dawnsiau preifat.

12.11 Mae'n rhaid i ymgeiswyr am drwyddedau newydd ac i amrywio trwyddedau presennol hefyd egluro beth yw natur unrhyw adloniant i oedolion a fydd yn digwydd yn yr eiddo. Os na ddarperir unrhyw wybodaeth o gwbl, tybir nad oes unrhyw fwriad i ganiatáu gweithgareddau o'r fath a bydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod amod i'r perwyl hwnnw.

**13 GORFODAETH**

13.1 Ceir protocolau ynglŷn â'r camau gorfodi y bydd yr Awdurdod a Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tan ac Achub yn eu gweithredu ar y cyd yn ogystal â phrotocol gweithdrefn orfodaeth leol y cytunwyd arno gan yr Awdurdod a'r Heddlu (gweler **Atodiad C)**.

13.2 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau gorfodi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, yr egwyddorion gorfodi a gytunwyd ac yn unol â pholisi gorfodaeth yr Awdurdod ei hun. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn cadw at brif egwyddorion cysondeb, tryloywder a chymesuredd.

**Adolygiadau**

13.3 Gall awdurdod cyfrifol neu unrhyw unigolyn ofyn i'r Awdurdod Trwyddedu adolygu trwydded eiddo oherwydd mater sy'n codi yn yr eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

13.4 Fel arfer, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gweithredu yn ei rôl fel Awdurdod Cyfrifol trwy alw am adolygiad ar ran pobl eraill, megis preswylwyr lleol neu grwpiau yn y gymuned. Mae gan yr unigolion a'r grwpiau hyn yr hawl i wneud hynny yn eu henw eu hunain pan fo ganddynt ddigon o sail i weithredu felly.

13.5 Pan fo gan Awdurdodau Cyfrifol bryderon am broblemau a ganfuwyd mewn eiddo, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer dda iddynt roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded o'u pryderon a'r angen am welliannau. Pan fo'n bosibl ac/neu'n briodol, disgwylir y byddai'r awdurdod yn rhoi cyngor ac arweiniad er mwyn mynd i'r afael â'r mater/materion.

13.6 Gall yr Heddlu weithredu dan y Ddeddf i gau eiddo am hyd at 24 awr ar sail anrhefn a niwsans sŵn. Mae ganddynt hefyd bwerau i wneud cais am adolygiad brys o drwydded eiddo sy'n gallu arwain at gau'r eiddo ar unwaith, lle bo eiddo sy'n gwerthu alcohol yn gysylltiedig â 'throseddau difrifol neu anrhefn ddifrifol neu'r ddau'.

13.7 Mae gan swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ragor o bwerau o dan Adrannau 76 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 i gau eiddo am 24 awr a hyd at 48 awr ar y sail bod sŵn o eiddo trwyddedig yn achosi niwsans cyhoeddus.

13.8 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dwyn sylw'r Awdurdodau Cyfrifol at gyhoeddiad y Swyddfa Gartref, "The Practical Guide for Preventing And Dealing with Alcohol Related Problems – What You Need To Know".

## 14 AMRYWIOL

### Danfoniadau Alcohol

14.1 Ar gyfer ymgeiswyr sy'n ceisio am drwydded fyddai'n caniatáu iddynt ddarparu alcohol fel rhan o wasanaeth danfon alcohol, dylent gynnwys yn eu hatodlen weithredu y gweithdrefnau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith i sicrhau:

(a) Bod yr unigolyn y maent yn gwerthu alcohol iddo dros 18 mlwydd oed.

(b) Na chaiff alcohol ond ei ddanfon i rywun sydd dros 18 mlwydd oed.

(c) Bod trywydd dogfen clir o'r broses archebu, o'r pwynt archebu i'r pwynt danfon, yn cael ei gadw (gydag amseroedd a llofnodion) a'i fod ar gael i'w archwilio gan swyddog awdurdodedig.

(d) Bod yr amser pan gaiff alcohol ei werthu ar y wefan/dros y ffôn a'r amser pan gaiff yr alcohol ei ddanfon o fewn yr oriau a nodir ar y drwydded ar gyfer gwerthu alcohol.

### Nwyddau Anghyfreithlon

14.2 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ceisiadau i adolygu trwyddedau pan fo tystiolaeth y bu alcohol anghyfreithlon yn cael ei werthu ar y safle. Pan fo nwyddau anghyfreithlon eraill, megis tybaco, wedi cael eu canfod, gallai'r Awdurdod Trwyddedu ystyried bod hyn yn dystiolaeth o reolaeth wael sydd â'r potensial i danseilio'r amcanion trwyddedu.

14.3 Ymagwedd yr Awdurdod Trwyddedu, sy'n gyson â'r Arweiniad a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, yw y bydd yn cymryd y mater o gyflenwi nwyddau anghyfreithlon yn o ddifrif gan fod y materion hyn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Gall Deiliaid Trwydded sy'n cyflenwi nwyddau anghyfreithlon ddisgwyl i'r Awdurdod Trwyddedu osod camau rheoli a sancsiynau ychwanegol, a bydd risg hefyd y byddant yn colli eu trwydded.

### Cysylltiad â pholisïau eraill

14.4 Wrth weithredu'r polisi hwn bydd yr Awdurdod, lle'n berthnasol, yn rhoi ystyriaeth ddyledus i bolisïau eraill a fabwysiadwyd. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i faterion cydraddoldeb, polisïau iaith Gymraeg a Diogelu yng nghyd-destun y Ddeddf Trwyddedu.

**Addasu i Ffactorau Allanol**

**14.5** Cydnabyddir yr ansicrwydd, y risgiau a'r heriau cyfredol o ganlyniad i bandemig COVID a dod allan o'r UE. Lle bo angen i'r Awdurdod addasu i ffactorau allanol sy'n cael effaith sylweddol ar gyflawni busnes bydd yn gwneud hynny mewn modd hyblyg ac ystwyth. Gwneir hyn mewn modd tryloyw sy'n cynnal egwyddorion y polisi hwn ac yn sicrhau parhad busnes cyn belled ag y bo modd.

**ATODIAD A – MANYLION CYSYLLTU AR GYFER CEISIADAU TRWYDDEDU**

Gellir gwneud ceisiadau am drwyddedau eiddo, tystysgrifau clwb, trwyddedau personol ac amrywiadau trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae cyngor ar gael cyn cyflwyno cais - codir tâl am y gwasanaeth hwn. Os ydych yn dymuno defnyddio'r gwasanaeth, cysylltwch â: trwyddedu@ynysmon.gov.uk

Gallwch gysylltu â'r adain drwyddedu trwy: trwyddedu@ynysmon.gov.uk

**ATODIAD B – AWDURDODAU CYFRIFOL**

1. **Heddlu Gogledd Cymru**

Cydlynydd Trwyddedu
Heddlu Gogledd Cymru
Gorsaf yr Heddlu
Yr Ala
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5BU
Ffôn : 01286 670053
e-bost : Elizabeth.Williams@nthwales.pnn.police.uk

2. **Teulu Môn**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 725 888
teulumon@ynysmon.gov.uk

3. **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gorsaf Dân
Ffordd Llanberis
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2DF
Ffôn : 01286 662999
e-bost : gwynedd.mon@nwales-fireservice.org.uk

4. **Safonau Masnach**

Rheolwr Safonau Masnach
Adain Gwarchod y Cyhoedd
Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 752 840
safonaumasnach@ynysmon.gov.uk

5. **Iechyd yr Amgylchedd**

Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd
Adain Gwarchod y Cyhoedd
Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor

LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 752 840
ehealth@ynysmon.gov.uk

6. **Cynllunio**

Rheolwr Datblygu Cynllunio
Adain Cynllunio
Adran Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW
01248 752 421
cynllunio@ynysmon.gov.uk

7. **Bwrdd Iechyd Gogledd Cymru**


Swyddog Gweinyddu ac Adnoddau
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd
Preswylfa
Ffordd Hendy
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1PZ
BCUHB.Licencing@wales.nhs.uk

8. **Gorfodaeth Mewnfudo y Swyddfa Gartref**

Alcohol Licensing Team
Lunar House
40 Wellesley Road
Croydon
CR9 2BY
Alcohol@homeoffice.gsi.gov.uk

**ATODIAD C – GWEITHDREFN ADOLYGU YN CYNNWYS GWEITHDREFN DATRYS PROBLEMAU A GORFODAETH**

GWEITHDREFN AR GYFER ADOLYGU EIDDO TRWYDDEDIG YN CYNNWYS DATRYS PROBLEMAU AR Y CYD




Dylid nodi y dyluniwyd y siart lif hon fel templed ar gyfer monitro eiddo trwyddedig trafferthus, ond gall Awdurdodau wneud yn groes i'r weithdrefn a amlinellir fel y bo angen fesul achos.

## PARTNERIAETH TRWYDDEDU HEDDLU GOGLEDD CYMRU A'R AWDURDOD LLEOL

## GWEITHDREFN ORFODAETH AR GYFER EIDDO

Dylid nodi mai pwrpas y weithdrefn orfodaeth yw sicrhau y gellir cwrdd â'r nod cyffredin o sicrhau 'trefniadaeth dda' ac 'arferion gorau' trwy gydweithio. Nid oes bwriad o gwbl i adolygu trwyddedau cyn belled â bod y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn fodlon rhoi sylw i unrhyw broblemau gyda chymorth Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Trwyddedu.

**Senario Enghreifftiol**

**CAM UN** - Achos o anrhefn/yfed dan oed/ymdrechion i brynu alcohol gan unigolyn dan oed neu ar ran unigolyn dan oed mewn/o eiddo trwyddedig lle mae'r unigolyn sydd â gofal yn galw'r Heddlu am gymorth ac yn cytuno i weithio gyda nhw.

**Os bydd problemau'n parhau, symudwch o Gam 1 i Gam 2**

**CAM DAU** - Cyfarfod rhwng yr Arolygydd Heddlu/Sarsiant Cymdogaeth, Adran y Gorllewin, Rheolwr yr Eiddo Trwyddedig a chynrychiolydd yr Awdurdod Lleol. Trafodir y materion yn ffurfiol a rhoddir rhybudd ysgrifenedig ffurfiol.

**Os bydd problemau'n parhau, symudwch o Gam 2 i Gam 3**

**CAM TRI** - Bydd yr Arolygydd Heddlu/Sarsiant Cymdogaeth, Adran y Gorllewin a Rheolwr yr Eiddo Trwyddedig yn gwneud cais am adolygiad o'r Drwydded Eiddo, fel sy'n briodol i'r amgylchiadau.

Cytunir ar **Gydgynllun Gweithredu** a fydd mewn grym am dri mis. Os na fydd unrhyw achosion pellach, gellir rhoi'r gorau i ddilyn y weithdrefn orfodaeth.

Bydd yr Heddlu'n gwneud popeth sy'n bosibl i gynorthwyo ac yn gweithio gyda Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig i roi'r gorau i orfod dilyn y weithdrefn orfodaeth. Fodd bynnag, mae gofyn i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig fod yn gyfrifol am redeg busnes/eiddo da.

Gall achosion mwy difrifol olygu symud ymlaen yn syth i gam dau neu gam tri yn awtomatig (e.e. gweini alcohol i bobl sydd wedi eu gwahardd dan y cynllun Pub Watch, ymosodiad ar heddwas gan Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig, staff awdurdodedig neu deulu). Mater i ddisgresiwn yr Arolygydd Heddlu yw hwn. Bydd gorfod defnyddio'r weithdrefn mwy na dwywaith (mewn unrhyw gyfnod o 12 mis) ar gyfer achos penodol yn arwain at adolygiad cam 3 ar unwaith (bydd mwy nag un yn arwain at adolygiad cam 2).

**ATODIAD D – DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU**

**Dirprwyo Swyddogaethau**

| **Mater** | **Pwyllgor Llawn** | **Is-bwyllgor** | **Swyddogion** |
|---|---|---|---|
| Cais am Drwydded Bersonol | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Os na chyflwynir sylwadau |
| Cais am Drwydded Bersonol gydag euogfarnau sydd heb ddarfod | | Pob achos | |
| Cais am Drwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb | | Os cyflwynir sylwadau perthnasol | Os na chyflwynir sylwadau perthnasol |
| Cais am Ddatganiad Dros Dro | | Os cyflwynir sylwadau perthnasol | Os na chyflwynir sylwadau perthnasol |
| Cais i Amrywio Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb | | Os cyflwynir sylwadau perthnasol | Os na chyflwynir sylwadau perthnasol |
| Cais i Amrywio Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais i beidio â bod yn Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig mwyach | | | Pob achos |
| Cais i Drosglwyddo Trwydded Eiddo | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais ar gyfer Awdurdodau Dros Dro | | Os ceir gwrthwynebiad gan yr Heddlu | Pob achos arall |
| Cais i Adolygu Trwydded Eiddo / Tystysgrif Eiddo Clwb | | Pob achos | |
| Penderfynu a yw Cwyn yn amherthnasol, yn wacsaw neu flinderus ac ati | | | Pob achos |
| Penderfyniad i wrthwynebu pan fo’r Awdurdod Lleol yn ymgynghorai ac nad yw’n awdurdod perthnasol sy’n ystyried y cais | | Pob achos | |
| Penderfynu ar wrthwynebiad yr Heddlu i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro | | Pob achos | |

**ATODIAD E – RHESTR TERMAU**

**<u>Nodwch os gwelwch yn dda y darperir y rhestr dermau hon er mwyn cyfeirio ati fel y bo angen. Ni chawsant eu defnyddio drwy’r Polisi cyfan ac fe’u darperir er arweiniad yn unig.</u>**

**Adolygiad** - Yn dilyn caniatáu **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** gall **awdurdod cyfrifol** neu **unigolyn arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded neu'r dystysgrif oherwydd mater sy'n codi yn yr eiddo mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

**Adolygiad barnwrol -** Yn cynnwys dim ond y rheiny lle hysbysodd yr Uchel Lys bartïon o'i benderfyniad yn y cyfnod amser penodedig.

**Adolygiad Brys/ Cryno -** Gall prif swyddog yr heddlu wneud cais am adolygiad brys/ cryno o **drwydded eiddo** oherwydd troseddau difrifol ac / neu anhrefn difrifol o dan a.53A **Deddf Trwyddedu 2003.**

**Amodau** - mae tri math o amodau

1. **Amodau Arfaethedig** - amodau a gynigir gan yr ymgeisydd yn yr atodlen weithredu

2. **Amodau a osodir** - amodau a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu ar ôl gofyn am ei ddisgresiwn yn dilyn derbyn sylwadau perthnasol.

3. **Amodau Gorfodol** - amodau a ragnodir gan y Ddeddf ac maent yn cael eu cynnwys ym mhob trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb pan fo gweithgareddau trwyddedadwy penodol yn cael eu cynnal.

**Amrywiad (i drwydded eiddo)** - Ceisiadau a wneir o dan adran 34 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **drwydded eiddo**, er enghraifft yr oriau agor, y gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau. Mae’r ffi ar gyfer amrywio **DPS** wedi’i rhagnodi yn y Ddeddf.

**Amrywiad (i dystysgrif eiddo clwb)** - Ceisiadau a wneir o dan adran 84 **Deddf Trwyddedu 2003** i newid telerau'r **dystysgrif eiddo clwb**, er enghraifft gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau.

**Ardal effaith gronnol** – Ardal mae’r **awdurdod trwyddedu** wedi nodi yn eu datganiad polisi trwyddedu fel un sydd â dirlawnder o eiddo trwyddedig a gallai'r 'effaith gronnol' o unrhyw eiddo trwyddedig ychwanegol gael effaith andwyol ar yr amcanion trwyddedu statudol.

**Awdurdod cyfrifol** - cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid eu hysbysu am geisiadau **trwydded eiddo** penodol neu **dystysgrif eiddo clwb** ac mae ganddynt hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Maent yn cynnwys.

- yr awdurdod trwyddedu ac unrhyw awdurdod trwyddedu arall dros yr ardal mae’r eiddo wedi'i leoli,
- prif swyddog yr heddlu sy’n gyfrifol am yr ardal ble y mae’r eiddo wedi’i leoli,
- yr awdurdod tân ac achub ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli
- y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod gorfodi ar gyfer y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y gwaith ac ati 1974 ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal y risg o lygru'r amgylchedd neu o niwed i iechyd pobl mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli,
- corff sy'n cynrychioli rhai sydd, mewn perthynas ag unrhyw ardal o'r fath, yn gyfrifol am, neu â diddordeb mewn, materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, ac maent yn gymwys i roi cyngor ar faterion o'r fath,
- mewn perthynas â llong, awdurdod mordwyo sydd â swyddogaethau mewn perthynas â dyfroedd lle mae'r llong wedi ei hangori neu ei docio, neu unrhyw ddyfroedd lle mae, neu y bwriedir iddo, fordwyo ar adeg pan mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am bwysau a mesurau mewn unrhyw ardal lle mae'r eiddo wedi'i leoli.

**Awdurdod trwyddedu** - yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am drwyddedu alcohol, adloniant rheoledig a lluniaeth hwyr y nos.

**Bandiau Ffi** - Wrth benderfynu ar y swm ffi'r drwydded ar gyfer ceisiadau am **drwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb newydd**, ac amrywiadau llawn i drwyddedau neu dystysgrifau, mae pob eiddo yn disgyn i fand yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Ers cyflwyno Deddf 2003 tan 2012/13, mae'r ffioedd ceisiadau sy'n gysylltiedig â phob band am drwydded neu dystysgrif newydd wedi bod fel a ganlyn: Band A (£100); Band B (£190); Band C (£315); Band D [dim **lluosydd**] (£450); Band D trwydded eiddo gyda **lluosydd** (£900); Band E [dim lluosydd] (£635); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1905). Mae'r ffioedd blynyddol dilynol sy'n gysylltiedig â phob trwydded neu dystysgrif fel a ganlyn: Band A (£70); Band B (£180); Band C (£295); Band D [dim lluosydd] (£320); Band D trwydded eiddo gyda lluosydd (£640); Band E [dim lluosydd] (£350); Band E trwydded eiddo gyda lluosydd (£1,050).

**Clwb cymwys -** Mae'n rhaid i nifer o feini prawf gael eu bodloni cyn cael ei ystyried yn glwb cymwys am **dystysgrif eiddo clwb**. Sef:

- dan reolau'r clwb, na fydd pobl yn cael eu derbyn am aelodaeth neu gael eu derbyn fel ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth, neu i unrhyw un o freintiau aelodaeth heb gyfnod o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng eu henwebiad ar gyfer aelodaeth a'u derbyn;
- bod y clwb wedi'i sefydlu a'i gynnal mewn ewyllys da fel clwb;
- bod gan y clwb o leiaf 25 aelod; a
- nad yw alcohol yn cael ei gyflenwi i aelodau yn yr eiddo ac eithrio gan neu ar ran y clwb.

**Darfod (trwydded eiddo)** - Pan mae **trwydded eiddo** wedi dod i ben oherwydd marwolaeth, analluogrwydd, ansolfedd ac ati deiliad y drwydded, fel y nodir o dan adran 27 **Deddf Trwyddedu 2003**. Nid yw'n cynnwys achosion lle'r oedd trwydded eiddo mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny (e.e. digwyddiadau un-tro).

**Darfod (tystysgrif clwb)** – Pan mae **tystysgrif eiddo clwb** wedi dod i ben oherwydd ei fod wedi bod mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny.

**Dirymu (trwydded bersonol)** - Os yw'r deiliad **trwydded bersonol** yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd yn ystod y cyfnod ymgeisio am y drwydded, gall y drwydded gael ei dirymu o dan a.**124 Deddf Trwyddedu 2003**.

**Fforffedu (trwydded bersonol)** - Atal yn dilyn gorchymyn llys o dan a.129 **Deddf Trwyddedu 2003** penodedig (a lle nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi cael ei atal dros dro, hyd nes apêl o dan a.129(4) neu 130 o'r Ddeddf).

**Gorchymyn ardoll hwyr y nos** - Pŵer dewisol i **awdurdodau trwyddedu** o dan adran 125 Deddf **Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011**. Mae'r ardoll hwyr y nos yn cael ei dalu gan yr eiddo trwyddedig hynny i werthu alcohol yn hwyr yn y nos i godi cyfraniad tuag at gostau plismona'r economi hwyr y nos.

**Gorchymyn cyfyngu alcohol yn gynnar yn y bore** - Pŵer o dan adran 119 **Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol o amser rhwng yr oriau o 12am a 6am, os ystyrir yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

**Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS)** – Fel arfer, hwn fydd yr unigolyn sydd wedi cael y cyfrifoldeb am redeg yr eiddo o ddydd i ddydd gan y deiliad **trwydded eiddo**. Mae'n ofynnol i bob trwydded eiddo sy'n awdurdodi gwerthu alcohol o dan Ddeddf 2003 i nodi DPS. Rhaid i'r DPS fod yn ddeiliad **trwydded bersonol**. Yr unig eithriad yw ar gyfer eiddo cymunedol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i'r ALl i gael eu heithrio o'r gofyniad.

**Gwerthu Alcohol i'w yfed ar yr eiddo** - Gwerthu alcohol trwy fanwerthu a'i gyflenwi (gan glybiau) i'w yfed ar yr eiddo.

**Gwerthu Alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo** – Gwerthu alcohol trwy fanwerthu i'w yfed oddi ar yr eiddo

**Gwrandawiad** - A ddefnyddir yng nghyd-destun ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** sy'n mynd i wrandawiad ar gyfer penderfynu ar geisiadau am drwydded eiddo, ar gyfer datganiadau dros dro, i amrywio trwydded eiddo, am dystysgrifau eiddo clwb, ac i amrywio tystysgrifau eiddo clwb.

**Hysbysiad o ddigwyddiad dros dro (TEN)** - Hysbysiad o dan adran 100 **Deddf Trwyddedu 2003**, a ddefnyddir i awdurdodi gweithgareddau trwyddedadwy ar raddfa fach yn gymharol, yn amodol ar feini prawf a'r terfynau penodol. Mae'n cynnwys yn unig hysbysiadau sydd wedi cael eu rhoi yn gywir ac yn briodol yn y cyfnod amser penodol h.y. mae'n eithrio hysbysiadau a gafodd eu hanfon yn ôl oherwydd camgymeriadau ar y ffurflen. Mae hyn hefyd yn cynnwys hysbysiadau a gafodd eu tynnu'n ôl ar ôl hynny. Mae'r ffi ar gyfer TEN wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

**Ildio (trwydded)** - Os yw'r deiliad trwydded yn dymuno ei hildio, mae'n cael ei wneud yn unol â darpariaethau o dan adran 28 (am **drwydded eiddo**), adran 81 (am **dystysgrif clwb**) ac adran 116 (ar gyfer **trwydded bersonol**).

**Lluniaeth gyda'r hwyr** - Darparu bwyd poeth neu ddiod i'r cyhoedd, i'w yfed ar neu oddi ar yr eiddo, rhwng 11pm a 5am neu gyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth i unrhyw un rhwng yr oriau hynny ar neu o eiddo lle mae mynediad i'r cyhoedd.

**Lluosydd** – Caiff lluosyddion eu defnyddio mewn perthynas ag eiddo a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn yr eiddo o dan awdurdodiad **trwydded eiddo** (**bandiau ffioedd** D ac E yn unig).

**Mân amrywiad (i drwyddedu neu dystysgrif)** - Ceisiadau a wneir o dan a.41A neu a.86A **Deddf Trwyddedu 2003** i wneud newidiadau risg isel i delerau **trwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Mae'r ffi ar gyfer mân amrywiad wedi'i ragnodi yn y Ddeddf.

**Personau Awdurdodedig** - personau awdurdodedig yw cyrff â grym i wneud gwaith arolygu a gorfodi o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

**Personau eraill** - Unrhyw unigolyn, corff neu fusnes sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ganiatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb**. Gall unigolion eraill gyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu perthnasol, a gallant ofyn am adolygiad o'r drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb.

**Sylwadau perthnasol** - Sylwadau sydd am effaith debygol caniatáu ceisiadau am **drwydded eiddo** neu **dystysgrif eiddo clwb** ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, sy'n cael eu gwneud gan awdurdod cyfrifol neu unigolyn arall o fewn y cyfnod a ragnodir o dan adran 17(5)(c) o'r Ddeddf, sydd heb gael eu tynnu'n ôl, ac yn achos y sylwadau a wnaed gan bobl eraill, nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu perthnasol yn wacsaw neu'n flinderus.

**Trwydded bersonol** – Yn awdurdodi unigolyn i gyflenwi neu awdurdodi cyflenwi alcohol yn unol â **thrwydded eiddo** o dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae ffi'r cais am drwydded bersonol yn cael ei rhagnodi yn y Ddeddf.

**Trwydded Safle** - Awdurdodi eiddo i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol, darparu adloniant rheoledig neu ddarparu **lluniaeth hwyr y nos**, dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau eiddo â therfyn amser. Mae ffi trwydded eiddo yn seiliedig ar ei werth ardrethol annomestig. Mae ffioedd cais yn amrywio o £100 (Band A) i £1,905 (Band E gyda lluosydd); mae ffioedd blynyddol yn amrywio o £70 i £1,050.

**Tystysgrif eiddo clwb –** Yn awdurdodi **clwb cymwys** i gynnal 'gweithgareddau clwb cymwys' o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae hyn yn cynnwys tystysgrifau â chyfyngiad amser.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 18 Mai 2021 |
| **TEITL:** | Penderfyniadau Gweithredol rhwng mis Awst 2020 ac Ebrill 2021 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar y penderfyniadau gweithredol a wnaed yn ystod y flwyddyn hyd yma |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568)<br>lbxcs@ynysmon.gov.uk |

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith (a gynhwysir yn Rhan 4.4 Cyfansoddiad y Cyngor), *"Gall yr Arweinydd ddiwygio'r cynllun dirprwyo i swyddogaethau gweithredol unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. I wneud hynny, rhaid i'r Arweinydd roi rhybudd ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr ac i'r person, corff neu Bwyllgor dan sylw. Rhaid i'r rhybudd gyflwyno maint y diwygiad i'r cynllun dirprwyo, a ph'run a yw'n golygu tynnu dirprwyaeth oddi ar unrhyw berson, corff, Pwyllgor neu'r Pwyllgor Gwaith yn gyffredinol. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i Gyfarfod Arferol nesaf y Cyngor yn nodi'r newidiadau a wnaed gan yr Arweinydd."* (Paragraff 4.4.1.4.2)

1.2 Yn adroddiad y llynedd, fe adroddwyd, o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws bod yr Arweinydd wedi diwygio'r cynllun dirprwyo ar 23 Mawrth 2020. Cafwyd diwygiad pellach ar 13 Awst 2020. Mae manylion y newidiadau wedi eu cynnwys ym mharagraff 3.5 isod.

1.3 Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â pharagraff 1.1 uchod ac ar gais Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor.

## 2. Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor – y cynllun dirprwyo

2.1 Mae Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu'r cyfrifoldebau am wneud penderfyniadau mewn perthynas â gwahanol swyddogaethau'r Cyngor (cynllun dirprwyo'r Cyngor).

2.2 Mae cynllun dirprwyo'r Cyngor yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud holl benderfyniadau'r awdurdod lleol nad ydynt wedi cael eu dirprwyo i unrhyw ran arall o'r awdurdod lleol h.y. bydd yn benderfyniad gweithredol oni bai y nodwyd, mewn cyfraith neu o dan y Cyfansoddiad, ei fod yn benderfyniad i'r Cyngor llawn, pwyllgor rheoleiddio neu'n benderfyniad i swyddogion. Mae hyn yn cydymffurfio â'r manylion yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 [sy'n darparu gwybodaeth am benderfyniadau (a) na chaniateir i Bwyllgor Gwaith eu gwneud a (b) penderfyniadau a all fod yn rhai na chaniateir i Bwyllgor Gwaith eu gwneud].

## 3. Penderfyniadau Gweithredol

3.1 Mae Adran 3.3. y Cyfansoddiad yn manylu ar y penderfyniadau y bydd y Pwyllgor Gwaith yn eu gwneud. Yr Arweinydd sy'n gyfrifol am ddirprwyo swyddogaethau gweithredol.

3.2 Bydd penderfyniadau gweithredol yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfanrwydd, neu gellir eu gwneud gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith (yr Arweinydd/Deilyddion Portffolio), neu Bwyllgorau'r Pwyllgor Gwaith, neu swyddogion yn gweithredu dan awdurdod gweithredol dirprwyedig penodol.

3.3 Penderfyniadau Cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith:

Mae penderfyniadau gweithredol gan y Pwyllgor Gwaith yn cael eu gwneud mewn cyfarfodydd a gynhelir bob mis fel arfer. . Y cyfarfod ar 17 Mai 2021 fydd y cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Gwaith i gael ei ffrydio'n fyw ers mis Mawrth 2020. Mae'r penderfyniadau a wneir ym mhob cyfarfod yn cael eu cyhoeddi yn dilyn y cyfarfod.

3.4 Penderfyniadau gan Ddeilydd Portffolio:

Gwneir penderfyniadau gan Ddeilydd Portffolio yn unol â'r ddirprwyaeth Pwyllgor Gwaith sefydlog ac yn unol â Disgrifiad Swydd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith.

Casglwyd ynghyd y penderfyniadau a wnaed gan bob Deilydd Portffolio yn ystod y cyfnod cyfredol ac maent ynghlwm yn yr Atodiadau a ganlyn i'r adroddiad hwn:

| **Deilydd Portffolio** | **Cynghorydd yn y swydd** | **Atodiad** |
|---|---|---|
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Y Cynghorydd Richard Dew | Dim i'w adrodd |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Y Cynghorydd Llinos M Huws (Arweinydd) | **1** |
| Datblygiadau Mawr a Datblygu'r Economi | Y Cynghorydd Carwyn Jones | **2** |
| Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant | Y Cynghorydd R Meirion Jones | Dim i'w adrodd |
| Tai, Cefnogi Cymunedau a Diogelwch Cymunedol | Y Cynghorydd Alun Mummery | Dim i'w adrodd |
| Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff | Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS | **3** |
| Busnes Corfforaethol | Y Cynghorydd Dafydd R Thomas | Dim i'w adrodd |
| Trawsnewid Gwasanaethau a'r Iaith Gymraeg | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd) | Dim i'w adrodd |
| Cyllid | Y Cynghorydd Robin Williams | **4** |

3.5 Penderfyniadau'r Arweinydd:

Yn unol â'r pwerau a roddir gan ddeddfwriaeth, a gan Gyfansoddiad y Cyngor, gall yr Arweinydd wneud unrhyw benderfyniadau gweithredol yn ogystal; gan gynnwys y rhai hynny a gafodd eu dirprwyo i eraill.

Mewn ymateb i bandemig y coronafeirws, diwygiwyd y ddirprwyaeth arferol ar gyfer penderfyniadau gweithredol gan yr Arweinydd drwy ddirprwyaeth a lofnodwyd ar 23 Mawrth 2020. Adroddwyd hyn i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020.

Gwnaed diwygiad pellach i'r broses ddirprwyo ar gyfer penderfyniadau Pwyllgor Gwaith drwy ddirprwyaeth ar 13 Awst 2020.

Ceir rhestr o bob penderfyniad a wnaed gan yr Arweinydd yn ystod cyfnod yr adroddiad yn **Atodiad 5**.

## 4. Argymhellion

I'r Cyngor nodi'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, drwy ddulliau amrywiol, yn unol â'r cynllun dirprwyo a gynhwysir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

**Atodiad 1 – Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol**

| Dyddiad | Dolen i'r Cofnod o Benderfyniad | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Mawrth 2021 | 19 Mawrth 2021 - cofnod o benderfyniad gweithredol a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol [1409 kb \| PDF] | Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Gydraddoldeb 2019/20, i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2021. |

**Atodiad 2 – Deilydd Portffolio Datblygiadau Mawr a Datblygu'r Economi**

| Dyddiad | Dolen i'r Cofnod o Benderfyniad | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Mawrth 2021<br>[Ar y cyd efo'r Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid – gweler Atodiad 4] | 19 Mawrth 2021 - cofnod o benderfyniad gweithredol a wnaed gan y Deilyddion Portffolio ar gyfer Cyllid a Datblygu Economaidd [511 kb \| PDF] | 1. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r cynnig i ymrwymo i Gyd-Fenter gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer y Safle Gateway er mwyn tynnu cyllid i lawr ar gyfer y gwaith archeolegol a chlirio'r safle sy'n ofynnol i ddatblygu 6 llain â gwasanaeth a fydd yn cael eu gwerthu i'r sector preifat i'w datblygu ymhellach.<br>2. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r cynnig i ymrwymo i Gyd-Fenter gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymal 2 Ystâd Ddiwydiannol Penrhos, i ddatblygu 7 uned ddiwydiannol i'w gosod, ac i gymeradwyo rhyddhau £ 150k o falansau cyffredinol neu gronfeydd wrth gefn sydd heb eu clustnodi cyfateb cyfraniad cyllid. Y JV i'w amsugno i'r JV blaenorol ar gyfer Cymal 1.<br>3. Dirprwyo'r awdurdod i dderbyn y JVs ac i gymeradwyo unrhyw amodau ynddynt i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) & S151 mewn ymgynghoriad â'r Deiliaid Portffolio perthnasol â'r Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.<br>4. Eithrio gallu galw'r penderfyniad i fewn oherwydd y brys i sicrhau'r cyllid.<br>5. Llofnodi'r cytundebau cyfreithiol a llunio'r cyllid erbyn 31 Mawrth 2021.<br>6. Neilltuo unrhyw incwm o gwerthiannau safle y Gateway tuag at gefnogi a datblygu blaenoriethau Datblygu Economaidd yn y dyfodol. |

**Atodiad 3 –Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff**

| **Dyddiad** | **Dolen i'r Cofnod o Benderfyniad** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| Tachwedd 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a Wnaed Gan y Deilydd Portffolio ar Gyfer y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo – 20 Tachwedd, 2020 [1331 kb \| PDF] | I awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) i:<br>1. Drosglwyddo'r cyfrifoldebau o ddydd i ddydd a'r gwariant cysylltiedig â'r prosiect Hwb Hydrogen Caergybi i Menter Môn ar gyfer ei ddarparu (yn unol â chyfansoddiad CSYM);<br>2. Cymeradwyo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (neu debyg) rhwng CSYM a Menter Môn er mwyn galluogi'r ddau sefydliad i weithio mewn partneriaeth.<br>3. Sefydlu trefniadau llywodraethiant a monitro priodol er mwyn sicrhau bod amodau'r grant yn cael eu cydymffurfio â nhw yn llawn. |
| Chwefror 2021 | Lawrlwytho: Cofnod o benderfyniad gweithredol a wnaed gan y deilydd portffolio ar gyfer y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo – 19 Chwefror 2021 [1132 kb \| PDF] | Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) i<br>1. Drosglwyddo cyfrifoldebau dydd i ddydd a'r gwariant i gyflawni'r Gronfa Economi Gylchol Adferiad Gwyrdd (yn unol â Chyfansoddiad CSYM);<br>2. Cymeradwyo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (neu gyffelyb) rhwng CSYM a Menter Môn er mwyn caniatáu i'r ddau sefydliad weithio mewn partneriaeth.<br>3. Sefydlu trefniadau llywodraethu a monitro priodol i sicrhau y cydymffurfir yn llawn ag amodau'r grant. |
| Mawrth 2021 | 10 Mawrth 2021 - cofnod o benderfyniad gweithredol a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo [397 kb \| PDF] | Nad yw'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG) ar gyfer gwelliannau priffyrdd i'r A5025 a'i fod yn cadarnhau hynny gyda Gweinidogion Cymru. Felly bydd Gweinidog Cymru yn cyhoeddi rhybudd penderfyniad lle bydd yn gwrthod cadarnhau'r GPG a Gorchmynion Ffyrdd Ochr (GFfO).<br>Horizon yn terfynu'r Cytundeb Cydweithio a'r Cytundeb Indemnio a bod cyllid a gedwir yn y Cyfrif Ysgrow yn cael ei ddychwelyd i Horizon (llai rhwymedigaethau CSYM) unwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn cadarnhau eu bod yn gwrthod cadarnhau'r GPG. |

**Atodiad 4 – Deilydd Portffolio Cyllid**

| Dyddiad | Dolen i'r Cofnod o Benderfyniad | Penderfyniad |
|---|---|---|
| Mawrth 2021<br>[Ar y cyd efo'r Deilydd Portffolio ar gyfer projectau Mawr a Datblygu Economaidd – gweler Atodiad 2] | 19 Mawrth 2021 - cofnod o benderfyniad gweithredol a wnaed gan y Deilyddion Portffolio ar gyfer Cyllid a Datblygu Economaidd [511 kb \| PDF] | 1. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r cynnig i ymrwymo i Gyd-Fenter gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer y Safle Gateway er mwyn tynnu cyllid i lawr ar gyfer y gwaith archeolegol a chlirio'r safle sy'n ofynnol i ddatblygu 6 llain â gwasanaeth a fydd yn cael eu gwerthu i'r sector preifat i'w datblygu ymhellach.<br>2. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r cynnig i ymrwymo i Gyd-Fenter gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymal 2 Ystâd Ddiwydiannol Penrhos, i ddatblygu 7 uned ddiwydiannol i'w gosod, ac i gymeradwyo rhyddhau £ 150k o falansau cyffredinol neu gronfeydd wrth gefn sydd heb eu clustnodi cyfateb cyfraniad cyllid. Y JV i'w amsugno i'r JV blaenorol ar gyfer Cymal 1.<br>3. Dirprwyo'r awdurdod i dderbyn y JVs ac i gymeradwyo unrhyw amodau ynddynt i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) & S151 mewn ymgynghoriad â'r Deiliaid Portffolio perthnasol â'r Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.<br>4. Eithrio gallu galw'r penderfyniad i fewn oherwydd y brys i sicrhau'r cyllid.<br>5. Llofnodi'r cytundebau cyfreithiol a llunio'r cyllid erbyn 31 Mawrth 2021.<br>6. Neilltuo unrhyw incwm o gwerthiannau safle y Gateway tuag at gefnogi a datblygu blaenoriethau Datblygu Economaidd yn y dyfodol. |

**Atodiad 5 - Arweinydd**

| **Dyddiad** | **Dolen i'r Cofnod o Benderfyniad** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| Awst 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a Wnaed gan yr Arweinydd - 13 Awst, 2020 [632 kb \| PDF] | Y ffi a godir ar yr holl Aelodau Hamdden Debyd Uniongyrchol fydd y gyfradd allfrig, sef £19.50, a hynny oherwydd ailagor y canolfannau fesul cam sy'n golygu bod llai o gyfleusterau'n cael eu cynnig i'n cwsmeriaid. |
| Awst 2020 | Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a Wnaed gan yr Arweinydd - 21 Awst, 2020 [886 kb \| PDF] | • Bod y Cyngor yn cytuno i ymrwymo i'r Cytundeb RhyngAwdurdod (CRhA) ar gyfer y Prosiect POD rhanbarthol ynghyd â'r 5 Awdurdod Lleol arall yng Ngogledd Cymru ar ôl cytuno ar y telerau;<br>• Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr (ar ôl iddi ymgynghori â'r Gwasanaethau Cyllid, AD a Chyfreithiol fel y bydd yn ystyried yn briodol) i gytuno termau'r CRhA ac i drefnu iddo gael ei weithredu ar ran y Cyngor;<br>• Gan fod yn rhaid i'r Prosiect POD ddechrau yn gynnar ym mis Medi, mae'r penderfyniad hwn yn un y mae brys amdano ac ni ddylai fod yn destun y drefn galw i mewn. |
| Ebrill 2021 | 06 Ebrill 2021 - Cofnod o Benderfyniad Gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd [801 kb \| PDF] | 1. I ryddhau swm penodol o arian o Arian Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor er mwyn ariannu'r gwaith cychwynnol mewn perthynas â'r nam;<br>2. Awdurdodi'r swyddogion perthnasol i ymgymryd â'r gwaith er mwyn adnabod y rhesymau am y nam ac i wneud trefniadau ar gyfer gwaith adfer;<br>3. Awdurdodi swyddogion penodol i ystyried camau er mwyn adennill y costau llawn o unrhyw waith atgyweirio gan unrhyw barti atebol. |